



| Canllaw Cynllun Rheoli Adnoddau Dwr

Fersiwn 10: I'w chyhoeddi

Cynnwys

Canllaw Cynllun Rheoli Adnoddau Dwr	a
Adran 1 – Cynllunio ar gyfer cyflenwad dŵr sy'n ddiogel a chynaliadwy	4
1.1. Eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr	4
1.4. Rolau a chyfrifoldebau rheoleiddwyr	7
1.5. Sicrwydd	8
1.6. Cysylltiadau â chynlluniau eraill	9
A. Cynllun amgylcheddol 25 mlynedd y llywodraeth (Lloegr).....	9
B. Strategaeth Ddŵr i Gymru (Cymru yn unig)	9
Ch. Cynlluniau busnes.....	10
D. Cynlluniau sychder.....	10
Dd. Cynlluniau Rheoli Basn Afon.....	10
E. Cynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff.....	11
F. Cynlluniau diogelwch dŵr yfed (neu asesiadau risg).....	11
G. Strategaethau Adfer Natur Lleol (Lloegr)	11
Ng. Cynllun Gweithredu Adfer Natur (Cymru).....	11
1.7. Rhagor o ganllawiau	12
Adran 2 – Cynllunio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol	12
Adran 3 – Sut i lunio a chynnal Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr	15
3.3. Y cam cyn ymgynghori	17
3.3.1. Ymgynghoreion statudol	17
3.3.2. Ymgynghoreion anstatudol	18
3.3.3 Ymgynghori â rheoleiddwyr	19
Adran 4 – Sail y cynllunio	26
4.1.1. Ystyriaethau lefel uchel.....	27
Adran 5 – Datblygu eich rhagolwg cyflenwad	38
5.2. Beth i'w gynnwys yn eich rhagolwg cyflenwad sylfaenol.....	39
5.4.1. Gofynion statudol cyfredol a disgwyliadau rheoliadol	42
5.4.2. Datblygu eich cyrchfan amgylcheddol hirdymor.....	42
5.12. Ansawdd dŵr yfed	49
Adran 6 – Datblygu eich rhagolwg o'r galw	52
Lloegr	55
6.4.1. Data a methodolegau	59
6.4.2. Rhagolwg o'r galw gan gwsmeriaid yn y flwyddyn sylfaen.....	60
6.4.3. Rhagolwg o'r galw gan gwsmeriaid yn y cynllun sylfaenol.....	61
6.5. Rhagweld eich defnydd dibreswyl.....	61

6.5.1. Manwerthwyr.....	63
6.5.2. Gwybodaeth y dylech ei darparu yn eich cynllun	64
6.6. Rhagweld gollyngiadau	65
6.6.1. Gollyngiadau yn y flwyddyn sylfaen	65
6.6.2. Rhagolwg gollyngiadau sylfaenol.....	66
6.8. Effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar y galw	66
Adran 7 – Ystyried ansicrwydd.....	67
Adran 8 – Nodi opsiynau posibl	68
8.2.1. Sgrinio pellach	72
8.2.2. Asesu cyfyngiadau amgylcheddol.....	72
8.3.1. Gwybodaeth am gostau	75
8.3.2. Lleihau a chymryd allyriadau nwyon tŷ gwydr i ystyriaeth.....	76
Adran 9 – Agweddau i'w hystyried wrth lunio cynllun gwerth gorau.....	78
9.4.1. Cyfalaf naturiol.....	84
9.4.2. Asesiad Amgylcheddol Strategol.....	84
9.4.3. Rheoliadau Cynefinoedd	85
9.4.4. Gwella bioamrywiaeth (Lloegr).....	86
9.4.5. Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.....	87
9.4.6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	87
9.4.7. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016	88
9.4.8. Pethau eraill i'w hystyried.....	88
10. Sut i lunio'ch cynllun gwerth gorau	89
10.2. Gosod amcanion clir ar gyfer eich cynllun	90
10.3. Metrigau.....	91

Adran 1 – Cynllunio ar gyfer cyflenwad dŵr sy'n ddiogel a chynaliadwy

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i gwmnïau dŵr yng Nghymru ac yn Lloegr. Mae hefyd yn berthnasol i'r rhai sy'n llunio cynlluniau rhanbarthol.

1.1. Eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr

Os ydych yn gwmni dŵr yng Nghymru neu yn Lloegr, mae'n rhaid i chi baratoi a chynnal Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr. Mae eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn nodi sut rydych yn bwriadu cyflawni cyflenwad dŵr diogel i'ch cwsmeriaid ynghyd â gwell amgylchedd sydd wedi'i ddiogelu. Nodir y ddyletswydd i baratoi a chynnal Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn adrannau 37A–37D o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.¹ Mae'n rhaid i chi baratoi cynllun o leiaf bob pum mlynedd a'i adolygu'n flynyddol.

Yn eich cynllun, mae'n rhaid i chi ragweld eich cyflenwad a'ch galw dros yr isafswm cyfnod statudol o 25 mlynedd o leiaf. Os ydych yn rhagweld diffyg, dylech ystyried opsiynau cyflenwi i gynyddu swm y dŵr sydd ar gael i chi a'ch opsiynau o ran y galw sy'n lleihau faint o ddŵr y mae ei angen ar eich cwsmeriaid.

Er mwyn penderfynu ar eich rhaglen ddewisol, dylech nodi ac arfarnu amrywiaeth o opsiynau a chyfiawnhau detholiad yr opsiynau sydd wedi cael eu cynnwys yn eich cynllun dewisol. Os nad oes gennych ddiffyg, dylech ddal i lunio cynllun gwerth gorau sy'n ystyried polisi'r llywodraeth ac amcanion ehangach fel cynyddu eich gwarged i hwyluso masnachu dŵr.

1.1.1 Cynllunio'n seiliedig ar ganlyniadau

Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar y gofynion cyfreithiol a'r dulliau technegol y dylech eu dilyn i ddatblygu Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr. Dylech ystyried y canllaw hwn ar y cyd ag unrhyw bolisiâu perthnasol gan y llywodraeth ac unrhyw ddisgwyliadau perthnasol o ran canlyniadau.

Dylai eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr gyflawni adnoddau dŵr gwydn a chynaliadwy yn effeithlon i'ch cwsmeriaid a'r amgylchedd, ar hyn o bryd a thros y tymor hir. Dylai'r amcan hwn fod wrth wraidd eich holl ddulliau a phenderfyniadau cynllunio.

Dylech fod yn dryloyw o ran eich dulliau, data, rhagdybiaethau a phenderfyniadau fel y gall cwsmeriaid, rhanddeiliaid, rheoleiddwyr a'r llywodraeth ddeall eich cynllun a

¹ Sylwer y gall Bil Amgylchedd ddiwygio'r ddeddfwriaeth hon. Bydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru'n dweud wrthyfych am unrhyw newidiadau drwy ddiwygio'r canllawiau hyn os bydd unrhyw ofynion yn newid yn ystod cyfnod paratoi eich cynllun.

chyflwyno sylwadau arno. Dylai eich dulliau fod yn gymesur â chymhlethdod eich problem.

1.2. Y canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio i'ch helpu i lunio cynllun sy'n cydymffurfio â'r holl ofynion statudol perthnasol a pholisi'r llywodraeth. Yn y canllaw hwn, rydym wedi defnyddio'r gair 'rhaid' lle mae'r cam gweithredu'n berthnasol i ofyniad statudol. Os nad ydych yn dilyn cam 'rhaid', mae yna risg uchel y byddwch yn llunio cynllun nad yw'n cydymffurfio'n gyfreithiol.

Rydym wedi defnyddio'r gair 'dylai/dylech/dylid', lle'r ydym yn credu bod angen cymryd y cam gweithredu hwn i lunio cynllun digonol.

Os ydych chi, neu grŵp rhanbarthol, yn penderfynu defnyddio dull gwahanol, dylech ddangos yn glir sut rydych yn cyflawni eich rhwymedigaethau o hyd. Dylech drafod y dull hwn gyda rheoleiddwyr. Mae rheoleiddwyr yn hollol gefnogol o ddulliau newydd ond bydd angen iddynt weithio gyda chi i ddeall ac adolygu'r rhain.

Os yw'r canllawiau i gwmnïau dŵr sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, a'r rhai sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr, yn amrywio'n sylweddol, rydym wedi cyfeirio at y cwmnïau hyn fel a ganlyn:

- i gwmnïau sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr – 'Lloegr' neu 'gwmnïau dŵr yn Lloegr'
- i gwmnïau sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru – 'Cymru' neu 'gwmnïau dŵr yng Nghymru'

Mae yna elfennau o'r canllaw sy'n destun gofynion deddfwriaethol neu reoleiddiol penodol sy'n alinio â ffiniau daearyddol Cymru neu Loegr. Mae'r prif feysydd y mae hynny'n ymwneud â hwy fel a ganlyn:

- gosod eich cyrchfan amgylcheddol
- ystyried yr amgylchedd a chymdeithas wrth wneud penderfyniadau
- cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol, yr Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
- am gynlluniau sy'n effeithio ar Gymru, rhwymedigaethau mewn perthynas â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

1.3. Datblygu eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr

Dylai eich cynllun fabwysiadu golwg tymor hir, gan osod cyfnod cynllunio sy'n briodol i risgiau eich cwmni a'ch rhanbarth, ond sy'n ymwneud â'r isafswm cyfnod statudol o 25 mlynedd o leiaf. Efallai y bydd hi'n briodol, gan ddibynnu ar yr heriau a'r risgiau rydych yn eu hwynebu, a'r rhai yn y cynllun rhanbarthol perthnasol,² i chi gynllunio ar gyfer yr hanner can mlynedd nesaf neu'n fwy. Mae hyn fel bod eich cynllun yn nodi datrysiadau priodol i ymateb i bwysau yn y dyfodol. Dylai eich cynllun gyfrannu at amgylchedd gwell a mwy diogel.

Cyn i chi ddiwygio eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr, dylech adolygu pa rannau o'ch Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr blaenorol sy'n dal i fod yn berthnasol. Dylai eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr blaenorol (fel cynllun tymor hir cytunedig) fod yn fan cychwyn i chi lunio eich cynllun rhanbarthol a'ch Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr. Dylai eich cynllun newydd gynnwys adolygiad o'r hyn sydd wedi newid neu'r hyn nad yw wedi newid ers y cynllun diwethaf a'r rheswm dros hynny. Dylai hyn gynnwys adolygiad i ganfod a yw eich cynllun blaenorol yn dal i fod yn addas i'r diben.

Mae'n rhaid i chi ddatblygu a chyhoeddi cynllun newydd dim hwyrach na phum mlynedd o'r dyddiad y cyhoeddwyd eich cynllun ddiwethaf. Dylech hefyd lunio Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr:

- os ydych wedi derbyn cyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (os ydych wedi'i leoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr) neu gan Weinidogion Cymru (os ydych wedi'i leoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru)
- os bu newid mewn amgylchiadau, wedi'i nodi, er enghraifft, drwy eich adolygiad blynyddol

Wrth lunio'r cynllun:

- rhaid i chi gydymffurfio â'ch dyletswyddau cyfreithiol
- dylech ddilyn disgwyliadau polisi perthnasol y llywodraeth ac unrhyw ganlyniadau penodol
- rhaid i chi ddangos sut byddwch yn sicrhau cyflenwadau diogel wrth ddiogelu a gwella'r amgylchedd
- dylech lunio Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr terfynol heb unrhyw ddiffyg yn unrhyw un o'ch parthau adnoddau dŵr dros y cyfnod cynllunio terfynol

² Mae cynlluniau rhanbarthol yn ofniad gan DEFRA am bum grŵp rhanbarthol yn Lloegr. Gall rhai rhannau o Gymru fod wedi'u cynnwys mewn cynllun rhanbarthol.

- dylech ddangos sut byddwch yn cynnwys cynllunio cenedlaethol (drwy'r Fframwaith Cenedlaethol) a chynllunio rhanbarthol yn eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (lle y bo'n berthnasol)

1.4. Rolau a chyfrifoldebau rheoleiddwyr

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ofwat yn gyfrifol am lunio'r canllaw hwn ar y cyd. Mae gan y rheoleiddwyr canlynol rôl sylweddol yn y broses o lunio Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr.

1.4.1. Asiantaeth yr Amgylchedd

Asiantaeth yr Amgylchedd yw ymgynghorai statudol ar gyfer Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr. Mae'n arwain ar lunio'r canllawiau hyn i chi eu defnyddio wrth lunio eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr. Mae ganddo ddyletswydd statudol i sicrhau'r defnydd cywir o adnoddau dŵr yn Lloegr. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithio gyda chi wrth i chi baratoi eich cynllun a bydd yn darparu sylwadau fel rhan o'ch ymgynghoriad.

Yn y cyfnod datgan ymateb, mae ei rôl yn newid ac yn troi'n rôl cynghorydd technegol i DEFRA a'r Ysgrifennydd Gwladol.

1.4.2. Cyfoeth Naturiol Cymru

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth arfer ei swyddogaethau, gan gynnwys ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy er mwyn cyfrannu at nodau llesiant Cymru.

Ymgynghorai statudol yw Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr a'r cynghorydd i Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau sy'n effeithio ar Gymru. Mae'n arwain ar lunio canllawiau sy'n benodol i Gymru. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda chi er mwyn paratoi eich cynllun a darparu sylwadau fel rhan o'ch ymgynghoriad.

Yn y cyfnod datgan ymateb, mae ei rôl yn newid ac yn troi'n rôl cynghorydd technegol i Lywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru.

1.4.3. Ofwat

Ymgynghorai statudol ar gyfer Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr yw Ofwat. Mae Ofwat yn rhanddeiliad allweddol yn ystod cyfnod datblygu eich cynllun a bydd yn darparu sylwadau fel rhan o'ch ymgynghoriad. Mae'r Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr yn bennaf yn llywio'r rhan o'ch cynlluniau busnes, y byddwch yn eu cyflwyno i Ofwat, sy'n ymdrin â'r balans rhwng cyflenwad a galw.

Mae Ofwat yn penderfynu ar y graddau, ac o dan ba amodau, y gallwch adennill costau eich buddsoddiad drwy godi tâl ar eich cwsmeriaid. Mae'n gwneud hyn yn

bennaf (ond nid yn unig) drwy ddiffiniadau a phenderfyniadau dan Amod B Offerynnau Penodi (trwyddedau) cwmnïau dŵr. Mae hyn yn darparu'r fframwaith ar gyfer rheoli eich prisiau a, lle y bo angen, gorfodi amodau trwydded ategol ychwanegol. Mae gofyn i Ofwat gynnal ei swyddogaethau statudol yn unol â'i ddyletswyddau yn Rhan I o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Mae dyletswyddau statudol pennaf Ofwat o dan Adran 2(2A) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn gofyn iddo, yn gryno, osod rheolaethau prisiau mewn ffordd a fydd yn gwneud y canlynol orau, yn ei farn ef:

- datblygu'r amcan defnyddwyr i ddiogelu buddion cwsmeriaid, lle bynnag y bo'n briodol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol
- sicrhau bod cwmnïau dŵr yn gallu cyflawni eu swyddogaethau'n gywir
- sicrhau bod y cwmnïau'n gallu (yn benodol, drwy sicrhau enillion rhesymol ar eu cyfalaf) ariannu'r gwaith o gyflawni'r swyddogaethau hynny'n briodol
- datblygu'r amcan gwydnwch i sicrhau gwydnwch tymor hir systemau cwmnïau ac i sicrhau eu bod yn cymryd camau i'w galluogi, yn y tymor hir, i ddiwallu'r angen ar gyfer cyflenwadau dŵr a gwasanaethau dŵr gwastraff

1.4.4. Arolygiaeth Dŵr Yfed

Mae gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed gyfrifoldebau dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 sy'n ymwneud â digonolrwydd ac ansawdd cyflenwadau dŵr.

1.4.5. RAPID

Bydd RAPID yn helpu i gyflymu datblygiad seilwaith dŵr strategol newydd ac yn llywio fframweithiau rheoleiddiol yn y dyfodol. Mae'n cynnwys tri rheoleiddiwr dŵr yn Lloegr: Ofwat, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed. Mae hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Gallwch weld rhagor o wybodaeth ar [wefan RAPID](#).

Gwnaeth rhai cwmnïau dŵr dderbyn arian ychwanegol er mwyn ymchwilio i opsiynau adnoddau dŵr rhanbarthol strategol, a'u datblygu, ym mhenderfyniad terfynol adolygiad prisiau 2019 (PR19). Dylai'r cwmnïau hyn ystyried cynnydd a wnaed ar yr opsiynau hyn drwy broses gyfnodol o adolygu a phenderfynu. Yna bydd RAPID yn gwneud argymhellion ar y datrysiadau a bydd Ofwat yn gwneud penderfyniadau ar ariannu. Mae'n rhaid i chi gyflwyno'r angen am y cynlluniau hyn, eu hamseriadau, a'r cyfiawnhad dros eich penderfyniadau yn eich cynllun rhanbarthol a'ch Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr.

1.5. Sicrwydd

Dylech ddarparu datganiad o sicrwydd gan eich bwrdd i Ofwat a Cyfoeth Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn nodi eich bod yn fodlon ar y canlynol:

- eich bod wedi bodloni eich rhwymedigaethau wrth ddatblygu eich cynllun

- bod eich cynllun yn adlewyrchu unrhyw gynllun rhanbarthol perthnasol, sydd wedi cael ei ddatblygu yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol a chanllawiau a pholisïau perthnasol, neu'n darparu cyfiawnhad clir am unrhyw wahaniaethau
- bod eich cynllun yn gynllun gwerth gorau ar gyfer rheoli a datblygu eich adnoddau dŵr fel y gallwch barhau i fodloni'ch rhwymedigaethau i gyflenwi dŵr a diogelu'r amgylchedd, a'i fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, gan gynnwys tystiolaeth sy'n ymwneud â chostau (mae Pennod 9 yn diffinio cynllun gwerth gorau)

Dylai datganiad ategol gyd-fynd â'ch datganiad o sicrwydd. Dylai hwn gynnwys manylion am sut mae'r bwrdd wedi cynnal gwaith ymgysylltu, goruchwylio a chraffu mewn perthynas â phob cam datblygu eich cynllun, a'r dystiolaeth y mae wedi'i hystyried wrth roi ei datganiad o sicrwydd.

1.6. Cysylltiadau â chynlluniau eraill

Mae gan eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr gysylltiad agos â nifer o fframweithiau, cynlluniau a strategaethau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltiadau pwysig â haenau eraill o gynllunio adnoddau dŵr drwy'r Fframwaith Cenedlaethol a chynlluniau rhanbarthol, lle y bo'n briodol (gweler Adran 2 – Cynllunio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol). Dylech hefyd ystyried unrhyw Aseiad Amgylcheddol Strategol ac Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd perthnasol a allai effeithio ar eich cynllun. Dylech hefyd ystyried y canlynol yn eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr:

A. Cynllun amgylcheddol 25 mlynedd y llywodraeth (Lloegr)

Dylai eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr adlewyrchu natur uchelgeisiol cynllun amgylcheddol 25 mlynedd y llywodraeth. Dylech wneud y canlynol: gosod eich uchelgais ar gyfer cynaliadwyedd a gwydnwch amgylcheddol, cefnogi adfer natur, defnyddio cyfalaf naturiol wrth wneud penderfyniadau, defnyddio dull rheoli ar lefel y dalgylch, ac, yn bwysig iawn, cyflawni enillion net ar gyfer yr amgylchedd.

B. Strategaeth Ddŵr i Gymru (Cymru yn unig)

Dylai eich cynllun adlewyrchu'r cyfeiriad polisi tymor hir mewn perthynas â dŵr.

C. Polisi Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016)

Dylech ystyried sut mae eich cynllun (lle mae'n effeithio ar Gymru) yn cyfrannu at y blaenoriaethau a nodir yn y [Polisi Adnoddau Naturiol](#) ac unrhyw [Ddatganiad Ardal](#) perthnasol. Mae Datganiadau Ardal yn cynrychioli'r gwaith, sy'n seiliedig ar leoedd, o weithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol. Dylech ystyried y blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd a amlygir mewn unrhyw Ddatganiad Ardal sy'n berthnasol i'ch cynllun a sut y gallai camau gweithredu cydweithredol sy'n gysylltiedig â'r rhain arwain at ganlyniadau gwell i bobl a'r amgylchedd.

Ch. Cynlluniau busnes

Mae eich cynllun busnes yn nodi eich cynlluniau buddsoddi ar gyfer y cyfnod rheoli asedau nesaf. Eich cynlluniau buddsoddi yw'r mecanwaith i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig a osodir yn eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr ac i gyflawni gwydnwch yn y system ddŵr ehangach.

Dylai eich cynllun busnes adlewyrchu methodoleg adolygu prisiau Ofwat³ a chaiff ei asesu drwy broses adolygu prisiau Ofwat. Mae hyn yn arwain at benderfyniad terfynol sy'n nodi sut byddwch yn ariannu gwariant effeithlon gan filiau cwsmeriaid. Cytunir ar y broses hon ar gylchred o bum mlynedd.

D. Cynlluniau sychder

Mae eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn cyd-fynd â chynllun sychder eich cwmni dŵr. Mae eich cynllun sychder yn nodi'r camau gweithredol tymor byr y byddwch yn eu cymryd os bydd eich ardal yn wynebu sychder yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae'n disgrifio sut byddech yn gwella'r cyflenwadau sydd ar gael, rheoli'r galw gan gwsmeriaid, a lleihau effeithiau amgylcheddol wrth i'r sychder fynd rhagddo.

Dylech esbonio'n glir sut mae eich cynllun sychder a'ch Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn cysylltu mewn ffordd y gall eich cwsmeriaid, rheoleiddwyr, y llywodraeth a rhanddeiliaid â buddiant ei deall. Bydd eich cynllun brys yn nodi'r camau gweithredu y byddwch yn eu cymryd mewn argyfwng sifil. Dylai eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr nodi eich lefelau gwasanaeth cyfredol ac yn y dyfodol a'ch cyfiawnder dros drefn y camau gweithredu y byddwch yn eu cymryd yn ystod cyfnod o sychder.

Dd. Cynlluniau Rheoli Basn Afon

Bydd eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a'ch cynllun sychder yn cyfrannu at yr amcanion a nodir yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon drwy sicrhau eich bod yn gwneud y canlynol:

- atal dirywiad a chefnogi cyflawniad amcanion statws ardaloedd gwarchoddedig a chyrrff dŵr
- meddu ar set ddiogel a chynaliadwy o opsiynau er mwyn cyflenwi eich cwsmeriaid
- cyfrannu at ddalgyloedd cynaliadwy drwy sicrhau bod cyflenwadau'n cael eu rheoli'n dda mewn cyfnod o sychder
- dangos sut byddwch yn helpu eich cwsmeriaid i ddefnyddio dŵr mewn ffordd ddoeth

³ Bydd y fethodoleg nesaf ar gyfer adolygiad prisiau Ofwat yn 2024 (PR24) yn cael ei phenderfynu yn 2022 (<https://www.ofwat.gov.uk/regulated-companies/price-review/2024-price-review>).

Dylech nodi datrysiadau integredig yn seiliedig ar lefel y dalgylch yn eich cynllun. Dylai'r rhain gyflawni manteision lluosog – er enghraifft, lleihau perygl llifogydd a gwella gallu'r amgylchedd i wrthsefyll cyfnodau o sychder.

E. Cynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff

Disgwylir i ddrafft cyntaf y cynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff gael eu cyhoeddi yn 2022. Os ydych yn gwmni dŵr a charthffosiaeth, dylech sicrhau bod eich cynllunio tymor hir ar gyfer dŵr gwastraff a'r cyflenwad dŵr wedi'u halinio, lle y bo'n bosib, ac yn tynnu sylw at unrhyw gysylltiadau a/neu ryngddibyniaethau. Dylech ystyried aliniad yn eich rhagolygon twf, eich sefyllfaoedd newid yn yr hinsawdd, ac yn eich amserlen ar gyfer cyflawni datrysiadau. Os ydych yn gwmni dŵr yn unig, dylech sicrhau bod eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a chynlluniau eich darparwr carthffosiaeth wedi'u halinio.

F. Cynlluniau diogelwch dŵr yfed (neu asesiadau risg)

Mae'r rhain yn darparu ffordd o nodi peryglon a digwyddiadau peryglus a allai godi yn y dalgylch, o'r ffynhonnell hyd at dap y cwsmer. Dylai eich cynlluniau diogelwch dŵr yfed gael eu hadolygu'n barhaus. Dylai eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr ystyried y cynlluniau diogelwch hyn, lle bo'n briodol. Dylai eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr ystyried sut y gallwch liniaru unrhyw risgiau oherwydd ansawdd dŵr a allai effeithio ar eich balans rhwng cyflenwad a galw neu eich opsiynau dewisol. Lle gallai'r camau gweithredu hyn wella'r balans rhwng cyflenwad a galw, dylech eu hystyried fel opsiynau yn eich cynllun.

Mae cynlluniau awdurdodau lleol yn nodi datblygiad yn y dyfodol, megis tai. Dylai eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr adlewyrchu uchelgeisiau twf lleol a cheisio diwallu anghenon ychwanegol busnesau ac aelwydydd newydd. (Gweler Adran 6.3.)

G. Strategaethau Adfer Natur Lleol (Lloegr)

Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd 2021 Strategaethau Adfer Natur Lleol ar gyfer ardaloedd yn Lloegr. Bydd gan awdurdodau cyhoeddus ddyletswyddau mewn perthynas â Strategaethau Adfer Natur Lleol. Dylai eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr gefnogi'r gwaith o adfer a gwella bioamrywiaeth yn unol â chyfleoedd a blaenoriaethau a nodir yn ardaloedd y strategaeth.

Ng. Cynllun Gweithredu Adfer Natur (Cymru)

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru yn nodi'r Strategaeth Bioamrywiaeth Genedlaethol a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru. Dylai eich Cynllun Rheoli

Adnoddau Dŵr ddangos eich bod wedi ystyried y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.

1.7. Rhagor o ganllawiau

Ategir y canllaw hwn gan nifer o lyfrynnau a chanllawiau technegol. Cyfeirir at y rhain drwy gydol y canllaw ac maent yn cynnwys llyfrynnau a luniwyd gan Ymchwil Diwydiant Dŵr y DU (UKWIR) a nodiadau arweiniol atodol gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru. Maent wedi'u rhestru yn yr atodiad i'r canllaw hwn, sydd hefyd yn nodi a ydynt yn berthnasol i gwmnïau yng Nghymru, ac maent ar gael ar gais gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Adran 2 – Cynllunio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol

Pan fyddwch yn datblygu eich cynllun, dylech ystyried sut bydd yn cyfrannu at anghenion adnoddau dŵr cenedlaethol a rhanbarthol, lle bo hynny'n berthnasol, wrth gyflawni manteision lleol. Dylai eich cynllun ystyried y tair graddfa gynllunio ganlynol:

Fframwaith Cenedlaethol (sy'n berthnasol i barthau adnoddau yn Lloegr)

Mae'r [Fframwaith Cenedlaethol](#) yn nodi graddfa ddangosol yr her sy'n wynebu adnoddau dŵr yn Lloegr dros y genhedlaeth nesaf.

Mae disgwyl i chi weithio mewn grwpiau rhanbarthol i fynd i'r afael â'r her a datblygu set o gynlluniau gydlynol ar y cyd. Dylai cynlluniau rhanbarthol nodi'r opsiynau gorau ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau rydym yn eu hwynebu, gan gyflawni'r gwerth gorau ar gyfer yr amgylchedd a'r gymdeithas.

Cynllunio rhanbarthol

Mae cynlluniau rhanbarthol yn nodi, ar lefel strategol, sut caiff y cyflenwad dŵr i bobl, busnesau, diwydiant, mordwyaeth ac amaethyddiaeth ei reoli yn y rhanbarth. Dylai'r nod rhanbarthol anelu at gyflenwadau dŵr gwydn i'r holl ddefnyddwyr am 25 myned neu'n fwy, wrth ddiogelu a gwella'r amgylchedd ar yr un pryd.

Caiff cynlluniau rhanbarthol eu datblygu gyda defnyddwyr dŵr mawr eraill, gan ystyried yr alw gan yr holl sectorau. Mae'r canllaw hwn yn cynnwys y dulliau technegol a ystyrir yn arfer gorau ar gyfer llunio Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr a chynlluniau rhanbarthol. Dylai grwpiau rhanbarthol ddilyn y canllaw hwn neu gyfiawnhau pam nad yw'n briodol.

Mae [canllawiau cynllunio rhanbarthol](#) wedi'u cynnwys fel atodiad yn y Fframwaith Cenedlaethol ac maent yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i gynllun rhanbarthol ei wneud, yr hyn y dylai ei wneud, a'r hyn y gallai ei wneud. Dylai grwpiau rhanbarthol a chwmnïau dŵr weithio gyda rheoleiddwyr ac eraill i gytuno ar gyrchfan tymor hir ar

gyfer gwelliant amgylcheddol a thynnu dŵr yn gynaliadwy. Dylai'r cynllun rhanbarthol ddangos sut bydd y cyrchfan amgylcheddol yn cael ei gyflawni.

Mae cynlluniau rhanbarthol yn berthnasol i'r canlynol:

- **Lloegr** – Os ydych chi yn Lloegr, dylai eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr adlewyrchu'r cynllun adnoddau dŵr rhanbarthol perthnasol. Mae cynlluniau rhanbarthol yn ddisgwyliad i gwmnïau yn Lloegr ac maent yn cynrychioli, ar lefel genedlaethol, newid sylfaenol o ran dull ar gyfer y rownd hon o gynllunio.
- **Cymru** - Os ydych yn gwmni dŵr yng Nghymru ac mae gennych barth adnoddau yn Lloegr, dylech ei gynnwys yn y cynllun rhanbarthol priodol. Lle mae gennych barth adnoddau sydd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, sy'n bwysig ar gyfer cyflenwadau trawsffiniol a rennir, gallwch hefyd gynnwys y rhain yn y cynllun rhanbarthol perthnasol. Dylech drafod pa barthau adnoddau y dylid eu defnyddio i lywio cynllun rhanbarthol gyda'r grŵp rhanbarthol, rheoleiddwyr a Llywodraeth Cymru. Dylai eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr adlewyrchu'r cynllun rhanbarthol o ran y parthau adnoddau hyn. Yn ogystal, dylech gyfeirio at egwyddorion arweiniol Llywodraeth Cymru o ran y parthau adnoddau hyn. Nid oes unrhyw ofyniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru i gynlluniau rhanbarthol gael eu llunio yng Nghymru.

Lle y bo'n berthnasol, dylai eich cynllun adlewyrchu'r cynllun rhanbarthol oni bai fod cyfiawnhad clir am beidio â gwneud hynny. Dylai eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr esbonio sut rydych wedi adlewyrchu'r cynllun rhanbarthol a pham eich bod wedi dewis eich rhaglen ddewisol.

Mae'n debygol y bydd y grwpiau rhanbarthol yn ymgymryd â'u cynllunio ar lefelau amrywiol o fanylder, yn rhannol oherwydd yr heriau gwahanol a wynebir gan bob grŵp rhanbarthol. Am y rheswm hwn, nid yw'n bosib i'r canllaw hwn ragnodi'n union sut ddylai cynllun rhanbarthol lywio eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr.

Dylech esbonio'n glir sut mae'r cynllun rhanbarthol wedi llywio pob cam datblygu eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (lle y bo'n berthnasol). Wrth i chi ddatblygu eich cynlluniau rhanbarthol a chwmni ar y cyd, dylech fynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethau ac anghysondebau drwy gydol y broses. Dylech ddisgrifio'r broses ar gyfer cysoni a mireinio'ch cynlluniau a dylech ddisgrifio'r iteriadau angenrheidiol.

Gall fod rhai rhesymau dilys dros beidio ag adlewyrchu'r cynllun rhanbarthol perthnasol yn eich cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- rhagor o fanylion neu fireinio ar lefel Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr nad ymgymeryd ag ef ar lefel rhanbarthol oherwydd natur strategol y cynllun rhanbarthol
- nodi opsiwn gwell ar lefel Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr nad yw'n effeithio ar gyflawni cynllun rhanbarthol
- ychwanegiadau neu amrywiadau bychain

Dylech ddarparu cyfiawnhad clir am unrhyw wahaniaethau rhwng y rhaglen ddewisol yn y cynllun rhanbarthol a'ch rhaglen ddewisol yn eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr fel bod modd i'r llywodraeth, rheoleiddwyr, cwsmeriaid a rhanddeiliaid eu deall.

Gall rhaglen gwerth gorau amrywio gan ddibynnu ar y raddfa ddaearyddol, e.e. parth adnoddau, lefel y cwmni, a lefel ranbarthol lle y bo'n briodol. Dylech ystyried effeithiau dosbarthiadol a sut y gall eich datrysiadau amrywio (yn dibynnu ar y raddfa a ddefnyddir) ac egluro'r rhaglen cynllun a ffefrir gennych yng nghyd-destun y graddfeydd hyn, a'r cwsmeriaid neu gwmnïau yr effeithir arnynt.

Cynllunio lleol

Wrth lunio'ch cynllun, dylech hefyd ymgysylltu'n weithredol â chwsmeriaid a rhanddeiliaid yn lleol neu ar lefel y dalgylch. Dylech ystyried unrhyw bwysau a datrysiadau lleol. Er enghraifft, twf tai lleol neu bryder lleol ynghylch rhan benodol o afon. Dylech ymgysylltu â grwpiau dalgylchoedd Cynlluniau Rheoli Basn Afon a grwpiau dalgylchoedd â blaenoriaeth.

Yn Lloegr, dylech ystyried y cyfleoedd a'r blaenoriaethau a nodir mewn [Strategaethau Adfer Natur Lleol](#), sy'n ymgorffori adfer natur yn eich prosesau cynllunio.

Yng Nghymru, dylech gyfeirio at y [Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar wefan Llywodraeth Cymru, yr Adroddiad Sefyllfa Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal](#), ac mae rhagor o fanylion ar gael ar [wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru](#).

Adran 3 – Sut i lunio a chynnal Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr

Mae'r adran hon yn esbonio'r camau y mae angen i chi eu cymryd i ddatblygu a chyhoeddi eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr. Mae'r broses yn dechrau gydag ymgysylltiad cynnar â rheoleiddwyr a chwsmeriaid, ac yn gorffen gyda chyhoeddi'ch cynllun terfynol. Unwaith y bydd wedi'i gyhoeddi, mae'n rhaid i chi adrodd ar eich cynllun yn flynyddol.

3.1. Gofynion cyfreithiol

Pan fyddwch yn paratoi ac yn cyhoeddi Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr, mae'n rhaid i chi gydymffurfio â gofynion adrannau 37A–37D o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 ac unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd a wnaed. Mae hyn yn cynnwys Rheoliadau Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr 2007 (rheoliadau 2007), ac unrhyw Gyfarwyddiadau Gweinidogol a roddir dan y ddeddfwriaeth hon.

Disgwyliwn i ddiweddariadau i'r canllaw yn y dyfodol, yn dilyn y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2024, ystyried y newidiadau y bydd adran 78 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 yn eu gwneud i ddeddfwriaeth cynlluniau rheoli adnoddau dŵr a chynlluniau sychder presennol.

Rhaid i chi hefyd ystyried y ddeddfwriaeth ganlynol fel ei bod yn berthnasol i'ch cynllun (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr):

- Deddf y Diwydiant Dŵr 1991
- Deddf Adnoddau Dŵr 1991
- Deddf yr Amgylchedd 1995
- Rheoliadau Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr 2007 (rheoliadau 2007)
- Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004
- Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017
- Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017
- Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2016
- Rheoliadau Llyswennod (Cymru a Lloegr) 2009
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

- Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006
- Gorchymyn Rhywogaethau Estron Goresgynol (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009

Mae'n rhaid i chi ystyried a oes angen i chi gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer eich cynllun.

3.2. Y broses gynllunio rhanbarthol

Fel y nodir yn Adran 2, lle y bo'n briodol, mae cynlluniau rhanbarthol yn newid sylweddol wrth lunio eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr.

Gallwch ganfod yr amserlen ar gyfer y grwpiau rhanbarthol yn [atodiad cynllunio rhanbarthol](#) y Fframwaith Cenedlaethol. Bydd y rhanbarthau'n cychwyn y broses gysoni ym mis Medi 2021 i sicrhau aliniad ac er mwyn ymgynghori ar eu cynlluniau rhanbarthol drafft ar ddechrau 2022. Mae'r tabl isod yn nodi sut bydd amserlen y cynllun rhanbarthol a'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn dod ynghyd:

Amserlenni cynlluniau rhanbarthol a'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr:

- **Ionawr 2022**
 - **Cynlluniau rhanbarthol** – Ymgynghoriad anffurfiol ar gynlluniau rhanbarthol
 - Bydd yr ymgynghoriad ar y cynllun rhanbarthol yn eich hysbysu am farn rhanddeiliaid ar opsiynau a pholisïau strategol cyn eich bod yn ymgynghori ar y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr
 - Proses cyn ymgynghori gyda rheoleiddwyr ar fersiynau drafft o gynlluniau rheoli adnoddau dŵr
- **Hydref 2022**
 - **Cynlluniau rhanbarthol** – Cyhoeddi'r cynlluniau rhanbarthol drafft terfynol
 - **Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr** – Ymgynghoriad ar Gynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr drafft
 - Dylai'r ymgynghoriad ar y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr gysylltu â'r cynllun rhanbarthol i helpu i esbonio polisïau perthnasol, opsiynau strategol ac arferion gwaith cydweithredol gyda chwsmeriaid
- **Medi 2023**
 - **Cynlluniau rhanbarthol** – Cyhoeddi cynlluniau rhanbarthol terfynol
 - **Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr** – Cyhoeddi Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr terfynol (Medi 2023 ymlaen)
 - Er mwyn sicrhau cynlluniau clir a chydlynol, bydd y cynlluniau rhanbarthol terfynol yn alinio â'r Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr

3.3. Y cam cyn ymgynghori

Dylech ymgysylltu'n gynnar â'ch bwrdd, eich rheoleiddwyr, eich cwsmeriaid a phartïon â buddiannau, yn enwedig os yw'ch cynllun yn debygol o fod yn gymhleth neu o gynnwys newid sylweddol. Mae hyn yn lleihau'r perygl o broblemau'n cael eu nodi'n ddiweddarach. Dylech drafod eich cynllun yng nghyd-destun eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a chynllun busnes blaenorol, eich cynnydd o ran cyflawni'r cynlluniau hyn, ac unrhyw amrywiadau disgwylidig.

Bydd y broses gynllunio ranbarthol newydd yn rhoi cyfle cynnar i geisio barn ac adborth ar ddatrysiadau arfaethedig y byddwch yn eu mabwysiadu o bosib. Dylech ymgysylltu'n weithredol â rheoleiddwyr drwy'r broses gynllunio ranbarthol.

Dylech barhau i ymgysylltu wrth ddatblygu eich cynllun (gan gynnwys tynnu sylw at newidiadau sylweddol) nes eich bod yn cyflwyno'ch cynllun drafft. Ni ddylai fod unrhyw syndod i reoleiddwyr na rhanddeiliaid pan fyddwch yn cyhoeddi eich cynllun. Dylai proses cyn ymgynghori dda arwain at lai o her i gynllun drafft oherwydd y dylai helpu i nodi a datrys pryderon yn gynnar yn y broses. Dylai hyn helpu i osgoi oedi yng nghamau diweddarach y broses, sy'n gallu arwain at oblygiadau ar gyfer eich cynllun ac asesiad busnes yn yr adolygiad prisiau nesaf.

Dylai ymgysylltiad â chwsmeriaid a rhanddeiliaid ar eich cynllun, lle y bo'n bosib, alinio ag ymgysylltiad â chwsmeriaid ar eich cynllun busnes. Dylai hyn olygu adlewyrchu dewisiadau cwsmeriaid sydd wedi eu nodi fel rhan o broses y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn eich cynllun busnes.

3.3.1. Ymgynghoreion statudol

Mae'n rhaid i chi gynnal trafodaethau cyn ymgynghori gyda'r ymgynghoreion statudol canlynol:

- Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Ysgrifennydd Gwladol os bydd eich cynllun yn effeithio ar safleoedd yn Lloegr
- Cyfoeth Naturiol Cymru a Gweinidogion Cymru os bydd eich cynllun yn effeithio ar safleoedd yng Nghymru
- Ofwat
- unrhyw gyflenwr dŵr trwyddedig sy'n cyflenwi dŵr i eiddo yn eich ardal drwy eich system gyflenwi
- Cadw (mewn perthynas ag Asesiad Amgylcheddol Strategol yng Nghymru)

Dylech hefyd ymgysylltu mor gynnar â phosib ag ymgynghoreion statudol perthnasol ar gyfer Asesiadau Amgylcheddol Strategol ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd.

Os yw eich opsiynau posib yn effeithio ar safle dynodedig yn Lloegr neu Gymru, mae'n rhaid i chi gysylltu â Natural England neu Cyfoeth Naturiol Cymru fel y bo'n briodol.

Mae safleoedd dynodedig yn cynnwys:

- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (gan gynnwys ardaloedd ymgeisiol)
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (gan gynnwys ardaloedd posibl)
- safleoedd Ramsar (gan gynnwys safleoedd arfaethedig)
- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)
- Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol
- Gwarchodfeydd Natur Lleol (cysylltwch â chynghorau lleol)
- safleoedd natur lleol (cysylltwch â chynghorau lleol neu ymddiriedolaethau natur lleol)
- Parthau Cadwraeth Morol
- tirweddau, gan gynnwys Safleoedd Treftadaeth y Byd, ardaloedd a ddynodir o dan Gonfensiwn Tirweddau Ewrop, Parciau Cenedlaethol, ac Ardaloedd o Harddwch Eithriadol Naturiol

3.3.2. Ymgynghori anstatudol

Dylech hefyd gynnal trafodaethau cyn ymgynghori gydag ymgynghori eraill. Dylai'r rhain gynnwys o leiaf:

- grwpiau rhanbarthol (lle bo hynny'n berthnasol)
- unrhyw gyflenwr dŵr yr effeithir arno gan eich system gyflenwi
- unrhyw gwmnïau dŵr y mae gennych gytundebau cyflenwi ar raddfa fawr neu rannu adnoddau â hwy
- cwmnïau dŵr cyfagos
- partneriaethau dalgylchoedd lleol
- Fforwm Rheoli Dŵr Cymru (Cymru)
- unrhyw grwpiau eraill y mae'n debygol y bydd eich cynllun yn effeithio arny'n nhw
- unrhyw gyflenwr dŵr, cwmni neu drydydd parti posib efallai y byddwch am fasnachu ag ef

- CCW (y Cyngor Defnyddwyr Dŵr gynt)
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill
- masnachwyr dŵr er busnes
- Arolygiaeth Dŵr Yfed
- RAPID
- Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol
- Partneriaethau Natur Lleol (lle bo hynny'n berthnasol)
- Grwpiau effeithlonrwydd dŵr

3.3.3 Ymgynghori â rheoleiddwyr

Dylech ymgymryd â phroses cyn ymgynghori uwch gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a/neu Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ofwat. Dylech drafod uchelgeisiau a dulliau eich cynllun ynghyd â'r dulliau yr ydych yn bwriadu eu defnyddio wrth ddatblygu eich cynllun.

Dylech gyflwyno'r wybodaeth ganlynol o leiaf i'r rheoleiddwyr. Dylai'r cam hwn gael ei gwblhau erbyn mis Ionawr 2022 fan bellaf:

- cynnydd o ran cyflawni eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2019, unrhyw newidiadau sylweddol rydych yn eu disgwyl, a sut bydd y rhain yn effeithio ar eich cynllun
- y parthau adnoddau y bydd eich cynllun yn seiliedig arnynt
- asesiad nodweddu problemau
- eich dull arfaethedig o asesu'r newid yn yr hinsawdd
- eich balans dangosol rhwng cyflenwad a galw ar lefel parth adnoddau
- eich dull o gynllunio addasol (lle bo'n briodol)
- eich cynlluniau dewisol dros dro
- y buddion a chanlyniadau ehangach yr ydych yn bwriadu eu cyflawni y tu hwnt i gynllun cost leiaf
- sut bydd eich cynllun yn adlewyrchu'r cynlluniau rhanbarthol perthnasol (os yw'n berthnasol)
- unrhyw risgiau neu broblemau penodol rydych yn eu nodi yn eich cynllun

Bydd rheoleiddwyr yn adolygu'r wybodaeth hon ac yn darparu barn gychwynnol. Byddant yn tynnu sylw ar y meysydd y maent am weithio gyda chi arnynt wrth i chi lunio'ch cynllun. Ni fydd y rheoleiddwyr yn cymeradwyo unrhyw rannau o'ch dull cyn yr ymgynghoriad. Y rheswm dros hyn yw y bydd angen iddynt asesu'r cynllun yn ei gyfarwydd a chynnig cyngor diduedd i'r llywodraeth.

3.4. Lluio cynllun drafft

Dylech ddefnyddio'r canllaw hwn i lunio'ch cynllun drafft, gan ystyried unrhyw adborth o'ch cam cyn ymgynghori. Dylai eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr adlewyrchu unrhyw gynllun rhanbarthol perthnasol fel y disgrifir yn Adran 2. Dylech hefyd ddilyn deddfwriaeth, gan gynnwys unrhyw gyfarwyddiadau rydych yn eu derbyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru. Byddant yn cyflwyno cyfarwyddiadau cyn i chi gyflwyno'ch cynllun drafft. Byddant yn cynnwys y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i chi gyflwyno'ch cynllun drafft ac unrhyw ofynion statudol eraill. Efallai y byddwch yn derbyn rhagor o gyfarwyddiadau yn ystod y broses.

Dylai eich cynllun gynnwys crynodeb annhechnegol sydd yn hawdd ei ddarllen sy'n nodi'n glir eich problem gynllunio a sut rydych yn bwriadu ei datrys. Dylai hefyd dynnu sylw at gwestiynau penodol yr hoffech ymatebion iddynt yn ystod yr ymgynghoriad. Dylai hefyd roi crynodeb o gynnydd ers eich cynllun blaenorol, a'r gwahaniaethau rhyngddynt. Dylai eich crynodeb annhechnegol ddangos sut mae eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a chynlluniau cysylltiedig eraill fel eich cynllun sychder, eich cynllun rhanbarthol (os yw'n berthnasol) a'ch cynllun busnes yn cydweddu.

Dylai eich crynodeb annhechnegol gyd-fynd â dogfen dechnegol fwy manwl ond sy'n hawdd ei deall o hyd. Mae angen i reoleiddwyr a phartïon â buddiannau ddeall yr opsiynau rydych wedi'u hystyried a'r penderfyniadau rydych wedi'u gwneud. Dylech ddarparu gwybodaeth ategol mewn atodiadau a hefyd gwblhau'r tablau cynllunio adnoddau dŵr. Dylid cyhoeddi'r rhain yn llawn ar yr un pryd â'ch prif gynllun rheoli adnoddau dŵr. Wrth lunio eich cynllun, dylech hefyd ystyried y gofynion adrodd ar gyfer cwblhau camau'r Aseiad Amgylcheddol Strategol a'r Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd (os yw hynny'n berthnasol).

3.5. Anfon eich cynllun drafft

Mae'n rhaid i chi anfon eich cynllun drafft at yr Ysgrifennydd Gwladol a/neu Weinidogion Cymru.

Os yw ardal eich cwmni'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn:

- Lloegr – mae'n rhaid i chi anfon eich cynllun drafft, eich datganiad o ymateb i'ch ymgynghoriad, a'ch cynllun terfynol at yr Ysgrifennydd Gwladol. Os yw eich cynllun hefyd yn effeithio ar safleoedd yng Nghymru, mae'n rhaid i chi ei anfon at Weinidogion Cymru yn ogystal â'r Ysgrifennydd Gwladol

- Cymru – mae'n rhaid i chi anfon eich cynllun drafft a therfynol at Weinidogion Cymru. Os yw eich cynllun hefyd yn effeithio ar safleoedd yn Lloegr, mae'n rhaid i chi ei anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol yn ogystal â Gweinidogion Cymru. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod eich cynllun a datganiad o ymateb a gyflwynwyd yn cydymffurfio â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Bydd DEFRA yn rhoi cyfarwyddiadau i chi ynghylch anfon copïau electronig o'ch cynllun drwy wefan drosglwyddo ddiogel. Os yw eich cynllun yn effeithio ar safleoedd yng Nghymru, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyfarwyddiadau ar gyfer cyflwyno copïau electronig o'ch cynllun.

Pan fyddwch yn cyflwyno'ch cynllun drafft i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru er mwyn iddynt gytuno i'w gyhoeddi er mwyn ymgynghori arno, mae'n rhaid i chi gyflwyno datganiad gan eich rheolwr diogelwch. Mae'n rhaid i hwn ardystio bod y cynllun wedi cael ei adolygu⁴ ac nad yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth a fyddai'n peryglu buddiannau diogelwch cenedlaethol. Mae'n rhaid i chi dynnu sylw at y wybodaeth rydych chi'n bwriadu ei golygu neu ei dileu yn y fersiwn gyhoeddedig, fel y gall yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru gadarnhau a ellir ei dileu ar sail diogelwch cenedlaethol.

Yn y datganiad hwn, mae'n rhaid i chi hefyd nodi a yw'r cynllun yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai fod yn gyfrinachol yn fasnachol. Os ydych yn credu na ddylai cynllun drafft gael ei gyhoeddi oherwydd ei fod yn cynnwys gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol, dylech ddweud wrth yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru cyn gynted â phosib.

Dylech hefyd ddarparu datganiad o sicrwydd a datganiad ategol i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru ynghyd â'ch cynllun drafft. Mae Adran 1.5 yn disgrifio'r hyn sy'n ofynnol yn eich datganiad o sicrwydd.

3.6. Cyhoeddi, dosbarthu ac ymgynghori ar eich cynllun drafft

Mae'n rhaid i chi aros i glywed gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru cyn cyhoeddi eich cynllun drafft er mwyn ymgynghori arno. Unwaith y byddwch wedi derbyn cyfarwyddiadau i'w gyhoeddi, mae'n rhaid i chi gadw at Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, rheoliadau 2007, a chyfarwyddiadau ynghylch yr ymgynghoriad a llunio cynlluniau drafft sydd ar gael. Mae'n rhaid i chi rannu eich cynllun drafft gyda'r holl ymgynghoreion a restrir yn rheoliadau 2007. Dylech hefyd rannu eich cynllun drafft gyda sefydliadau eraill sy'n ymwneud â'r trafodaethau cyn ymgynghori. Dylech gyhoeddi eich datganiad o sicrwydd a'ch datganiad ategol ynghyd â'ch cynllun drafft.

Dylech hefyd gyhoeddi datganiad ynghyd â'r cynllun drafft sydd yn:

- nodi a ydych wedi hepgor unrhyw wybodaeth sy'n gyfrinachol yn fasnachol

⁴ Efallai y bydd Cymal 75 o Fil yr Amgylchedd yn newid y gofyniad hwn.

- dweud wrth bobl sut y gallant gyflwyno sylwadau ar y cynllun drafft i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru cyn diwedd y cyfnod ymgynghori

Dylech hefyd ystyried:

- cynnig esbonio'r cynllun i grwpiau sefydledig, partïon â buddiannau sy'n hysbys, neu gwmnïau yn eich ardal
- cynnwys crynodeb deniadol o'ch cynllun sy'n nodi'n glir eich cynigion i'ch cwsmeriaid mewn iaith syml
- cynnal digwyddiadau, sioeau teithiol neu arddangosiadau rhithwir
- cynnal holiaduron i gael barn ar eich cynigion, gan ddefnyddio arolygon dros y ffôn neu wyneb yn wyneb neu dechnegau cydnabyddedig eraill a ddefnyddir mewn arolygon
- defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at yr ymgynghoriad
- ymgysylltiad arloesol ar y we
- cyfathrebu ar y cyd â chwmnïau eraill

Dim ond awgrymiadau yw'r rhain a bydd y dull rydych yn ei ddefnyddio'n dibynnu ar eich amgylchiadau a'r problemau rydych yn eu hwynebu.

Lle'r ydych yn cynnig cynlluniau ar y cyd, dylech sicrhau bod eich negeseuon a'ch naratif yn gyson â rhai'r chynigwyr eraill ac ystyried cynnal digwyddiadau rhanddeiliaid ar y cyd.

Mae gennych 26 wythnos (oni nodir yn wahanol mewn unrhyw gyfarwyddyd gwahanol) i ymgynghori ar eich cynllun drafft a llunio datganiad o ymateb. Eich cyfrifoldeb chi yw penderfynu ar hyd yr ymgynghoriad. Yn flaenorol, mae'r cyfnod ymgynghori wedi para am tua 12 wythnos. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar eich sefyllfa. Dylech roi digon o amser am y canlynol:

- i ymgynghoreion gyflwyno sylwadau ar y cynllun – gan roi mwy o amser ar gyfer cynlluniau drafft cymhleth
- i lunio datganiad o ymateb yn seiliedig ar y sylwadau rydych yn eu derbyn

Mae'n rhaid i chi nodi yn eich ymgynghoriad y dylid anfon yr holl ymatebion at yr Ysgrifennydd Gwladol, os ydych yn Lloegr, neu at Weinidogion Cymru os ydych yng Nghymru, gan ddefnyddio'r cyfeiriadau e-bost neu bost isod:

DEFRA

Water Resources Management Plan Water Services
Department for Environment, Food and Rural Affairs

Seacole 3rd Floor
2 Marsham Street
London, SW1P 4DF

E-bost: water.resources@defra.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Y Gangen Ddŵr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: water@gov.wales

Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru yn anfon copiâu o'r holl ymatebion i'ch cynllun atoch chi.

Mae rheoleiddwyr yn disgwyl gweithredu proses ymholi yn ystod y cam ymgynghori ar y cynllun drafft. Bydd hyn yn debyg i ddull Ofwat yn ystod ei broses adolygu prisiau. Os ydych yn derbyn ymholiad gan ymgynghorai statudol, dylech ymateb gyda thystiolaeth ategol o fewn tri diwrnod gwaith o'r cais lle y bo angen. Mae modd gofyn am amser ymateb hwy os gallwch gyfiawnhau hyn. Gan ddibynnu ar ystyriaethau masnachol a diogelwch, dylai'r ymatebion i'r ymholiad gael eu cyhoeddi ar eich gwefan i ategu'r cynllun drafft. Dylech hefyd gynnwys yr ymholiadau a'r ymatebion fel rhan o'ch datganiad o ymateb.

3.7. Cyhoeddi datganiad o ymateb

Mae'n rhaid i chi gyhoeddi datganiad o ymateb ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'n rhaid i chi gyhoeddi hwn o fewn 26 wythnos o gyhoeddi eich cynllun drafft er mwyn ymgynghori arno (oni nodir yn wahanol mewn unrhyw Gyfarwyddyd Gweinidogol newydd).

Mae'n rhaid i'ch datganiad o ymateb wneud y canlynol:

- dangos eich bod wedi ystyried y sylwadau rydych wedi'u derbyn
- nodi'r newidiadau rydych wedi'u gwneud i'r cynllun drafft o ganlyniad i'r sylwadau a'ch rhesymau dros eu gwneud – naill ai fel testun diwygiedig neu mewn cynllun drafft diwygiedig
- dweud os nad ydych wedi gwneud newidiadau o ganlyniad i sylwadau ac esbonio pam
- disgrifio unrhyw beth sydd wedi newid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Er enghraifft, gorffen unrhyw brosiectau yr oeddech wedi bod yn ymgymryd â hwy neu ddylanwadau allanol fel newidiadau cynaliadwyedd newydd

Dylech benderfynu a yw'r datganiad o ymateb ar ei ben ei hun yn caniatáu i'ch cwsmeriaid a'ch rhanddeiliaid ddeall yn glir ac yn hawdd y newidiadau rydych wedi'u gwneud. Os nad ydyw, mae'n rhaid i chi gyhoeddi cynllun drafft diwygiedig ar y cyd ag ef.

Bydd angen i chi asesu a fydd unrhyw newidiadau yn y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn gofyn am newidiadau i gynlluniau eraill fel eich cynllun sychder, eich cynllun rhanbarthol, neu'ch cynllun busnes.

Mae'n rhaid i chi gyhoeddi'r datganiad o ymateb yn unol â Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, rheoliadau 2007, a'r cyfarwyddiadau. Mae'n rhaid i chi hysbysu pawb a wnaeth ymateb i'ch cynllun drafft eich bod wedi'i gyhoeddi.

Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, mae'n rhaid i chi anfon eich datganiad o ymateb at yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru. Os oes gennych Gynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft diwygiedig neu mae gofyn i chi ddarparu rhagor o wybodaeth, dylech ddarparu'r cynllun neu'r wybodaeth ynghyd â'ch datganiad o ymateb. Mae'n rhaid i chi ddweud wrth yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru am unrhyw wybodaeth bellach a allai fod yn gyfrinachol yn fasnachol, neu sydd wedi cael ei dileu am resymau diogelwch cenedlaethol neu yr ydych o'r farn y dylai gael ei dileu am resymau felly.

Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn anfon eich datganiad o ymateb a'ch cynllun drafft diwygiedig i Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ofwat er mwyn iddynt eu hadolygu a bydd Gweinidogion Cymru'n eu hanfon i Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ofwat er mwyn iddynt eu hadolygu.

3.8. Cyhoeddi eich cynllun terfynol

Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru yn adolygu eich cynllun drafft, y sylwadau a gyflwynwyd, a'ch datganiad o ymateb. Byddant hefyd yn adolygu cyngor technegol gan y rheoleiddwyr ac yn penderfynu ar a all eich cynllun gael ei gyhoeddi. Efallai y byddant yn gofyn i chi gwblhau rhagor o waith cyn y gallwch gyhoeddi eich cynllun. Os felly, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru yn anfon y cyfarwyddiadau angenrheidiol atoch.

Os oes problemau nad ydynt wedi cael eu datrys neu sydd o ddiddordeb arbennig i'r cyhoedd, efallai y bydd angen cynnal gwrandawriad, ymchwiliad neu archwiliad cyhoeddus. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru yn penderfynu a oes angen cymryd y cam hwn ac yn eich hysbysu o hyn.

Ni ddylech gyhoeddi eich cynllun terfynol nes eich bod wedi derbyn caniatâd gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru. Cyn cyhoeddi eich cynllun terfynol, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

- dilyn unrhyw gyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru

- ymgymryd â gwiriad terfynol o'ch cynllun i sicrhau ei fod yn barod i'w gyhoeddi

Dylech sicrhau bod eich cynllun yn dal i adlewyrchu unrhyw gynllun rhanbarthol perthnasol, fel y disgrifir yn Adran 2. Dylai adlewyrchu unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r cynllun rhanbarthol o ganlyniad i newidiadau o ymgynghoriadau ar gynlluniau drafft cwmnïau eraill.

Mae'n rhaid i chi gyhoeddi'r cynllun terfynol fel y nodir yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991, rheoliadau 2007, ac unrhyw gyfarwyddiadau. Mae'n rhaid cwblhau hyn o fewn yr amserlenni a nodir neu gallwch wynebu camau gorfodi.

Dylech hysbysu pawb a wnaeth ymateb i'ch ymgynghoriad a'i ddwyn i sylw unrhyw un arall y mae'n debygol yr effeithir arno gan eich cynllun.

3.9. Adolygu a chynnal eich cynllun terfynol

Mae'n rhaid i chi gynnal eich cynllun. Dylech ei drin fel dogfen fyw. Dylech weithredu eich cynllun, monitro ei gynnydd, a chymryd camau gweithredu os oes angen. Dylai eich cynllun terfynol ddangos sut bydd yr ymyriadau ynddo'n cael eu troi'n gynlluniau cyflawni a sut byddant yn cael eu monitro yn ystod y cyfnod rheoli asedau perthnasol. Mae'n rhaid i chi adolygu eich cynllun cyhoeddedig bob blwyddyn ac adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru. Dylai hyn fod ar neu cyn pen-blwydd cyhoeddi'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr terfynol. Dylech ddilyn y canllawiau diweddaraf ar gynnal adolygiadau blynyddol.

Os byddwch, drwy'r adolygiad blynyddol, yn dangos neu'n nodi 'newid sylweddol mewn amgylchiadau' (yn unol ag adran 37A(6) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991) rhaid i chi baratoi drafft diwygiedig. Bydd cynllun diwygiedig newydd yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991 ar gyfer paratoi a chyhoeddi cynllun a nodir yn adran 37B 'Cynlluniau rheoli adnoddau dŵr: cyhoeddi a sylwadau'.

Nid yw newid materol mewn amgylchiadau yn cael ei ddiffinio o ran sut mae'n berthnasol i'r cynllun terfynol. Mae'r rhestr a ganlyn yn cynnwys enghreifftiau posibl, ond ni ddylid ystyried ei bod yn derfynol:

- newid sylweddol yn lefel y gwasanaeth o'r hyn a oedd yn y cynllun a gyhoeddwyd
- newidiadau newydd neu sylweddol i'r mesurau a nodwyd yn y cynllun a gyhoeddwyd ac sy'n debygol o fod o ddiddordeb cyhoeddus neu ddiddordeb amgylcheddol sylweddol
- newid sylweddol yn y costau
- newid a allai achosi effeithiau niweidiol sylweddol ar yr amgylchedd

Fel cam cyntaf, dylech ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd a/neu Cyfoeth Naturiol Cymru ar unrhyw newidiadau sylweddol y dymunwch

eu gwneud i'ch cynllun. Bydd angen i chi hysbysu Defra neu Lywodraeth Cymru os oes newid sylweddol mewn amgylchiadau, a hynny o fewn 6 mis.

Adran 4 – Sail y cynllunio

Rhaid i Gynllun Rheoli Adnoddau Dŵr nodi sut rydych chi'n bwriadu cynnal y cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw am ddŵr yn ystod y cyfnod cynllunio. Dylai'r cyfnod cynllunio fod yn briodol i'r risgiau y mae eich cwmni'n eu hwynebu, ond rhaid iddo gwmpasu'r isafswm statudol o 25 mlynedd o leiaf. Efallai y bydd yn briodol, yn dibynnu ar yr heriau a'r risgiau yn y cynlluniau rhanbarthol perthnasol,⁵ i chi gynllunio ar gyfer y 50 mlynedd nesaf. Mae hyn er mwyn sicrhau bod eich cynllun yn nodi'r atebion cywir i gwrdd â phwysau yn y dyfodol. Rhaid i Gynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr ddangos sut y byddwch yn rheoli a datblygu adnoddau dŵr fel eich bod yn cwrdd â'ch rhwymedigaethau mewn perthynas â chyflenwi dŵr a'r amgylchedd.

Dylai eich cynllun sicrhau gwerth am arian i'ch cwsmeriaid. Dylai adlewyrchu gwerthoedd cymdeithasol ehangach a disgwyliadau'r llywodraeth.

4.1. Datblygu eich cynllun

Wrth gynhyrchu eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr, dylech wneud y canlynol yn dryloyw:

- ystyried parhad eich cynllun â'ch Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a chynllun busnes blaenorol. Lle nad oes angen unrhyw newidiadau, dylech ddefnyddio'r cyfnod pum mlynedd perthnasol o gynlluniau tymor hir blaenorol. Lle mae gwahaniaethau rhwng cynlluniau blaenorol, dylech dynnu sylw atynt ac esbonio'r rhesymau. Dylech gynnwys adran yn eich cynllun sy'n egluro sut mae eich edrych yn ôl (gan gynnwys ymyriadau a chyflwyniad blaenorol wedi'u cynllunio) wedi dylanwadu ar eich cynllun
- rhagweld faint o ddŵr, ar sail gynaliadwy, sydd gennych ar gael i gyflenwi'ch cwsmeriaid bob blwyddyn dros y cyfnod cynllunio o'ch dewis, am o leiaf 25 mlynedd (gweler Adran 5)
- rhagweld faint o alw fydd am ddŵr bob blwyddyn dros yr un cyfnod (gweler Adran 6)
- ystyried ansicrwydd yn eich cyfrifiadau a'ch rhagolygon (gweler Adran 7)
- cymharu cyflenwad â'r galw (gan gynnwys ansicrwydd) a gweld a oes gwarged (mwy o gyflenwad na'r galw) neu ddiffyg galw (llai o gyflenwad na'r galw). Os oes diffyg galw, rhaid i chi nodi opsiynau i gynyddu'r cyflenwad neu leihau'r galw fel eich bod yn sicrhau cyflenwad diogel o ddŵr sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol (gweler Adran 8)

⁵ Mae cynlluniau rhanbarthol yn ofyniad gan DEFRA ar gyfer pum grŵp rhanbarthol yn Lloegr.

- os nad oes gennych ddiffyg galw, ystyried a allwch nodi opsiynau i gyflenwi cwmnïau dŵr neu grwpiau rhanbarthol eraill, a sectorau eraill, ac i sicrhau defnydd effeithlon o ddŵr (gweler Adran 8)
- ystyried y risgiau i'r balans rhwng galw a chyflenwad sy'n eich wynebu ac ansicrwydd yn y dyfodol dros y cyfnod cynllunio. Dylai'r risgiau rydych chi'n eu nodi yn eich cynllun, a lliniaru lle bo hynny'n briodol, gael eu gosod yng nghyd-destun gwydnwch cyffredinol eich cwmni a'i gofrestr risg
- cynhyrchu cynllun gwerth gorau (gweler adrannau 9 a 10)
- darparu'r holl wybodaeth hon ar lefel parth adnoddau dŵr a'i chrynhoi ar lefel cwmni dŵr

Dylai eich cynllun ddangos y canlynol:

- eich bod wedi cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol a rhoi sylw i bolisi'r llywodraeth
- bod cyflenwad dŵr effeithlon, amgylcheddol gynaliadwy, diogel, heb unrhyw ddiffygion cynllunio terfynol, ar gyfer pob parth adnoddau dŵr dros y cyfnod cynllunio a ddewiswyd gennych, y mae'n rhaid iddo fod dros o leiaf 25 mlynedd. Lle mae heriau sylweddol, dylid ystyried amserlen hirach

4.1.1. Ystyriaethau lefel uchel

Dylech ystyried yr ystyriaethau lefel uchel hyn yn eich cynllun. Dylech wneud y canlynol:

Yng Nghymru a Lloegr

- cynnwys eich cyrchfan ar gyfer gwella'r amgylchedd, gyda thystiolaeth addas ac sy'n adlewyrchu'r cynllun rhanbarthol perthnasol. Yn ogystal, gallwch gynllunio ar gyfer gwelliant lleol nad yw'n berthnasol ar raddfa ranbarthol. Dylech gyflwyno tystiolaeth ar gyfer eich cynllun lle mae hyn yn wir. Dylai hyn fod yn ychwanegol at unrhyw ddulliau neu newidiadau cynaliadwyedd a nodwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England neu Cyfoeth Naturiol Cymru
- cyflawni eich rhwymedigaethau o dan reoliadau'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr. Dylech sicrhau bod eich cynllun yn cefnogi cyflawni amcanion amgylcheddol ar gyfer adnoddau dŵr yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon trwy atal dirywiad a chefnogi cyflawni amcanion statws ardal warchoddedig a chorff dŵr, yn ogystal â pheidio ag atal corff dŵr rhag cyrraedd statws 'da' neu 'potensial da' yn y dyfodol.
- cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, gan gynnwys asesiad priodol, fel y nodir yn Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), pe byddai'r cynllun a ffeirir gennych yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd (naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill).

- sicrhau bod unrhyw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd blaenorol o opsiynau a gynhwyswyd yn eich cynllun dewisol yn parhau i fod yn gyfredol ac yn ymdrin ag unrhyw newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau. Mae angen i unrhyw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd fod ar gael i'w adolygu a'i asesu gan Natural England a/neu Cyfoeth Naturiol Cymru a phartion perthnasol eraill. Dylech egluro sut rydych chi wedi ystyried cyngor gan y cyrff hyn.
- sgrinio am Asesiad Amgylcheddol Strategol a chynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol llawn os oes angen
- ystyried sut mae'ch prif ddyletswydd i gyflenwi dŵr iachus yn gysylltiedig â'ch Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr, yn enwedig mewn perthynas â gwytnwch a chynllunio wrth gefn. Dylai hyn gynnwys y gofyniad na chaniateir i ansawdd dŵr yfed ddirywio dros amser
- dangos effaith eich cynllun ar filiau, ac unrhyw bryderon fforddiadwyedd posibl sy'n deillio o'r effeithiau hyn ar filiau (ac unrhyw rai eraill sy'n debygol ar gyfer 'PR24'), gan gynnwys unrhyw fesurau i liniaru'r rhain
- ystyried effeithiau rhwng cenedlaethau ac effeithiau dosbarthiadol⁶ yn eich cynllun.
- ystyried sut mae eich cynllun yn gydnaws ag uchelgeisiau tymor hir DEFRA neu Lywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- sicrhau eich bod yn ystyried dull deublyg sy'n ystyried opsiynau rheoli galw ochr yn ochr ag unrhyw opsiynau cyflenwi
- adlewyrchu'r cynllun rhanbarthol, lle bo hynny'n berthnasol, oni bai fod cyfiawnhad clir dros beidio â gwneud hynny (gweler Adran 2)
- ystyried sut mae'ch cynllun yn cyfrannu at ddatrys yr heriau a nodwyd yn y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Lloegr, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020
- sicrhau bod eich cynllun yn cyfrannu at warchod a gwella bioamrywiaeth, yn sicrhau enillion bioamrywiaeth net lle bo hynny'n briodol, yn sicrhau enillion amgylcheddol, ac yn defnyddio dull cyfalaf naturiol cymesur. Gweler Canllawiau Atodol – Yr amgylchedd a chymdeithas wrth wneud penderfyniadau (Lloegr)
- os oes gwarged gennych, neu os oes gennych ffynonellau ychwanegol ar gael, dylech ddarparu tystiolaeth eich bod wedi gweithio gyda'ch cwmnïau dŵr cyfagos a grwpiau rhanbarthol i nodi a yw'r dŵr hwn ar gael i'w fasnachu. Dylech hefyd ystyried a oes gennych opsiynau i hwyluso masnachu rhwng cwmnïau ymhellach

⁶ Mae effeithiau dosbarthiadol yn ymwneud ag effeithiau cost a pherfformiad ar wahanol fathau o gwsmeriaid ar lefel cwmni a gwahanol gwmnïau ar lefel cynllun rhanbarthol.

- ystyried eich dyletswydd i warchod bioamrywiaeth o dan Adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006⁷ a'r rhestr o rywogaethau a chynefinoedd [pwysig iawn](#) a nodir yn Adran 41 o'r Ddeddf (Lloegr)
- cymryd dull gweithredu ar sail dalgylch, gan gynnwys ymgysylltu ar draws sectorau, i ddatblygu opsiynau sy'n darparu buddion ehangach i gymdeithas
- ystyried sut y bydd eich cynllun yn cyfrannu at adfer natur a sefydlu Rhwydweithiau Adfer Natur, gan ymgorffori cyfleoedd a blaenoriaethau a nodwyd yn ardaloedd y Strategaeth Adfer Natur Leol (Lloegr)
- dylech ystyried yr hyn y gall eich cwmni ei wneud yn ei gynllun rheoli adnoddau dŵr i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Yn benodol, sut y bydd eich cynllun yn cyfrannu at gyflawni sefyllfa sero net yn unol â'ch ymrwymadau penodol o ran y sector, y cwmni a'r llywodraeth

Yng Nghymru

- os yw'ch cynllun yn effeithio ar Gymru, sicrhau bod eich cynllun yn cyflawni gofynion bioamrywiaeth ac amgylcheddol ac yn defnyddio dull cyfalaf naturiol cymesur. Gweler Canllawiau Atodol – 'Yr amgylchedd a chymdeithas wrth wneud penderfyniadau (Cymru)' a 'Cyrchfan Amgylcheddol i Gymru'.
- os oes gwarged gennych, dylech ystyried Egwyddorion Arweiniol Llywodraeth Cymru ynghylch masnachu dŵr a dechrau ymgynghori'n gynnar â Cyfoeth Naturiol Cymru, Gweinidogion Cymru a rhanddeiliaid perthnasol eraill yng Nghymru
- cynllunio ar gyfer y sychder gwaethaf yn eich cofnod hanesyddol, o leiaf. Dylech ystyried digwyddiadau wrth gefn ar gyfer achosion mwy heriol ond tebygol o sychder. Er enghraifft, y rhai rydych chi'n eu hadnabod trwy'r fframwaith perygl o sychder neu ddull cyfatebol. Dylech nodi a oes angen atebion arnoch ar gyfer gwytnwch ychwanegol
- ystyried anghenion aml-sector lleol a'u cynnwys yn eich balans rhwng galw a chyflenwad os ydych chi'n eu cyflenwi'n uniongyrchol neu os oes ganddyn nhw'r gallu i newid eich cyflenwad yn ystod y cyfnodau prysuraf. Dylech ystyried eich polisiau ar gyfer cefnogi defnyddwyr dŵr eraill, fel y rhai nad ydynt yn gysylltiedig â'ch rhwydwaith cyflenwi dŵr (er enghraifft, cyflenwadau dŵr preifat) mewn amgylchiadau lle maent yn ceisio 'cyflenwadau dŵr amgen' megis mewn sychder.
- ystyried sut y gallai eich cynllun gyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, os ydych chi'n cyflenwi cwsmeriaid yng Nghymru neu os yw'ch cynllun yn effeithio ar safleoedd yng Nghymru

⁷ Disgwylir i Fil yr Amgylchedd gryfhau'r rhwymedigaeth hon i un o warchod a gwella bioamrywiaeth. Bydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i 'Awdurdodau Cyhoeddus' bennu polisiau ac amcanion penodol fel y bo'n briodol i hyrwyddo'r amcan bioamrywiaeth a nodi camau y gallant eu cymryd yn briodol.

- gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i ddeall goblygiadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a rheoli egwyddorion adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar gyfer datblygu Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr, os ydych chi'n cyflenwi cwsmeriaid yng Nghymru neu os yw'ch cynllun yn effeithio ar safleoedd yng Nghymru
- ystyried y ddyletswydd bioamrywiaeth a gwynwch ecosystemau, y rhestrau a dyletswydd bioamrywiaeth Adran 7 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), a [Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru](#) os ydych chi'n cyflenwi cwsmeriaid yng Nghymru neu os yw'ch cynllun yn effeithio ar safleoedd yng Nghymru

4.2. Penodiadau ac amrywiadau newydd

Os ydych yn gwmni penodiadau ac amrywiadau newydd⁸ (NAV), dylech gynhyrchu Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr sy'n dangos bod yr holl ofynion statudol wedi'u bodloni. Gall lefel y manylion yn eich cynllun fod yn gymharol â maint eich sylfaen cwsmeriaid ac ar sut rydych chi'n cael gafael ar eich cyflenwadau dŵr. Os ydych chi'n gweithredu o dan gytundebau cyflenwi swmpus gydag ymgymerydd dŵr eraill, gall rhai rhannau o'ch cynllun (cyflenwad) fod yn gymesur i adlewyrchu hyn. Dylech nodi sut y byddwch yn gwneud y canlynol:

- ymgysylltu â'r cyflenwr a'ch cwsmeriaid i barhau i gynnal cyflenwadau dŵr
- cyfrannu at y gwaith o ddatblygu lefelau gwasanaeth cynlluniedig eich cyflenwyr
- ystyried data a gwybodaeth rhoddwyr / ymgymerydd cyfagos wrth baratoi eich cynllun

Dylech gyflwyno ac egluro'n glir unrhyw wahaniaethau mewn gweithredoedd sychder a gynlluniwyd yn eich cynllun. Dylech drafod y gofynion ar gyfer eich cynllun gydag Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn gynnar yn y broses. Lle mae cwmnïau dŵr eraill yn gweithredu yn eich ardal gyflenwi, dylech ystyried unrhyw drefniadau rheoli cyflenwad dŵr a fydd gennych gyda nhw yn eich cynllun drafft.

4.3. Trwyddedau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth

Gall manwerthwyr sydd â thrwyddedau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth gyflenwi cwsmeriaid dibreswyl gan ddefnyddio rhwydweithiau cyflenwi dŵr cyhoeddus. Nid yw'n ofynnol i fanwerthwyr sydd â thrwyddedau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth baratoi eu cynlluniau eu hunain. Fodd bynnag, os ydynt yn gweithredu yn eich ardal chi, o dan amodau eu trwydded arbennig, rhaid iddynt ddarparu unrhyw wybodaeth berthnasol y gofynnwch amdani i lywio'ch cynlluniau. Dylech weithio gydag unrhyw

⁸ Gwneir penodiadau ac amrywiadau newydd o dan y Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 (adrannau 7 ac 8) ac maent yn galluogi Ofwat i ddisodli'r ymgymerydd cyflenwi dŵr a/neu garthffosiaeth presennol ar gyfer ardal benodol arall. Mae penodiadau ac amrywiadau newydd yn ymgymryd â llawer o'r un ddyletswyddau a chyfrifoldebau â'r cwmni statudol blaenorol, gan gynnwys y gofyniad i gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr.

fanwerthwyr sy'n gweithredu yn eich ardal chi i gynllunio a gweithredu unrhyw gynigion rheoli galw sy'n berthnasol i gwsmeriaid dibreswyl yn y rhaglen o'ch dewis.

Yng Nghymru

Dim ond am awdurdodiad manwerthu cyfyngedig sy'n caniatáu i'r deiliad ddefnyddio system gyflenwi cwmni dŵr penodedig i gyflenwi adeilad cymwys ei gwsmeriaid yn unig y gall manwerthwyr â thrwyddedau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth wneud cais amdano. Rhaid i'r manwerthwyr hynny sy'n gymwys i gyflenwi cwsmeriaid dibreswyl o dan awdurdodiad manwerthu cyfyngedig hefyd ddarparu unrhyw wybodaeth berthnasol i chi ar gyfer eich cynlluniau. Dylent hefyd weithio gyda chi i gyflawni unrhyw gynigion rheoli galw sy'n berthnasol i'r cwsmeriaid cymwys hyn.

4.4. Diffinio parth adnoddau dŵr

Dylai eich cynllun fod yn rhan o asesiadau a gynhaliwyd ar lefel parth adnoddau dŵr. Mae parth adnoddau dŵr yn disgrifio ardal lle mae'r ffynonellau dŵr, a'r dosbarthiad dŵr i ateb y galw, yn hunangynhwysol i raddau helaeth (ac eithrio'r trosglwyddiadau swmpus y cytunwyd arnynt). Gallwch rannu eich ardal gyflenwi yn un neu fwy o barthau adnoddau dŵr.

Yn Lloegr, dylech ddiffinio'ch parthau adnoddau dŵr gan ddefnyddio dulliau asesu Asiantaeth yr Amgylchedd (Integredd Parth Adnoddau Dŵr, 2016).⁹ Os ydych yng Nghymru, dylech drafod yr asesiad o integredd eich parth adnoddau â Cyfoeth Naturiol Cymru.

Dylai eich cwsmeriaid mewn parth adnoddau wynebu'r un risg o fethiant cyflenwad a'r un lefel o wasanaeth ar gyfer cyfyngiadau galw. Bydd cyfyngiadau i gyflawni hyn oherwydd nodweddion penodol rhwydwaith dosbarthu. Dylai dŵr o fewn parth adnoddau dŵr fod yn ddefnyddiadwy ledled eich rhwydwaith ac i'ch cwsmeriaid, o ran ansawdd dŵr a chaledwch.

Dylech adolygu a fyddai newidiadau i'ch cyflenwad neu alw arfaethedig yn y dyfodol yn achosi materion ar lefel is-barthau. Os yw hyn yn wir, dylech ystyried isrannu'r parth adnoddau neu gyfiawnhau cynnal y parth cyfredol.

Dylech ddarparu ffurfweddiad arfaethedig eich parth adnoddau, ynghyd â'ch rhesymu, i Asiantaeth yr Amgylchedd a/neu Cyfoeth Naturiol Cymru, Ofwat, a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed yn ystod y broses cyn ymgynghori. Os oes angen i chi gyfuno neu rannu parth adnoddau yn ystod eich cyfnod cynllunio, dylech drafod eich dull gweithredu gydag Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru.

4.5. Nodweddu problemau

Dylech ddeall graddfa a chymhlethdod eich problem gynllunio fel y gallwch ddewis dulliau priodol. Dylech ddefnyddio cam nodweddu problemau [Canllawiau'r Broses](#)

⁹ Mae hwn ar gael ar gais o'r manylion cyswllt a nodir yn Adran 1.

[Gwneud Penderfyniadau UKWIR](#) i nodi graddfa a chymhlethdod eich problem gynllunio a pha mor agored ydych i amrywiol faterion strategol, risgiau ac ansicrwydd. Dylech ddefnyddio'r wybodaeth hon a [Dull Cynllunio Seiliedig ar Risg UKWIR](#) i lywio'ch dewis o ddulliau fel eu bod yn gymesur o ran yr ymdrech, y cymhlethdod a'r costau.

4.6. Aseiad perygl o sychder

Lloegr

Dylech ddefnyddio'r fframwaith perygl o sychder, neu ddull cyfatebol, i asesu gwynwch eich system gyflenwi gyfredol i ystod o wahanol ddifrifoldeb a hyd o sychder.

Gallwch ddefnyddio'r fframwaith perygl o sychder fel cam sgrinio i'ch helpu chi i ddeall pa fathau o sychder rydych yn agored iddynt. Yn eich cynllun, dylech gyflwyno dau arwyneb ymateb ar gyfer pob parth adnoddau. Dylai eich arwynebau ymateb ddefnyddio misoedd sy'n gorffen yn wahanol i adlewyrchu'r risgiau y gallech eu hwynebu. Dylech dybio y gallwch ddefnyddio pa bynnag opsiynau cyflenwi a mesurau sychder sydd yn eich cynllun ar gyfer y flwyddyn sylfaen. Dylech gyflwyno'r prif ffynonellau ansicrwydd fel yr argymhellir gan lawlyfr [Asesu Perygl Sychder UKWIR](#).

Dylech ddefnyddio'r canlyniadau i wneud y canlynol:

- tynnu sylw at unrhyw fathau penodol o sychder y mae eich system yn agored iddynt
- ystyried sut y gallwch wella'ch gwynwch i sychder trwy'ch cynllun

Gallwch ystyried cynnwys arwynebau ymateb i sychder pellach yn eich cynllun, i ddangos gwynwch eich cynllun terfynol yn y dyfodol.

Cymru

Dylech seilio'ch rhagolwg cyflenwad ar ddyluniad o sychder. Fel lleiafswm, dylech asesu'ch cynllun yn erbyn y sychder gwaethaf a gofnodwyd. Dylech ystyried digwyddiadau wrth gefn ar gyfer achosion o sychder mwy heriol, ond tebygol, ar gyfer parth adnoddau dŵr lle rydych chi wedi nodi bod perygl o'r rhain. Dylech drafod eich cyfiawnhad dros osod eich dyluniad o sychder (lefelau gwynwch) ar gyfer pob parth adnoddau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd. Dylech gynnwys y cyfiawnhad hwn a'r dystiolaeth ategol yn eich cynllun.

Dylech ddilyn canllawiau [Cynllunio Seiliedig ar Risg UKWIR](#) i lywio eich aseiad o perysgl sychder (risg) ac i benderfynu ar ddyluniad o sychder. Gallwch ddefnyddio un o'r technegau canlynol o ganllawiau UKWIR:

- cynllun confensiynol (cyfansoddiad risg 1 – yn seiliedig ar y sychder gwaethaf a gofnodwyd)

- cynllun wedi'i brofi ar gyfer gwytnwch (cyfansoddiad risg 2 – ystyried ystod o achosion sychder mwy heriol ond tebygol)
- cynllun wedi'i seilio'n llawn ar risg (cyfansoddiad risg 3 – yn seiliedig ar ddadansoddiad tebygolrwydd o ddigwyddiadau sychder nas gwelir yn y cofnod hanesyddol)

Dylech gynnwys datganiad pergyl sychder yn eich cynllun i adlewyrchu'r risgiau hydrolegol y mae sychder yn eu gosod ar eich system gyflenwi. Pa bynnag ddigwyddiad dylunio a ddewiswch, dylech barhau i brofi'ch cynllun yn erbyn ystod fwy heriol, ond tebygol, o ddigwyddiadau sychder. Yn amlwg, dylech gyfiawnhau'ch dewis o gyfansoddiad risg yn glir, yn enwedig os dewiswch gyfansoddiad risg 1. Dylech amlinellu'r risgiau a'r ansicrwydd dan sylw, er enghraifft, yn eich modelu ymddygiad a'ch dadansoddiad o allbwn ffynhonnell.

Efallai y byddwch hefyd yn dewis defnyddio asesiadau'r fframwaith perygl o sychder o'ch cynllun sychder i ategu eich dull. Dylech wneud hyn ar gyfer y parthau adnoddau hynny sydd fwyaf tebygol o fod yn agored i ystod o ddigwyddiadau sychder. Dylech ymgysylltu'n gynnar â Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod ei ddisgwyliadau ar gyfer defnyddio'r fframwaith perygl o sychder ar gyfer eich parthau adnoddau yng Nghymru.

4.7. Lefelau gwytnwch

Diffinnir y pwynt methu fel a ganlyn: gweithredu cyfyngiadau galw eithriadol ar gwsmeriaid, sy'n gysylltiedig â gorchmynion sychder brys, fel safbibellau. Rhaid i'ch cynllun nodi'ch lefel gwasanaeth arfaethedig ar gyfer y methiant hwn, yn ogystal â'ch gwir lefel o wasanaeth. Dylai eich cynllun esbonio sut mae'ch cwmni'n diffinio'r lefel hon o fethiant. Pan fo cwmnïau'n rhannu ffynhonnell ddŵr sy'n cael ei rheoli drwy gytundeb ffurfiol, dylech ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o ran defnyddwyr o gydnerthedd y system, gan gynnwys cromliniau riwl a'r pwynt methu. Dylech drafod gyda rheoleiddwyr (fel sy'n berthnasol) eich tybiaethau ar gyfer cydnerthedd y ffynhonnell a rennir ac egluro unrhyw wahaniaethau o ran cwmnïau eraill sy'n rhannu'r ffynhonnell honno.

Rhaid i'ch cynllun hefyd osod eich lefel gwasanaeth arfaethedig ar gyfer cyfyngiadau cwsmeriaid eraill dros y cyfnod cynllunio. Dylech egluro pa mor aml rydych chi'n bwriadu cyfyngu cyflenwadau dŵr ar gyfer eich cwsmeriaid preswyl a dibreswyl gan ddefnyddio gwaharddiadau defnydd dros dro a gwaharddiadau defnydd nad yw'n hanfodol. Dylai'r rhain fod yn gyson â'ch cynllun sychder a'r rhagdybiaethau yn y cynllun rhanbarthol, lle bo hynny'n berthnasol.

Dylech ddisgrifio sut rydych chi wedi ymgysylltu â'ch cwsmeriaid a'ch rhanddeiliaid, a sut rydych chi wedi ystyried eu barn a'u gofynion wrth ddatblygu lefel eich gwasanaeth.

Os ydych yn gwmni penodiadau ac amrywiadau newydd a gyflenwir yn gyfan gwbl gan gyflenwadau swmpus, dylech adlewyrchu lefelau gwasanaeth eich deiliad.

Ar gyfer cwmnïau yn Lloegr

Dylech gynllunio fel bod eich system yn gallu gwrthsefyll siawns flynyddol o 0.2%¹⁰ o fethiant a achosir gan sychder, lle diffinnir methiant fel gweithredu gorchymyn sychder brys. Disgrifir hyn fel lefel gwytnwch '1 mewn 500 mlynedd' yn y canllaw hwn. Dylech geisio cyflawni'r lefel hon o wytnwch erbyn 2039 fan bellaf. Dylech bennu'r amseriad gorau posibl ar gyfer cyflawni hyn trwy'r grwpiau rhanbarthol, gan ystyried costau a buddion dulliau amgen. Dylai'r amserlen a ffefrir gennych ystyried cydbwysedd o wytnwch rhwng cwsmeriaid a'r amgylchedd, fforddiadwyedd y rhaglen (ynghyd ag effeithiau dosbarthiadol), a chyflawnadwyedd. Wrth gyflawni'r lefel hon o wytnwch, dylech ystyried sut y gallwch ddefnyddio technoleg arloesol, megis rhwydweithiau craff, ac ymyriadau gweithredol wedi'u cynllunio, er mwyn osgoi'r risg o ddatblygu seilwaith mawr na ddefnyddir yn aml.

Mae rhywfaint o hyblygrwydd yn yr amserlenni ar gyfer sicrhau gwytnwch o '1 mewn 500 mlynedd' yn bosibl, lle mae costau'n eithriadol o uchel yn lleol o gymharu â buddion – er enghraifft, ar lefel parth adnoddau dŵr. Pan ystyrir bod mwy o hyblygrwydd yn briodol, dylech gyflwyno bodloni senario '1 mewn 500 mlynedd' erbyn 2050. Dylech nodi'n glir y newidiadau i'ch rhaglen a ffefrif a lefel y gwasanaeth yn ystod yr amser hwn. Dylai fod gennych gynllun sychder cadarn ar waith i amddiffyn y cwsmeriaid hynny pan mai dyma yw'r achos.

Yn y tymor byr, fe allech chi ystyried y defnydd cynyddol o opsiynau rheoli sychder i gyflawni'r lefel ddisgwyliedig o wytnwch yn y cynllun terfynol a/neu ystyried lleihau lefel eich gwasanaeth yn y cyfamser.

Ni ddylai eich gwytnwch cynyddol yn y tymor canolig a'r tymor hwy ddibynnu ar y defnydd cynyddol o fesurau sychder i hybu cyflenwadau – er enghraifft, trwy ganiatáu tynnu dŵr ychwanegol yn ystod sychder lle mae hyn yn niweidiol i'r amgylchedd. Dylech gynllunio, lle bo hynny'n briodol, i ddefnyddio trwyddedau a gorchmynion sychder yn llai aml yn y dyfodol, yn enwedig mewn ardaloedd sensitif. Dylech ddefnyddio'ch dealltwriaeth o'r risgiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â phob trwydded a gorchymyn i lywio amllder eich defnydd arfaethedig. Dylech hefyd nodi, trwy'r tablau perthnasol, trefn ac amllder tebygol defnyddio'ch trwyddedau sychder a'ch gorchmynion sychder. Dylai'r rhagdybiaethau fod yn gyson â'ch cynllun sychder.

Mae'r Canllawiau Atodol: Cynllunio i fod yn wydn i sychder 1 mewn 500 yn darparu arweiniad pellach ar gynllunio ar gyfer y lefel hon o wytnwch.

Ar gyfer cwmnïau yng Nghymru

Dylech nodi'r lefelau gwasanaeth yr ydych yn bwriadu eu darparu i'ch cwsmeriaid dros y cyfnod cynllunio. Dylech ddisgrifio pa mor aml yr ydych yn bwriadu cyfyngu cyflenwadau dŵr ar gyfer eich cwsmeriaid preswyl a dibreswyl gan ddefnyddio gwaharddiadau defnydd dros dro, gwaharddiadau defnydd nad yw'n hanfodol a

¹⁰ Cyfeirir ato hefyd fel '1 mewn 500 mlynedd'.

gorchmynion sychder brys. Dylai lefel eich gwasanaeth gael ei ategu gan ddefnyddio rhagdybiaethau a methodolegau priodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a bod yn gyson â'ch cynllun sychder.

Dylech ddisgrifio sut rydych wedi ymgysylltu â'ch cwsmeriaid a'ch rhanddeiliaid ac ystyried eu barn wrth ddatblygu lefel eich gwasanaeth. Dylech ystyried costau a buddion newid lefel eich gwasanaeth. Wrth ystyried sut i gyfathrebu gwytnwch â'ch cwsmeriaid, dylech ystyried adroddiad [Cynllunio Seiliedig ar Risg UKWIR](#) a datblygu metrigau gwytnwch.

Os ydych chi'n gwmni o Gymru sy'n cynllunio trosglwyddiad newydd gyda chwmni o Loegr, dylech gynllunio i fod yn wydn i unrhyw sychder o gyfnod dychwelyd bras o unwaith mewn 500 mlynedd (tebygolrwydd methiant o 0.2% y flwyddyn) trwy weithredu'r trosglwyddiad ar gyfer y parthau hynny y mae'r opsiynau masnachu yn effeithio arnynt. Dylid ond ystyried trosglwyddiad newydd o Gymru os yw lefel y gwasanaeth yn y parth adnoddau yng Nghymru (ac unrhyw barthau eraill yng Nghymru y mae hyn yn effeithio arnynt) yn gyfwerth neu'n uwch na'r parth adnoddau sy'n ei dderbyn.

4.8. Rhagdybiaethau cynllunio

Dylai eich cynllun fod yn seiliedig ar senario sylfaenol sy'n ystyried y balans rhwng galw a chyflenwad pan fydd eich cyflenwadau'n isel a'ch galw yn uchel. Dyma'ch senario dylunio.

Dylech asesu eich angen i gynnwys yr elfennau a ganlyn yn eich cynllun: neu senarios, Cyfnod Critigol Blwyddyn Sych yn eich cynllun i ddangos sut y byddwch chi'n cynllunio ar gyfer cyfnod o uchafbwynt straen ar eich system. Er enghraifft, mae galw tymhorol uchel fel yn ystod tywydd poeth (er enghraifft, 2018 a 2020), gollyngiadau yn y gaeaf, neu pan fydd pobl ar eu gwyliau yn cynyddu'r galw yn sylweddol yn ystod yr haf. Gallech ystyried cyfnod critigol sy'n cynnwys cyfuniad o bwysau.

Pan fo'r mathau hyn o uchafbwynt straen gyda pharhad byrrach neu effaith fwy lleol o lawer nag a ystyrir mewn Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr, dylech fynd i'r afael â hwy fel rhan o'ch cynllun busnes.

Dylai eich senarios cynllunio adnoddau dŵr sylfaenol gynnwys y rhagdybiaethau canlynol:

- gollyngiadau yn aros yn eu hunfan o flwyddyn gyntaf eich cynllun (2025/26) trwy gydol eich cyfnod cynllunio cyfan (oni chytunir yn wahanol gan reoleiddwyr).¹¹

¹¹ Defnyddir y dull hwn ar gyfer symlrwydd ar gyfer cyfrifo'r balans rhwng galw a chyflenwad yn y senario sylfaenol. Nid yw hyn yn gysylltiedig ag unrhyw benderfyniadau cyllido y gall Ofwat eu cymryd ar gyfer yr adolygiad prisiau yn 2024 (PR24).

- eich rhagolwg o ddefnydd cwsmeriaid heb unrhyw ymyrraeth bellach gan gwmni dŵr. Fe ddylech chi dybio eich bod chi'n dod â'ch rhaglenni effeithlonrwydd dŵr a'ch rhaglenni mesuryddion i ben ar ôl yr hyn rydych chi wedi'i ariannu i'w gyflawni yn ystod cyfnod Cynllunio Rheoli Asedau 7 (AMP7)
- trosglwyddiadau presennol i raddau'r cytundebau cyflenwi swmpus y cytunwyd arnynt neu drefniadau eraill
- cynnwys gostyngiadau cynaliadwyedd (gweler Adran 5.5 am fanylion pellach)
- buddion atebion nad ydynt yn ymwneud â'r balans rhwng galw a chyflenwad, fel cynnal a chadw cyfalaf
- peryglon i ffynonellau dŵr daear a dŵr wyneb oherwydd bod ansawdd y dŵr yn dirywio. Dylai'r rhain gael eu dal yn eich cynllun sylfaenol fel y gellir archwilio'r mesurau i fynd i'r afael â hwy yn gywir a'u nodi yn eich cynllun. Os oes ansicrwydd sylweddol, gallwch gynnwys y risg hon mewn targed ychwanegol wrth gefn
- ni ddylid cynnwys y cyfraniadau o unrhyw fesurau sychder galw neu gyflenwi.¹²
- buddion cynlluniau sydd wedi bodloni un neu ragor o'r amodau canlynol:
 - wedi cael caniatâd cynllunio i fynd ymlaen;
 - lwfans ariannu a wnaed gan Ofwat mewn cynllun busnes ar gyfer cyflawni'r cynllun; neu
 - ganiatadau angenrheidiol eraill megis trwyddedau tynnu dŵr neu drwyddedau amgylcheddol

Dylech gynnwys rhagolygon ar gyfer galw a chyflenwad dŵr na ellir ei yfed fel llinellau ychwanegol yn y tablau cynllunio adnoddau dŵr, lle bo hynny'n berthnasol.

Lloegr

Os ydych yn Lloegr, dylai eich senario dylunio fod yn seiliedig ar y canlynol:

- rhagolwg o'r cyflenwad – eich amcangyfrifad o'r cyflenwadau sydd ar gael mewn methiant¹³ a achosir gan sychder o debygolrwydd o unwaith mewn 500 mlynedd neu 0.2% mewn unrhyw flwyddyn. Gweler Adran 5 a'r Canllawiau Atodol: Cynllunio i fod yn wydn i sychder o 1 mewn 500 am fanylion pellach
- rhagolwg o'r galw – eich galw cyfartalog blynyddol a ragwelir mewn blwyddyn sych, pan fydd y galw am ddŵr ar ei uchaf cyn gosod gwaharddiadau defnydd

¹² Mesurau sychder cyflenwi yw'r rhai sy'n cynyddu'r cyflenwadau sydd ar gael yn ystod sychder – er enghraifft, trwyddedau sychder, gorchmynion sychder ac ailgomisiynu ffynonellau. Byddai mesurau yn ymwneud â galw yn cynnwys gwaharddiadau defnydd dros dro a gwaharddiadau defnydd nad yw'n hanfodol.

¹³ Diffinnir y pwynt o fethiant fel defnyddio cyfyngiadau galw eithriadol sy'n gysylltiedig â gorchmynion sychder brys, fel safbibellau.

dros dro. Os oes gennych dystiolaeth sy'n awgrymu bod y galw mewn sychder 1 mewn 500 mlynedd gyda mesurau sychder ar waith yn uwch na'r galw cyfartalog blynyddol am flwyddyn sych, gallwch ystyried defnyddio hwn fel dewis arall. Dylech gyflwyno'ch dystiolaeth a thrafod y dull hwn gyda rheoleiddwyr. Os cytunir arno, bydd angen i chi hefyd roi gwybod am ddefnydd blwyddyn sych anghyfyngedig y pen a balans cyflenwad cyfartalog blynyddol mewn blwyddyn sych

Dylech adrodd ar ddata ar lefel parth adnoddau dŵr gan ddefnyddio'r tablau cynllunio adnoddau dŵr. Dylai'r cynllun a ffeirir gennych fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn eich senarios cyfartalog blynyddol mewn blwyddyn sych a chyfnodau critigol.

Dylech hefyd gyflwyno'ch asesiad, ar gyfer pob parth adnoddau, o'r galw y gallech ei ddisgwyl yn ystod digwyddiad sychder 1 mewn 500 mlynedd.

Cymru

Dylai'r cynllunio sylfaenol ar gyfer eich senario dylunio gynnwys y canlynol:

- rhagolwg cyflenwad sylfaenol, gan gynnwys eich asesiad o'r dŵr sydd ar gael i'w ddefnyddio o ffynonellau cyfredol. Dylech seilio hyn ar gyflenwadau y gellir eu cynnal trwy ddyluniad o sychder a ystyrir yn briodol ar gyfer eich parth adnoddau / ardal eich cwmni. Dylai'r galw cyfartalog blynyddol ar gyfer blwyddyn sych a'r dyluniad o sychder gysylltu â'ch cynllun sychder ac ystyried disgwyliadau'r llywodraeth
- lle rydych chi'n cynllunio trosglwyddiad newydd i Loegr, dylech adlewyrchu'ch rhagdybiaethau ar gyfer eich rhagolygon cyflenwad a galw sylfaenol ar gyfer y parthau yr effeithir arnynt gyda'r cynllun rhanbarthol perthnasol
- rhagolwg galw sylfaenol sy'n cwmpasu'r hyn sydd ei angen ar bobl a busnesau, yr hyn rydych chi'n disgwyl ei golli trwy ollyngiadau, a'r hyn y gallwch chi ei ddefnyddio wrth weithredu'ch system. Dylech seilio hyn ar y galw cyfartalog blynyddol a ragwelir ar gyfer blwyddyn sych, pan fydd y galw am ddŵr ar ei uchaf cyn gosod cyfyngiadau ar ddefnydd dŵr
- ystyriaeth o ansicrwydd yn ymwneud â'ch rhagolygon cyflenwad a galw yn dibynnu ar y dulliau a ddewiswyd gennych

Dylech drafod pa senarios y dylid eu cyflwyno yn eich cynllun gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

Adran 5 – Datblygu eich rhagolwg cyflenwad

Yn eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr, dylech nodi faint o ddŵr sydd gennych yn eich blwyddyn sylfaen a sut rydych chi'n rhagweld y bydd hyn yn newid trwy gydol y cyfnod cynllunio. Dylech ddangos eich bod yn deall sut mae'ch ffynonellau'n ymateb i sychder, y cyfyngiadau cyfredol, a'r newidiadau posibl i'ch ffynonellau dŵr yn y dyfodol.

5.1. Sut i ddatblygu eich rhagolwg cyflenwad

Dylech asesu faint o ddŵr sydd ar gael i gyflenwi'ch cwsmeriaid ym mhob un o'ch parthau adnoddau dŵr. Ar gyfer cwmnïau yn Lloegr, dylai eich cyflenwadau llinell sylfaen fod ar gael mewn siawns flynyddol o 0.2% o fethiant a achosir gan sychder.

Bydd y dŵr sydd ar gael ym mhob parth adnoddau yn dibynnu ar y dŵr sydd ar gael o bob ffynhonnell a sut y byddwch chi'n defnyddio'r ffynonellau hynny ar y cyd. Ar gyfer cwmnïau yng Nghymru, ac ar gyfer Cymru mewn parthau adnoddau perthnasol,¹⁴ dylech ddefnyddio allbwn ymateb i system y gellir ei ddefnyddio.¹⁵

Dylech drafod eich dull o ddatblygu eich rhagolwg cyflenwad gydag Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru (fel sy'n briodol) mor gynnar â phosibl.

Wrth ddatblygu eich rhagolwg cyflenwad, dylech roi cyfrif am effaith y pwysau canlynol ar eich ffynonellau:

- newidiadau i'ch trwyddedau tynnu dŵr er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a chwrdd â'ch cyrchfan amgylcheddol tymor hir (gweler adrannau 5.4 a 5.5)
- effaith yr hinsawdd yn newid (gweler Adran 5.6)
- materion sy'n codi o lygredd neu halogi ffynonellau
- materion sy'n codi o ddatblygiad a seilwaith newydd
- newidiadau mewn trefniadau contractiol neu drefniadau eraill – er enghraifft, gyda throsglwyddo dŵr rhwng cwmnïau

Os ydych yng Lloegr (a Chymru lle bo hynny'n berthnasol), dylech ystyried y Canllawiau Atodol: Cynllunio i wrthsefyll sychder 1 mewn 500. Mae hyn yn esbonio sut y dylech ddiffinio senario cynllunio '1 mewn 500 mlynedd' a'r rhagdybiaethau y dylech eu defnyddio.

¹⁴ Perthnasol yw lle mae trosglwyddiad newydd wedi'i gynllunio o Gymru i Loegr neu lle rydych wedi cyfiawnhau'r angen i gynllunio ar gyfer lefel sychder 1 mewn 500 mlynedd o fewn parth.

¹⁵ I gael rhagor o wybodaeth am yr allbwn ymateb i system y gellir ei ddefnyddio, gweler y Canllawiau Atodol: Cynllunio i wrthsefyll sychder 1 mewn 500.

5.2. Beth i'w gynnwys yn eich rhagolwg cyflenwad sylfaenol

Dylech seilio'ch rhagolwg cyflenwad sylfaenol ar ymateb eich system. Mae defnyddio ymateb eich system yn amgen i lawiad neu lawiad gwirioneddol. Mae hyn oherwydd y problemau wrth gyflwyno hyd, patrymau glawio, a dechrau a diwedd misoedd wrth werthuso'r cyfnod dychwelyd. Mae defnyddio ymateb system yn golygu y bydd eich rhagolwg cyflenwad yn dal cyfyngiadau eich system, gallu defnydd cyfunol ac ymateb gweithredol yn ddigonol.

Os ydych chi'n tynnu dŵr yn eich parth adnoddau dŵr, dylech gynhyrchu dadansoddiad o'ch rhagolwg cyflenwad sy'n cynnwys y canlynol:

- yr allbwn y gellir ei ddefnyddio ar gyfer pob ffynhonnell (neu grŵp o ffynonellau)
- newidiadau yn y dyfodol i'r allbwn y gellir ei ddefnyddio yn sgil newidiadau cynaliadwyedd, gan gynnwys eich cyrchfan amgylcheddol hirdymor, hinsawdd sy'n newid, ac unrhyw newidiadau eraill rydych chi'n eu disgwyl
- trosglwyddiadau a chynlluniau presennol lle mae caniatâd cynllunio eisoes ar waith
- ystyriaeth o golledion tymor byr o ran cyflenwad a bregusrwydd ffynonellau a elwir yn doriad
- unrhyw ddefnydd gweithredol o ddŵr neu gollu dŵr trwy'r broses trin tynnu dŵr
- rhagolwg cyflenwad sy'n cyfuno'r holl elfennau uchod â'r dŵr sydd ar gael i'w ddefnyddio

Mae cyfarwyddiadau'r tabl cynllunio adnoddau dŵr yn diffinio cydrannau unigol eich rhagolwg cyflenwad a sut y dylech eu diffinio.

Os oes angen senario neu senarios cyfnod critigol arnoch, dylech ddarparu rhagolygon galw a chyflenwad ar eu cyfer yn ychwanegol at y senario sylfaenol.

Os yw'ch parth adnoddau dŵr yn derbyn ei holl ddŵr trwy drosglwyddiadau neu drydydd partïon, dim ond eich trefniadau contractiol y dylai eich rhagolwg cyflenwad eu hadlewyrchu. Fodd bynnag, dylech gadarnhau bod y cwmni cyflenwi wedi gwneud yr asesiadau angenrheidiol i gyflawni'r rhwymedigaethau statudol a pholisi, er enghraifft asesiadau newid yn yr hinsawdd. Dylech hefyd gadarnhau y bydd yn gallu cyflenwi dŵr i chi yn ystod eich senario dylunio ac y gallwch chi gyrraedd lefel eich gwasanaeth. Dylai lefel eich gwasanaeth adlewyrchu lefel gwasanaeth y deiliad.

5.3. Beth i'w gwmpasu yn eich asesiad o'r allbwn y gellir ei ddefnyddio

Os na ddarperir eich ffynhonnell ddŵr trwy drosglwyddiad yn unig, dylech asesu ac adrodd ar eich allbwn y gellir ei ddefnyddio. Ar gyfer cwmnïau yn Lloegr, dylech benderfynu defnyddio allbwn ymateb i system y gellir ei ddefnyddio fel bod eich system yn gallu gwrthsefyll siawns flynyddol o 0.2% o fethiant a achosir gan sychder. Allbwn y gellir ei ddefnyddio yw cynnyrch ffynhonnell a gomisiynwyd, neu grŵp o ffynonellau a gyfyngir gan y canlynol:

- cynnyrch hydrolegol
- meintiau trwyddedig
- yr amgylchedd (wedi'i gynrychioli trwy gyfyngiadau trwydded)
- offer pwmpio ac eiddo ffynnon/dyfrhaen
- y prif gyflenwad dŵr a dyfrbontydd
- y prif gyflenwad trosglwyddo ac allbwn
- triniaeth
- ansawdd dŵr, gan gynnwys unrhyw risgiau i'ch ffynonellau dŵr daear a dŵr wyneb oherwydd dirywiad yn ansawdd y dŵr neu ymwthiad halwynedd

Dylech ystyried y risgiau o beidio ag adnewyddu trwyddedau â therfyn amser sydd i ddod i ben yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y cynllun. Dylech adolygu a yw'r trwyddedau hyn yn gynaliadwy ac nad yw eu defnydd yn achosi dirywiad amgylcheddol. Os oes risgiau o ran adnewyddu, dylech ddisgrifio sut y byddwch yn rheoli'r rhain yn eich cynllun.

Ni ddylai eich allbwn y gellir ei ddefnyddio gynnwys y cyfraniadau o unrhyw fesurau sychder o safbwynt y galw neu'r cyflenwad¹⁶ fel trwyddedau neu orchmynion sychder.

Dylech egluro'n glir yn eich cynllun pa ffactorau sy'n cyfyngu ar yr allbwn y gellir ei ddefnyddio. I gyfrifo'ch allbwn y gellir ei ddefnyddio, dylech ddefnyddio'r canlynol:

- [Llawlyfr Methodolegau Cynnyrch Ffynhonnell](#) UKWIR
- [Dulliau Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr 19 – Cynllunio ar Sail Risg](#) UKWIR (2016)

O ystyried natur gymhleth cyfrifiadau allbwn y gellir eu defnyddio yng nghyd-destun sychder a gynhyrchir yn stocastig, dylech siarad ag Asiantaeth yr Amgylchedd a/neu Cyfoeth Naturiol Cymru wrth ddatblygu eich cynllun. Dylech hefyd gyfeirio at y

¹⁶ Mesurau sychder cyflenwi yw'r rhai sy'n cynyddu'r cyflenwadau sydd ar gael yn ystod sychder, er enghraifft trwyddedau sychder, gorchmynion sychder ac ailgomisiynu ffynonellau.

Canllawiau Atodol: Cynllunio i wrthsefyll sychder 1 mewn 500 (Lloegr) ac at y Canllawiau Atodol: Stocasteg.

5.4. Eich rôl wrth gyflawni tynnu dŵr yn gynaliadwy

Mae tynnu dŵr yn gynaliadwy yn hanfodol i gynnal ecoleg iach a gwytnwch naturiol ein hafonydd, gwlyptiroedd a dyfrhaenau. Dylai eich cynllun amddiffyn a gwella'r amgylchedd, gan ystyried heriau cyfredol ac yn y dyfodol. Gallai hyn olygu, er enghraifft, amddiffyn llymchwr o'r amgylchedd ar gyfer rhai cynefinoedd sensitif ac afonydd bregus, fel afonydd sialc. Mae hyn er mwyn galluogi'r afonydd, y gwlyptiroedd a'r dyfrhaenau hyn i gyflawni amcanion amgylcheddol yn y dyfodol. Dylai eich cynllun ddangos bod eich proses tynnu dŵr yn gynaliadwy nawr a thros yr hirdymor.

Dylai cwmnïau yn Lloegr neu gwmnïau sy'n effeithio ar Loegr gyfeirio at y canllawiau atodol, 'Actions required to prevent deterioration – England'. Mae'r canllawiau atodol yn nodi sut y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn newid trwyddedau tynnu dŵr i atal dirywiad. Rhaid i chi gynllunio ar gyfer y newidiadau hyn a chymryd camau i sicrhau nad yw eich tyniadau dŵr yn achosi dirywiad. Os yw eich tyniadau dŵr presennol yng Nghymru neu'n effeithio ar safleoedd yng Nghymru, dylech ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r canlynol yn berthnasol i'ch cynllun:

- rhaid iddo gyflawni'r camau rheoleiddio sy'n ofynnol i osgoi dirywiad a chyrraedd targedau ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig
- rhaid iddo gyflawni'r camau sy'n ofynnol i gyflawni'r [Cynllun Tynnu Dŵr](#) ar gyfer 2027 (lle bo hynny'n berthnasol) a'r rhai sy'n ofynnol i gyflawni amcanion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, fel y'u diffinnir yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon
- dylai ystyried amcanion y llywodraeth a rheoleiddwyr ar gyfer yr amgylchedd
- dylai gynnwys y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol y Diwydiant Dŵr a/neu'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol
- dylai gynnwys eich cyrchfan amgylcheddol tymor hir, gan nodi'n glir y camau y byddwch yn eu cymryd yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor i'w gyflawni. Dylech wahaniaethu rhwng y camau sy'n ofynnol i fodloni'r gofynion rheoliadol cyfredol a'r rhai sy'n rhan o'ch cyrchfan tymor hwy. Os nad yw'r camau i gyflawni'r cyrchfan amgylcheddol tymor hir yn hysbys ar hyn o bryd, dylech nodi pa waith pellach sydd ei angen i ddeall y camau sydd eu hangen i gyflawni'ch cyrchfan amgylcheddol
- dylai adlewyrchu a chefnogi cyflawniad y gyrchfan amgylcheddol hirdymor ranbarthol (lle mae un yn berthnasol) a chyflawniad eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn y gyrchfan amgylcheddol

5.4.1. Gofynion statudol cyfredol a disgwyliadau rheoliadol

Mae'n ddyletswydd arnoch i roi sylw i Gynlluniau Rheoli Basn Afon wrth arfer eich swyddogaethau. Rhaid i chi asesu'ch holl dyniadau dŵr a ragwelir ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion ac amcanion rheoleiddio'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, ac yn eu cefnogi, a nodir yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Mae hyn yn cynnwys amcanion ardaloedd gwarchodedig. Rhaid i chi hefyd ystyried unrhyw rwymedigaethau amgylcheddol eraill, gan gynnwys rhwymedigaethau tuag at Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a gwmpesir gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, safleoedd a ddynodwyd o dan Gyfarwydddeb Cynefinoedd yr UE, Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ac unrhyw gytundebau rhyngwladol eraill. Os ydych chi'n gwmni dŵr yng Nghymru neu'n effeithio ar Gymru, mae'n rhaid i chi hefyd ystyried y cynefinoedd a'r rhywogaethau a restrir o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Dylech hefyd bennu unrhyw newidiadau sydd eu hangen ar eich tyniadau dŵr i amddiffyn neu wella safleoedd o bwys lleol (safleoedd heb eu dynodi), gan gynnwys y rhai sy'n cefnogi cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi mesurau yn Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol y Diwydiant Dŵr neu'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol i chi ymchwilio iddynt neu eu cyflawni. Dylech gynnwys unrhyw newidiadau cynaliadwyedd a nodwyd yn eich Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol y Diwydiant Dŵr neu Raglen Amgylchedd Genedlaethol yn y cynllun rhanbarthol ac yn eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr.

Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn nodi mesurau eraill yn Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol y Diwydiant Dŵr a'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol. Gallai hyn gynnwys: y rhai i amddiffyn llyswennod o dan Reoliadau Llyswennod (Cymru a Lloegr); gwella llwybrau pysgod o dan y Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw a'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr; a gwarchod cyflenwadau dŵr yfed crai. Dylech asesu'r effaith y bydd y mesurau hyn a mesurau eraill yn ei chael ar eich rhagolwg cyflenwad.

Ni ddylech gadw dŵr heb ei ddefnyddio ar eich trwyddedau sy'n peri risg o ddirywiad ac nad yw wedi'i gyfiawnhau gan eich cynllun rheoli adnoddau dŵr. Os oes gennych unrhyw drwyddedau sy'n perthyn i'r categori hwn, dylech gynllunio i'w hildio. Ar gyfer cwmnïau yn Lloegr neu gwmnïau sy'n effeithio ar Loegr, gweler y canllawiau atodol, 'Actions required to prevent deterioration – England' am ragor o wybodaeth. Dylai cwmnïau sydd â thrwyddedau yng Nghymru ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru.

Dylai eich cynllun nodi sut y byddwch yn rheoli'r risg o ddirywiad a achosir gan eich tyniadau dŵr. Dylid hefyd asesu unrhyw opsiynau angenrheidiol i gynnal diogelwch y cydbwysedd rhwng galw a chyflenwad os yw'r risg yn sylweddol.

Pan fo angen newid mewn trwydded i atal dirywiad yn Lloegr, bydd trwyddedau naill ai'n cael eu capio ar y gyfradd tynnu dŵr cyfartalog gwirioneddol diweddaraf, neu ar y cyfaint uchaf o ddŵr a dynnir yn ystod unrhyw flwyddyn mewn cyfnod tynnu dŵr cynrychioliadol, gan ddibynnu ar y risg y bydd dirywiad yn digwydd. Pan fo trwyddedau'n cael eu capio ar y gyfradd tynnu dŵr uchaf, bydd hyn yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i chi fodloni cyfnodau brig tymor byr yn y galw. Fodd bynnag, rhaid ichi beidio â chynllunio i gyflenwi twf yn y galw yn y dyfodol drwy gynydd anghynaliadwy mewn tynnu dŵr o dan drwyddedau sydd yn y categori hwn. Mae'n bosibl y bydd gan fesurau rheoli galw, datrysiadau seiliedig ar natur, adsefydlu hydromorffolegol a'r dull seiliedig ar ddalgylch hefyd ran i'w chwarae o ran lliniaru'r dirywiad posibl cyn y gwneir newidiadau i drwyddedau.

5.4.2. Datblygu eich cyrchfan amgylcheddol hirdymor

Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor a gwytnwch amgylcheddol, dylech ddatblygu cyrchfan amgylcheddol hirdymor arfaethedig. Dylai eich cyrchfan

amgylcheddol ddisgrifio sut y byddwch yn cyflawni ac yn cynnal tynnu dŵr yn gynaliadwy hyd at 2050 (a thu hwnt), gan ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd a'r galw yn y dyfodol. Mae'r disgwyliad hwn yn ychwanegol at y rhai a ddisgrifir yn Adran 5.4.1. Dylai cwmnïau dŵr a grwpiau rhanbarthol ddefnyddio'r canllawiau canlynol i ddiffinio a chyfiawnhau'r gyrchfan amgylcheddol:

- Os ydych yn gwmni yn Lloegr neu'n effeithio ar Loegr, dylech gyfeirio at 'Cyrchfan amgylcheddol adnoddau dŵr hirdymor: Canllawiau ar gyfer grwpiau rhanbarthol a chwmnïau dŵr' gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'r ddogfen hon wedi'i darparu i grwpiau rhanbarthol a chwmnïau dŵr ac mae ar gael ar gais drwy gysylltu â'r manylion cyswllt a ddarperir yn Adran 1.
- Os ydych chi'n gwmni yng Nghymru neu'n effeithio ar Gymru, dylech gyfeirio at ddogfen Cyfoeth Naturiol Cymru 'Gosod cyrchfan amgylcheddol ar gyfer adnoddau dŵr: Gwella ecosystemau yng Nghymru'. Mae'r ddogfen hon wedi'i darparu i grwpiau rhanbarthol a chwmnïau dŵr ac mae ar gael ar gais drwy gysylltu â'r manylion cyswllt a ddarperir yn Adran 1.

Ar gyfer Lloegr, bydd grwpiau rhanbarthol yn nodi dalgylchoedd lle mae materion i fynd i'r afael â hwy. Bydd y cynllun rhanbarthol yn datblygu cyrchfan amgylcheddol hirdymor arfaethedig a'r camau i'w chyflawni. Wrth ddatblygu cyrchfan amgylcheddol tymor hir, dylai'r grŵp rhanbarthol, a'r cwmni dŵr lle bo hynny'n berthnasol, wneud y canlynol:

- bod yn uchelgeisiol
- darparu gwell amddiffyniad i'r amgylchedd, er mwyn cyflawni, a pharhau i gyflawni, amcanion amgylcheddol nawr ac yn y dyfodol
- peidio â chael eich cyfyngu gan benderfyniadau blaenorol, er y bydd angen i chi ddeall eu cyd-destun
- ystyried amser cyflawni eich gwelliannau amgylcheddol. Er enghraifft, sut bydd y rhaglen yn newid os bydd yr amserlen ar gyfer gweithredu yn cael ei haddasu. Dylech hefyd ystyried sut mae'ch rhaglenni'n effeithio ar yr amgylchedd ehangach (fel effaith carbon) a fforddiadwyedd i'ch cwsmeriaid
- cefnogi adfer natur a sicrhau tynnu dŵr yn gynaliadwy ar draws y cyfnod cynllunio
- dylech ystyried a all gweithredu dull cynllunio addasol reoli ansicrwydd hirdymor yn well

Yn Lloegr, dylech ddefnyddio'r gyrchfan amgylcheddol hirdymor ranbarthol fel sylfaen i'ch cyrchfan amgylcheddol hirdymor ar gyfer eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr. Efallai na fydd y gyrchfan amgylcheddol hirdymor ranbarthol yn mynd i'r afael â'r holl faterion sy'n ymwneud â thynnu dŵr sy'n gysylltiedig â'ch proses tynnu oherwydd natur strategol y cynllun rhanbarthol. Felly efallai y bydd angen i chi adeiladu ar y gyrchfan amgylcheddol hirdymor a nodir yn y cynllun rhanbarthol i fynd i'r afael â phryderon lleol yn eich ardal neu lle mae gwelliannau sy'n ofynnol yn ymwneud â'ch tyniadau dŵr yn unig.

Yng Nghymru, lle bo hynny'n berthnasol, dylech ddefnyddio'r gyrchfan amgylcheddol hirdymor ranbarthol fel sylfaen i'ch cyrchfan amgylcheddol tymor hir ar gyfer eich

Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr. Ar gyfer parthau adnoddau eraill nad yw cynllun rhanbarthol yn effeithio arnynt, dylech ystyried sut y gallech wella ecosystemau ynddynt a gosod cyrchfan amgylcheddol yn eich cynllun.

Dylech brofi cyrchfan amgylcheddol hirdymor arfaethedig eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr gyda rheoleiddwyr a chytuno ar newidiadau tynnu dŵr (os ydynt yn berthnasol) y bydd angen eu cynnwys mewn cynlluniau.

Bydd angen i chi ddefnyddio lefel briodol o dystiolaeth i gyfiawnhau'ch penderfyniadau a'ch lefel uchelgais. Dylai hyn gynnwys tystiolaeth o gefnogaeth gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid i'ch cyrchfan ac uchelgeisiau'r Cynllun Amgylchedd 25 mlynedd (Lloegr) neu'r Strategaeth Ddŵr i Gymru a'i hamcanion. Wrth wneud hynny, dylech gofleidio dull rheoli ar lefel y dalgylch, gan weithio gyda phrosesau naturiol i ddatblygu ffyrdd newydd o reoli dŵr, cefnogi adfer natur, a chyfrannu at gyfalaf naturiol lle bo hynny'n bosibl.

Dylech weithio gyda rheoleiddwyr a phartneriaid rhanbarthol a lleol eraill wrth ichi ddatblygu'ch cyrchfan amgylcheddol. Bydd gwneud hyn yn caniatáu ichi nodi'r ffyrdd gorau o reoli adnoddau dŵr dros yr hirdymor, gan sicrhau canlyniadau gwell a gwerthoedd gwell i'r gymdeithas gyfan.

Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi ac yn helpu i lunio'ch cyrchfan amgylcheddol trwy rannu gwybodaeth a gwybodaeth leol i'w bwydo i'ch trafodaethau wrth i chi ei datblygu.

Dylech nodi'n glir yn eich cynllun y newidiadau tynnu dŵr a'r newidiadau trwydded dilynol sydd eu hangen i gyrraedd eich cyrchfan amgylcheddol (lle bo hynny'n berthnasol). Dylai'r rhain gael eu cynnwys yn eich rhagolwg cyflenwad sylfaenol. Dylech hefyd nodi unrhyw ymchwiliadau a chamau gweithredu tymor byr, tymor canolig a hirdymor oni bai am y gostyngiadau tynnu dŵr yr ydych yn bwriadu eu cymryd i gyflawni eich cyrchfan amgylcheddol. Er enghraifft, yng Nghymru gall hyn gynnwys ymchwiliadau a chamau gweithredu ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chyflawni'r nodau llesiant.

Dylai eich cynllun ddangos bod y camau gweithredu arfaethedig hyn:

- yn gosteffeithiol ac yn fforddiadwy
- yn darparu gwelliant amgylcheddol cyffredinol
- yn darparu gwerth da i'r amgylchedd a'ch cwsmeriaid

5.5. Sut i gynnwys newidiadau i'ch trwyddedau tynnu dŵr yn eich cynllun

Dylech ymgorffori goblygiadau'r canlynol yn eich rhagolwg cyflenwad:-

- effaith unrhyw newidiadau cynaliadwyedd a gadarnhawyd ac sy'n debygol fel y nodir yn Adolygiad Cyfnodol 24 (PR24) Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol y Diwydiant Dŵr yn Lloegr a'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yng Nghymru, i'w gweithredu yng Nghynllun Rheoli Asedau 8 (AMP8). Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn hysbysu cwmnïau dŵr ac Ofwat yn ffurfiol am y newidiadau cynaliadwyedd a gadarnhawyd, sy'n debygol ac sydd heb eu cadarnhau sy'n ofynnol yn AMP8 i fodloni rhwymedigaethau amgylcheddol, trwy PR24 Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol y Diwydiant Dŵr a Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol Cymru
- effaith newidiadau trwydded eraill sy'n ofynnol yn ystod y cyfnod cynllunio fel y nodir yn eich cyrchfan amgylcheddol hirdymor, ac unrhyw ostyngiad o ganlyniad i'r allbwn y gellir ei ddefnyddio o newidiadau i drwyddedau tynnu dŵr yn y dyfodol

Dylech gyflwyno'r ddau fath hyn o ostyngiad cynaliadwyedd ar wahân yn eich tablau cynllunio adnoddau dŵr. Fodd bynnag, dylid cynnwys y ddau yn eich cynllun sylfaenol.

Ar gyfer pob gostyngiad cynaliadwyedd, dylech ddarparu'r canlynol:

- disgrifiad o'r newid sy'n cael ei wneud, gan gynnwys y newidiadau i drwyddedau a'r allbwn y gellir ei ddefnyddio
- amseriad y gostyngiad
- y lleoliad
- y rheswm dros y gostyngiad

Dylech drafod amserlenni priodol i weithredu'r newidiadau cynaliadwyedd hyn gydag Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn er mwyn sicrhau eich bod yn cyflawni cyflenwad o ddŵr effeithlon, cynaliadwy a diogel sy'n diogelu'r amgylchedd yn effeithiol. Dylech ystyried a chynllunio ar gyfer newidiadau parhaol i drwyddedau sydd eu hangen i fynd i'r afael ag unrhyw dynnu dŵr sy'n niweidiol iawn yn gynnar yn y cyfnod cynllunio. Os yw newidiadau mewn cynaliadwyedd yn golygu bod cyfansoddiad dŵr y ffynhonnell a/neu gyfansoddiad cyfuniad o ddŵr a gyflenwir i gwsmeriaid yn newid, dylech drafod gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed ar unwaith, cyn i newidiadau mewn cynaliadwyedd gael effaith.

Dylech hefyd ystyried senarios yn eich cynllun i ddangos effaith y canlynol:

- newidiadau cynaliadwyedd heb eu cadarnhau a allai fod yn ofynnol yn y tymor byr
- gwahanol lefelau o amcanion amgylcheddol hirdymor, gan gynnwys lefelau llymach o ddiogelwch i'r amgylchedd i gyflawni a chynnal tynnu dŵr yn gynaliadwy

Dylech ystyried a oes goblygiadau i integreidd eich parth adnoddau o ganlyniad i ostyngiadau cynaliadwyedd.

Ni ddylech gynnwys unrhyw ansicrwydd yn y targed ychwanegol wrth gefn ar gyfer newidiadau cynaliadwyedd yn eich cynllun. Gallwch ystyried unrhyw ansicrwydd trwy brofi senarios, a chynllunio a allai fod yn addasol.

Dylech asesu a fydd unrhyw gynnydd mewn llifau neu ddŵr daear o ostyngiadau cynaliadwyedd o fudd i dyniadau dŵr eraill – er enghraifft, cynyddu'r allbwn y gellir ei ddefnyddio o ffynhonnell i lawr yr afon – neu a allai gael effeithiau andwyol megis llifogydd. Dylech gysylltu â chwmnïau cyfagos lle bo hynny'n briodol.

5.6. Y newid yn yr hinsawdd

Mae ein hinsawdd wedi newid a bydd yn parhau i newid. Dylai eich cynllun asesu risg ac effaith bosibl newid yn yr hinsawdd a rhoi gwybod am y goblygiadau tebygol ar gyfer yr allbwn y gellir ei ddefnyddio o ffynonellau dŵr cyfredol ac yn y dyfodol.

Dylech ystyried y canfyddiadau a nodwyd yn [Amcanestyniadau wedi'u diweddarau o argaeledd dŵr yn y dyfodol ar gyfer trydydd asesiad risg newid yn yr hinsawdd y DU](#).

Wrth benderfynu ar y dull a ffefrir gennych, dylech ddefnyddio'r Canllawiau Atodol: Newid yn yr hinsawdd. Dylai cwmnïau dŵr yng Nghymru hefyd gyfeirio at yr 'Atodiad ar senarios Rhagolygon Hinsawdd y DU ar gyfer 2018 (UKCP18) i'w ddefnyddio yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 24 (Cymru)'.

Dylech drafod eich hoff ddull gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a/neu Cyfoeth Naturiol Cymru a grwpiau cynllunio rhanbarthol (os yw'n briodol) yn gynnar yn natblygiad eich cynllun. Dylech wneud hyn cyn i chi ddadansoddi effaith newid yn yr hinsawdd ar argaeledd dŵr. Dylai eich cynllun wneud y canlynol:

- nodi'n glir pa mor agored i newid yn yr hinsawdd yw pob parth adnoddau dŵr
- disgrifio'r risg a'r perygl i'ch ffynonellau a berir gan yr ystod o effeithiau newid yn yr hinsawdd
- nodi pam eich bod wedi dewis eich dull a'ch rhagdybiaethau wrth gyflwyno'r canlyniadau, gan gynnwys, os yw'n briodol, ddolenni i gynlluniau rhanbarthol
- esbonio pa ddull graddio rydych chi wedi'i ddefnyddio i roi ystyriaeth i unrhyw newid yn yr hinsawdd sydd eisoes wedi digwydd
- esbonio'n glir sut mae ansicrwydd newid yn yr hinsawdd wedi'i gynnwys yn y cynllun

5.7. Trosglwyddiadau dŵr

Dylech ddisgrifio'n glir eich holl fewnforion ac allforion dŵr crai ac yfadwy presennol, yn fewnol rhwng parthau adnoddau dŵr ac yn allanol rhyngoch chi a chwmnïau

cyfagos. Dylech gynnwys manylion yn adrannau perthnasol y tablau cynllunio adnoddau dŵr. Dylai'r cyfeintiau a'r amseriadau fod yn gyson rhwng eich cynllun ac unrhyw gwmnïau rhoi neu gwmnïau derbyn. Dylech ddarparu gwybodaeth am y canlynol:

- terfynau y cytunwyd arnynt rhwng cwmnïau cyflenwi a derbyn a sut rydych yn sicrhau adrodd cyson yn y cynlluniau perthnasol. Dylid disgrifio hyn ar gyfer gweithrediad arferol a'ch digwyddiad dylunio, h.y. ar gyfer Lloegr mewn sychder '1 mewn 500 mlynedd'
- cyfanswm y cyfaint sydd ar gael ar gyfer pob blwyddyn o'ch cynllun (ac eithrio unrhyw ddŵr na ellir ei drosglwyddo oherwydd cyfyngiadau gweithredol neu seilwaith)
- amrywiadau sy'n gysylltiedig â threfniadau contractiol neu drefniadau eraill megis gostyngiadau mewn trosglwyddiadau oherwydd sychder, ymateb i ddigwyddiadau gweithredol, neu gytundebau rhannu poen
- cyfeiriad y llif ac a yw'n mynd i un cyfeiriad neu ddau gyfeiriad
- (os yw'n drosglwyddiad newydd neu fwy, neu os yw ffynhonnell y dŵr yn newid) ansawdd cemegol y dŵr sy'n cael ei drosglwyddo a'r effeithiau ar ansawdd dŵr yr ardal dderbyn (hyd yn oed o fewn parth adnoddau dŵr)

5.8. Toriadau

Dylech gynnwys lwfans i wneud yn iawn am y risg o golli'r cyflenwad dros dro neu dros y tymor byr. Gelwir hyn yn eich lwfans toriadau. Dylai'r lwfans gynnwys toriadau heb eu trefnu a thoriadau a drefnir yn briodol fel y'u diffinnir yn y Canllawiau Atodol: Toriadau.

Wrth bennu'ch lwfans toriadau, dylech ddefnyddio'r canllawiau canlynol:

- [Lwfansau Toriadau ar gyfer Cynllunio Adnoddau Dŵr](#) UKWIR (1995)
- [Dulliau Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr 19 – Cynllunio ar Sail Risg](#) UKWIR (2016)
- Canllawiau Atodol Asiantaeth yr Amgylchedd (2020): Toriadau

Dylech ddisgrifio'r canlynol yn eich cynllun:

- sut y gwnaethoch chi ddewis eich dull toriadau
- sut y gwnaethoch chi amcangyfrif eich lwfans toriadau
- sensitifrwydd yr asesiad

Os ydych chi'n rhagolwg na fydd unrhyw doriadau, dylech esbonio'n glir sut y byddwch chi'n cyflawni hyn.

Dylech ystyried opsiynau i leihau eich toriadau, yn enwedig lle mae'ch lwfans toriadau yn cyfrannu at ddiffyg posibl yn y cyfnod cynllunio.

Dylech hefyd asesu a oes angen i chi wella eich gwaith coladu data, eich gwaith asesu, a'ch ffordd o amcangyfrif toriadau.

5.9. Colledion o brosesu a thrin

Disgwylir i chi weithredu'ch rhwydwaith yn effeithlon a dylech geisio lleihau colledion lle bo hynny'n bosibl. Er enghraifft, gallech ystyried opsiynau dalgylch i leihau colledion eich gwaith trin, wrth barhau i gydymffurfio â rheoliadau dŵr yfed. Dylech nodi'r mathau hyn o opsiynau yn eich rhestr opsiynau dichonol a'u gwerthuso trwy'ch penderfyniadau.

Dylech ddarparu'r gwerthoedd ar gyfer: colledion dŵr crai, defnydd gweithredol dŵr crai, colledion gwaith trin, a defnyddiau gweithredol gwaith trin yn eich cynllun. Dylai eich cynllun ystyried a allai eich gweithrediadau fod yn fwy effeithlon ac a ellid lleihau'r colledion hyn. Gallwch ystyried y cyfleoedd hyn fel opsiynau yn eich cynllun. Os na allwch amcangyfrif y rhain yn gywir, dylech geisio gosod mesuryddion yng nghilfachau gweithfeydd trin.

5.10. Y dŵr sydd ar gael i'w ddefnyddio

Yn eich cynllun, dylech nodi'n glir gyfanswm y dŵr sydd ar gael i'w ddefnyddio ym mhob parth adnoddau dŵr gan ystyried unrhyw newidiadau i'r allbwn y gellir ei ddefnyddio, trosglwyddiadau, defnydd gweithredol, a thoriadau.

5.11. Ardaloedd dŵr yfed gwarchodedig

Rhaid i chi ddangos sut y bydd eich cynllun yn cefnogi'r amcanion ar gyfer ardaloedd dŵr yfed gwarchodedig. Gall cefnogi'r amcanion hyn fod â buddion o gynnal neu gynyddu'r allbwn y gellir ei ddefnyddio. Dylai eich cynllun ystyried y canlynol:

- amddiffyn ardaloedd dŵr yfed gwarchodedig fel bod eich dŵr yfed wedi'i drin yn bodloni safonau Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2016 neu'r Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr)
- bod yr amddiffyniad angenrheidiol ar waith i atal dirywiad yn ansawdd y dŵr yn yr ardal warchodedig, gyda'r bwriad o leihau lefel y driniaeth sy'n ofynnol

Yn eich cynllun, dylech wneud y canlynol:

- disgrifio colledion gweithfeydd trin a defnydd gweithredol ym mhob parth adnoddau a dangos sut cafodd y rhain eu cyfrifo
- yn y broses cyn-ymgyngori, pan ofynnir gan reoleiddwyr, darparu diagramau a thystiolaeth ategol arall ar gyfer gwaith mawr a chymhleth

- ystyried opsiynau i leihau colledion lle mae diffyg balans rhwng y galw a'r cyflenwad neu lle mae'n gwneud synnwyr i wneud hynny
- ystyried opsiynau dalgylch i leihau'r broses drin wrth barhau i gydymffurfio â gofynion unrhyw reoliadau dŵr yfed
- ystyried mesurau i amddiffyn eich cyflenwad rhag risgiau llygredd hirdymor
- sicrhau bod yr holl ffynonellau dŵr daear a nodwyd yn eich cynllun a'ch cynllun sychder wedi amlinellu parthau amddiffyn ffynonellau a, lle bo hynny'n briodol, parthau diogelu. Gall Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru eich cefnogi chi i amlinellu'r parthau hyn
- sicrhau eich bod wedi bod yn gyson yn eich dull gweithredu ar draws eich holl barthau adnoddau dŵr

5.12. Ansawdd dŵr yfed

Mae'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer ansawdd dŵr yfed a digonolrwydd cyflenwadau wedi'i sefydlu yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991. Rhaid i chi sicrhau bod eich cynllun yn ystyried y canlynol:

- Adran 86, sy'n ymwneud â phenodi a phwerau dirprwyedig y Prif Arolygydd Dŵr Yfed. Mae'n cynnwys cyfeiriad at “... *pwerau a dyletswyddau eraill o'r fath mewn perthynas ag ansawdd a digonolrwydd y dŵr a gyflenwir ...*” Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bwerau a dyletswyddau sy'n ymwneud ag amddiffyn iechyd y cyhoedd, ac i gynllunio gwytnwch a chynllunio wrth gefn.
- Adran 68 o'r Ddeddf, y ddyletswydd i gyflenwi dŵr iachus.¹⁷ Mae'r adran hon yn nodi'r canlynol: “Bydd yn ddyletswydd ar ymgymwrwr dŵr ... i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, i sicrhau, mewn perthynas â phob ffynhonnell neu gyfuniad o ffynonellau y cyflenwir dŵr ohonynt, bod, yn gyffredinol, dim dirywiad yn ansawdd y dŵr a gyflenwir o bryd i'w gilydd o'r ffynhonnell honno neu'r cyfuniad hwnnw o ffynonellau.” ...”. Efallai y bydd gan y brif ddyletswydd hon oblygiadau o ran sut rydych chi'n datblygu'ch cynlluniau, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio gwytnwch a chynllunio wrth gefn.

Rhaid i chi adolygu'r dyletswyddau hyn pan fyddwch yn cynnwys unrhyw drosglwyddiadau dŵr i'w gyflenwi (crai neu wedi'i drin) neu wrth ddatblygu ffynonellau newydd. Rhoddir arweiniad pellach yn y nodyn canllaw: [Cynllunio tymor hir ar gyfer ansawdd cyflenwadau dŵr yfed – Adnoddau Dŵr a Digonolrwydd Cyflenwadau.](#)

5.13. Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol

¹⁷ Nodir y gofynion iachus yn Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2016 (fel y'u diwygiwyd) (yn Lloegr) a Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2018 (yng Nghymru), a diwygiadau cysylltiedig.

Yn 2023, mae llywodraethau Lloegr a Chymru yn bwriadu symud y drefn trwyddedu gweithgareddau tynnu a chronni dŵr i'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Bydd hyn yn sicrhau ei bod yn unol â'n cyfundrefnau trwyddedu eraill, ac yn arwain at fframwaith rheoleiddio mwy modern a chyson.

Ni ddisgwylir y bydd hyn yn effeithio ar drwyddedau cwmnïau dŵr. Fodd bynnag, os credwch y bydd yn effeithio arnoch, dylech drafod unrhyw bryderon gydag Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn Lloegr, mae ymgynghoriad ffurfiol ar y gweill ar gyfer gwanwyn 2021. Byddwch yn gallu rhoi adborth ar y dull arfaethedig. Mae mwy o wybodaeth am y symudiad i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ar [GOV.UK](https://www.gov.uk).

Yng Nghymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar symud trwyddedu gweithgareddau tynnu a chronni dŵr i'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Maent yn debygol o ymgynghori yn 2021, gan weithredu'r newidiadau arfaethedig yn 2023.

5.14. Rhywogaethau estron goresgynnol

Mae rhywogaethau estron goresgynnol dyfrol a thorlannol yn cael effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol niweidiol sylweddol. Gallant achosi i statws ecolegol cyrff dŵr y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr ddirywio neu iddynt fethu â chyflawni eu hamcanion ecolegol. Rhaid i chi adolygu a fydd eich gweithrediadau tynnu dŵr cyfredol a'ch datrysiadau yn y dyfodol yn creu'r risg o ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol neu'n creu llwybrau sy'n cynyddu'r risg o ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol. Lle mae'r risg yn uwch, mae'n rhaid i chi gynnig mesurau i reoli'r risg honno yn eich cynllun.

Efallai y bydd angen i chi gysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod y materion hyn fesul achos. I gael mwy o fanylion am rywogaethau estron goresgynnol a'u heffeithiau, ewch i [wefan yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron](#). Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi datblygu offeryn asesu risg ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol. Mae'r offeryn yn darparu dull cyson o asesu'r risgiau o ran rhywogaethau estron goresgynnol ar draws opsiynau cyflenwi dŵr, ac mae ar gael i'w ddefnyddio i asesu'r risgiau o ran rhywogaethau estron goresgynnol ar gyfer Opsiynau Adnoddau Strategol ac opsiynau eraill o safbwynt cynlluniau rheoli adnoddau dŵr.

Lloegr

Os ydych yn ystyried trosglwyddo dŵr crai rhwng dalgylchoedd yn Lloegr, dylech gyfeirio at y datganiad sefyllfa (Chwefror 2017). Mae'r datganiad yn nodi safbwynt Asiantaeth yr Amgylchedd o ran rheoli'r risg o ymledu rhywogaethau estron goresgynnol trwy drosglwyddiadau dŵr crai. Ategir y datganiad sefyllfa gan nodyn

cyfarwyddyd asesu risg byr a map sy'n nodi pa ddalgylchoedd sy'n cael eu hystyried yn ynysig.¹⁸

Os ydych chi'n cynnig cynllun newydd sy'n creu cysylltiad hydrolegol rhwng lleoliadau nad ydyn nhw eisoes wedi'u cysylltu, bydd gofyn i chi fod â mesurau lliniaru ar waith i sicrhau na all y trosglwyddiad newydd ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol. Os ydych chi'n cynnig cynllun newydd a fydd yn creu cysylltiad hydrolegol rhwng lleoliadau sydd â chysylltiad hydrolegol presennol, bydd angen i chi gynnal asesiad o'r risg uwch y mae eich cynllun yn ei beri.

Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn penderfynu a fydd angen mesurau lliniaru ar gyfer cynlluniau fesul achos er mwyn sicrhau nad ydynt yn cynyddu'r risg o drosglwyddo rhywogaethau estron goresgynnol yn sylweddol.

Cymru

Dylech gynnal asesiad o'r risg o ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol rhwng dalgylchoedd yng Nghymru, a thrafod hyn gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

¹⁸ Mae'r dogfennau a grybwyllir yn y paragraff hwn ar gael ar gais trwy gysylltu â'r manylion cyswllt a nodir yn Adran 1.

Adran 6 – Datblygu eich rhagolwg o'r galw

Dylai eich cynllun arddangos y galw am ddŵr yn ystod eich blwyddyn sylfaen, a'ch rhagolwg ar draws eich cyfnod cynllunio. Mae eich galw'n cynnwys yr holl ddŵr y bydd ei angen y tu hwnt i'r gweithfeydd trin dŵr. Mae felly'n cynnwys gollyngiadau o'ch pibellau cyflenwi, o bibellau cyflenwi cwsmeriaid, a'r swm o ddŵr a ddefnyddir gan y bobl a'r busnesau yr ydych yn eu cyflenwi.

Mae'r llywodraeth a rheoleiddwyr yn disgwyl y rheolir pob agwedd ar y galw am ddŵr, a bod y galw hwnnw'n cael ei leihau lle bo'n bosibl, gan gydnabod bod ymddygiad eich cwsmeriaid hefyd yn cael dylanwad ar eich galw.

Dylech adlewyrchu rhagolygon y cynlluniau rhanbarthol ar gyfer y cwsmeriaid a gyflenwir gennych, lle bo'n berthnasol. Dylech arddangos sut rydych wedi cydweithio ar lefel ranbarthol â chwmnïau dŵr cyfagos a thynwyr dŵr nad ydynt yn rhan o'r cyflenwad dŵr cyhoeddus, er mwyn llunio'ch rhagolygon. Dylech ddangos sut y gwnaethoch ddefnyddio'r wybodaeth a data gorau a oedd ar gael.

6.1. Sut i ddatblygu eich rhagolwg o'r galw

Dylech lunio cynllun sylfaenol a chynllun rhagolwg o'r galw terfynol ar gyfer eich cyfnod cynllunio yn ei gyfanrwydd. Dylai'r rhagolygon hyn gynnwys eich amcangyfrifon o'r galw sy'n deillio o'r canlynol:

- cwsmeriaid preswyl
- cwsmeriaid dibreswyl
- dŵr sy'n gollwng o'ch rhwydwaith o bibellau ac o bibellau eich cwsmeriaid
- unrhyw golledion eraill, neu ddefnyddiau eraill o ddŵr megis dŵr a gymerwyd na chafodd ei filio

Dylech ddefnyddio'r canllawiau canlynol i ddatblygu eich galw cyfartalog blynyddol a ragwelir mewn blwyddyn sych a'ch rhagolygon ar gyfer cyfnodau critigol:

- UKWIR (2016) [WRMP19 Methods – Household Consumption Forecasting](#)
- UKWIR (2016) [Population, Household Property and Occupancy Forecasting](#)
- UKWIR (2006) [Peak Water Demand Forecasting Methodology](#)

Dylech hefyd gyfeirio at adroddiadau perthnasol eraill megis:

- prosiect y diwydiant dŵr yn seiliedig ar ‘Water Demand Insights from 2018 (Artesia 2020)’
- yr adroddiad ymchwil cydweithredol “The impact of COVID-19 on water consumption during February to October 2020” (Artesia 2021)
- yr astudiaeth ar y cyd “ Understanding changes in domestic water consumption associated with COVID-19 in England and Wales” (Artesia 2020)

Wrth lunio'ch rhagolwg o'r galw, dylech ystyried unrhyw ddylanwadau perthnasol, gan gynnwys y canlynol:

- datblygiadau tai a newidiadau i'r boblogaeth, gan gynnwys newidiadau ym meddiant
- effaith galw mawr parhaus a'r straen y gall osod ar eich rhwydwaith
- newidiadau mewn ymddygiad o safbwynt defnyddio dŵr, a dosbarthiad y galw (o ran defnyddwyr preswyl a dibreswyl). Dylech ystyried effaith y coronafeirws ar eich galw, o ddechrau eich cyfnod cynllunio. Er enghraifft, o safbwynt patrymau gwaith newidiol a'r effaith y gallai hyn ei chael ar alw preswyl a dibreswyl. Dylech hefyd ystyried sut mae tywydd poeth yn cael effaith ar y defnydd o ddŵr gan eich cwsmeriaid, fel y cyfnodau o dywydd poeth iawn a brofwyd yn 2018 a 2020
- dulliau mesur a mesur clyfar
- newidiadau ym mholisi a disgwyliadau'r llywodraeth, er enghraifft safonau effeithlonrwydd dŵr mewn cartrefi newydd, a labelu dŵr
- newidiadau mewn arferion effeithlonrwydd dŵr ac arferion defnyddio dŵr yn gynaliadwy
- newidiadau yn y safonau dylunio ar gyfer dyfeisiau sy'n defnyddio dŵr, fel peiriannau golchi dillad mwy effeithlon
- newidiadau mewn technoleg ac arferion mewn perthynas â chanfod gollyngiadau a gwaith atgyweirio
- hinsawdd sy'n newid
- patrymau tywydd
- newidiadau posibl yn y galw gan y sector ynni wrth iddo symud tuag at dechnoleg carbon isel

Dylech arddangos a darparu cyfiawnhad clir o'r rhagdybiaethau a wnaed gennych yn eich cynllun.

6.2. Rhagolwg galw sylfaenol

Dylai eich rhagolwg galw sylfaenol gynnwys y canlynol:

- rhagolwg sylfaenol o'r galw cyfartalog blynyddol a ragwelir mewn blwyddyn sych – o 2025/26 ymlaen, dylai eich rhagolwg sylfaenol o'r galw gan gwsmeriaid ystyried y galw gan gwsmeriaid yn absenoldeb unrhyw fesurau effeithlonrwydd dŵr neu ymyrraeth fesur bellach gennych, rhagolygon o'r twf yn y boblogaeth, newidiadau ym maint aelwydydd, newidiadau yn swm yr eiddo, ac effaith y newid yn yr hinsawdd ar ymddygiad cwsmeriaid. O 2025/26 ymlaen, dylai'r ffigur gollyngiadau yn eich rhagolwg sylfaenol fod yn sefydlog, o ddechrau eich cynllun hyd at ddiwedd y cyfnod cynllunio. Os cynllunnir twf sylweddol mewn parth adnoddau, dylech drafod eich dull â rheoleiddwyr er mwyn cytuno arno
- rhagolwg sylfaenol ar gyfer cyfnod neu gyfnodau critigol (os yw'n berthnasol – gweler Adran 4.5)
- rhagolwg o'r galw mewn blwyddyn arferol. Yn y senario hon, dylech gynnwys y mewnbwn dosbarthiad, galw preswyl a dibreswyl, gollyngiadau, a ffigurau dŵr a ddefnyddir y pen. Dylech ddarparu'r wybodaeth hon ar gyfer pum mlynedd cyntaf eich cynllun (er mwyn alinio â chyfnod cynllunio'r busnes) ac yna fesul cyfnod o bum mlynedd hyd at ddiwedd eich cyfnod cynllunio. Dylech gyflwyno'r data ochr yn ochr â'ch rhagolwg ar gyfer blwyddyn sych fel y gellir gwneud cymhariaeth glir rhyngddynt. Bydd rheoleiddwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth ystyried eich cynllun ochr yn ochr â chyflwyniadau eich cynllun busnes a'ch adolygiadau blynyddol

Dylech roi disgrifiad clir o'r rhagdybiaethau a gwybodaeth ategol yr ydych wedi'u defnyddio i lunio'ch cynllun. Fe'ch anogir i drafod y rhain ag Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gynted â phosibl. Dylech wneud y canlynol, o leiaf:

- defnyddio canllaw [Consistency of Reporting Performance Measures](#) UKWIR a chanllaw [Reporting guidance – Leakage](#) Ofwat
- esbonio sut mae eich amcangyfrifon gorau presennol o'r galw wedi'u cysoni â rhannau eraill o falans y cyfenwad dŵr
- darparu rhagolygon o'r galw yn y dyfodol, disgrifio'r dull rydych wedi'i ddefnyddio, a dangos eich bod wedi deall yr hyn sy'n gyrru unrhyw newidiadau
- defnyddio galw anghyfyngedig ar gyfer y rhagolwg o'r galw cyfartalog blynyddol a ragwelir mewn blwyddyn sych wrth ddatblygu eich rhagolwg o'r galw. Os ydych o'r farn fod dull amgen yn briodol, dylech ei drafod â rheoleiddwyr er mwyn cytuno arno. Bydd angen o hyd i chi ddarparu rhagolwg o'r galw cyfartalog blynyddol a ragwelir mewn blwyddyn sych sy'n seiliedig ar alw anghyfyngedig
- nodi'n glir pa ddata a ddefnyddiwyd gennych fel sail eich rhagolygon. Dylai eich blwyddyn fod yn seiliedig ar eich data gwirioneddol, cyn belled ag y bo'n bosibl, a bod y data wedi'u haddasu ar gyfer blwyddyn sych, os yn briodol. Os bydd angen i chi allosod, dylech ddefnyddio'r data sydd fwyaf priodol yn eich

tyb chi, a chyfiawnhau eich rhesymau. Os oes gwahaniaeth sylweddol rhwng eich safbwynt o'i gymharu â rhagolygon eich cynllun blaenorol, dylech drafod eich dull â rheoleiddwyr er mwyn cytuno arno. Bydd rheoleiddwyr yn disgwyl i chi gyflawni eich ymrwymadau yn unol â Chynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr 2019.¹⁹ Os ydych yn defnyddio data cynllunio rhanbarthol, dylech sicrhau na fu unrhyw newidiadau sylweddol ers ei gynhyrchu. Os bu newidiadau, dylech ddiweddarau'ch cynllun yn briodol

- sicrhau bod eich rhagolygon wedi'u halinio, lle bo'n briodol, â chwmnïau cyfagos, grwpiau adnoddau dŵr rhanbarthol, a chynlluniau rhanbarthol, a'ch bod yn darparu cymhariaeth â rhagolygon eraill o'r galw, gan gynnwys y rhagolwg o'r boblogaeth a senarios a ddatblygir ar lefel ranbarthol, lle bo hynny'n berthnasol

Lloegr

Ar gyfer cwmnïau yn Lloegr, darparodd y Fframwaith Cenedlaethol wybodaeth am ofynion sectorau eraill, y bydd y grwpiau rhanbarthol wedi'i datblygu ymhellach. Mae cynlluniau rhanbarthol yn ystyried anghenion amlsector. Dylai eich cynllun ystyried galw rhanbarthol a galw amlsector pan fônt yn berthnasol i'ch balans rhwng galw a chyflenwad. Er enghraifft, o safbwynt cwsmeriaid rydych yn eu cyflenwi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu opsiynau rydych wrthi'n eu datblygu ar y cyd â sectorau eraill.

Cymru

Dylech ystyried anghenion amlsector lleol, a'u cynnwys yn eich balans rhwng galw a chyflenwad os ydych yn eu cyflenwi'n uniongyrchol. Wrth lunio'ch rhagolygon, dylech hefyd ystyried y cwsmeriaid hynny, megis rhai o'r sector amaethyddol, y mae'r gallu ganddynt i newid i'ch cyflenwad chi yn ystod y cyfnodau prysuraf.

Dylech ystyried y polisïau sydd ar waith gennych i gefnogi defnyddwyr dŵr eraill, nad ydynt wedi'u cysylltu â'ch systemau cyflenwi dŵr (er enghraifft, y bobl hynny â chyflenwadau dŵr preifat) mewn amgylchiadau lle bônt yn ceisio 'cyflenwadau dŵr amgen', fel yn ystod sychderau. Dylai hyn gynnwys eich gallu i gyflenwi defnyddwyr dŵr eraill.

Wrth lunio'ch polisïau, dylech ystyried p'un a ydynt yn gorgyffwrdd ag unrhyw waith a wneir gan y llywodraeth, rheoleiddwyr neu randdeiliaid eraill, er mwyn cael dealltwriaeth o unrhyw ddatrysiadau sy'n fanteisiol i bawb. Dylech drafod eich dull ar gyfer eich cynllun â Cyfoeth Naturiol Cymru.

Os oes gennych barthau adnoddau yn Lloegr, dylech ystyried unrhyw wybodaeth am ofynion sectorau eraill a ddarperir gan grwpiau rhanbarthol a'r Fframwaith Cenedlaethol.

6.3. Rhagolygon o'r boblogaeth, eiddo a meddiant

Lloegr

¹⁹ Dylid adlewyrchu'r ymrwymadau hyn yn y cynllun sylfaenol hyd at 2024/25. Y tu hwnt i hyn, dylech ragdybio gollyngiadau sefydlog. Fodd bynnag, dylai eich cynllun terfynol ragdybio y caiff ymrwymadau Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr 2019 eu cyflawni, neu yr eir y tu hwnt iddynt. Gweler Adran 9.3.1 am fanylion pellach am y disgwyliadau o ran lefel gollyngiadau eich cynllun terfynol.

Ni ddylai eich rhagolygon arfaethedig o eiddo a'r boblogaeth, a'r cyflenwad o ganlyniad iddynt, gyfyngu ar y twf a gynllunnir. Ar gyfer cwmnïau sy'n cyflenwi cwsmeriaid yn Lloegr, dylai eich ffigurau poblogaeth ac eiddo a ragolygir fod yn seiliedig ar gynlluniau lleol a gyhoeddir gan y cyngor lleol neu awdurdod unedol lleol. Bydd awdurdodau lleol wedi cyrraedd camau gwahanol o safbwynt cyhoeddi eu cynlluniau lleol. Gallwch ddod o hyd i'r rhestr ddiweddaraf o [gynlluniau lleol](#) ar GOV.UK.

Mae cynlluniau lleol yn debygol o gwmpasu degfed i bymthegfed flwyddyn gyntaf y cyfnod cynllunio. Bydd angen i chi wirio hyd cynlluniau, a'r terfyn amser a bennwyd i'r cyfnod llunio cynlluniau, gyda'ch cyngor lleol. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd angen i chi ddefnyddio'ch rhagolygon o eiddo eich hun.

Os yw eich cyngor lleol:

- yn meddu ar gynllun mabwysiedig, cyhoeddedig, na chaiff ei ddiwygio – dylech ystyried y rhagolwg o eiddo arfaethedig. Bydd angen i chi sicrhau nad yw eich rhagolwg o eiddo arfaethedig, a'r cyflenwad o ganlyniad iddo, yn cyfyngu ar y twf a gynllunnir gan gynghorau lleol a datblygiadau tai strategol. Os byddwch yn addasu'r rhagolwg o eiddo ac yn dewis nodi ffigur uwch neu is, bydd angen i chi gyfiawnhau pam rydych wedi dethol rhagolwg uwch, a chyflwyno tystiolaeth
- wedi cyhoeddi cynllun drafft, nad yw eto wedi'i fabwysiadu – dylech ei ystyried a'i ddefnyddio fel y sail i'ch rhagolwg. Dylech drafod â'ch cyngor lleol p'un a yw'n disgwyl gwneud newidiadau i'r rhagolwg ar gyfer y cynllun mabwysiedig
- heb ddechrau cynllun drafft neu gyhoeddi cynllun drafft – dylech ddefnyddio dulliau amgen, fel amcanestyniadau o aelwydydd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, neu wneud gwaith dadansoddol eich hun gan ddefnyddio methodolegau a amlinellir yn [adroddiad UKWIR \(2016\) o'r enw Population, Household Property and Occupancy Forecasting](#)

Lle bo'ch ardal yn cynnwys datblygiadau tai strategol, a datblygiadau twf sylweddol, fel yr OxCam Arc neu Gymunedau Gardd, dylech gynnwys amcangyfrif o'r twf arfaethedig yn y cynllun sylfaenol. Dylech gysylltu â'r awdurdodau lleol perthnasol er mwyn cael gafael ar ddata am ffigurau poblogaeth ac eiddo arfaethedig.

Lle bo'n berthnasol, dylech hefyd weithio gyda'ch grwpiau adnoddau dŵr lleol i asesu a phrofi effeithiau'r datblygiadau a senarios posibl hyn ar eich cynlluniau. Dylech ystyried yr ansicrwydd ynghylch y rhagolygon hyn wrth lunio senarios. Gallai fod yn ddefnyddiol llunio cynllun ymaddasol er mwyn rheoli ansicrwydd sylweddol.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yn Lloegr bellach ddefnyddio cyfrifiadau o anghenion tai lleol i lywio'u cynlluniau lleol wrth iddynt gael eu diwygio a'u diweddarau. Gall yr asesiad hwn ddangos y gallai nifer yr adeiladau fod yn uwch neu'n is na'r rhagolygon a nodir mewn cynlluniau lleol cyfredol sydd wedi'u mabwysiadu. Os oes gwahaniaeth sylweddol rhwng ffigurau'r cynllun lleol a ffigurau'r

anghenion tai lleol, dylech gysylltu â'r awdurdod perthnasol er mwyn trafod goblygiadau hyn i gynlluniau yn y dyfodol.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn cyhoeddi [amcanestyniadau poblogaeth](#) ac [amcanestyniadau o aelwydydd](#). Mae amcanestyniadau poblogaeth yn darparu arwydd o strwythur y boblogaeth yn y dyfodol o safbwynt ei hoedran a'i maint, yn seiliedig ar amcangyfrifon o'r boblogaeth hanner ffordd drwy'r flwyddyn a chyfres o ragdybiaethau o ran ffrwythlondeb, marwolaeth a mudo yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod cyfyngiadau ynghlwm wrth yr amcanestyniadau hyn gan eu bod yn seiliedig ar dueddiadau diweddar mewn data y gall sefyllfaoedd economaidd, gwleidyddol a naturiol gael dylanwad arnynt. Felly mae'n briodol profi effaith senarios amgen ar gyfer poblogaeth a thwf aelwydydd ar eich cynllun. Efallai y byddwch am ystyried llunio cynllun ymaddasol lle gwelir gwahaniaeth sylweddol mewn amcanestyniadau, yn enwedig lle gallai hyn gael effaith ar eich penderfyniadau buddsoddi yn ystod hanner cyntaf eich cynllun. Dylech sicrhau nad yw eich cynllun yn arwain at orfuddsoddi na'i fod yn cyfyngu ar dwf a gynllunnir.

Dylech amlinellu sut rydych wedi datblygu a defnyddio senarios amgen yn eich cynllun, a'r effaith y maent wedi'u cael ar eich cynllun.

Dylech weithio gyda grwpiau rhanbarthol a chwmnïau cyfagos er mwyn sicrhau eich bod yn datblygu senarios cynllunio cyson, lle bo'n berthnasol. Mae hyn yn cynnwys grwpiau rhanbarthol cyfagos i'ch un chi.

Cymru

Ar gyfer cwmnïau sy'n cyflenwi cwsmeriaid yng Nghymru, bydd angen sicrhau bod eich ffigurau poblogaeth ac eiddo a ragolygir yn seiliedig ar amcanestyniadau diweddaraf yr awdurdodau lleol ar gyfer y boblogaeth ac eiddo a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r amcanestyniadau'n seiliedig ar dueddiadau, ac maent yn defnyddio amcangyfrifon o'r boblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Bydd angen i chi egluro'r dulliau rydych wedi'u dilyn i ragfynegi'r ffigurau poblogaeth ac eiddo y tu hwnt i'r cyfnod a gwmpesir gan yr amcanestyniadau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Gallwch ddod o hyd i amcanestyniadau poblogaeth ac eiddo diweddaraf yr awdurdodau lleol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru drwy ddilyn y dolenni canlynol:

- [amcanestyniadau poblogaeth](#)
- [amcanestyniadau o aelwydydd](#)

Wrth ystyried poblogaeth amcanestynedig Cymru yn ei chyfanrwydd, dylid defnyddio'r [amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol](#) ar gyfer Cymru a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn hytrach nag adio amcanestyniadau poblogaeth yr awdurdodau lleol i fyny. Dylech hefyd ymgysylltu â'r awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru er mwyn ystyried y cynlluniau datblygu lleol yn eich ardal gyflenwi fel eu bod yn llywio'ch dadansoddiad o'r ansicrwydd yn eich ffigurau poblogaeth ac eiddo a ragolygir.

Cymru a Lloegr

Yn eich cynllun, dylech wneud y canlynol:

- disgrifio'n glir y rhagdybiaethau a'r wybodaeth ategol a ddefnyddiwyd i ddatblygu rhagolygon o'r boblogaeth, eiddo a meddiant. Dylech arddangos sut rydych wedi ymgorffori gwybodaeth gan awdurdodau lleol (yn enwedig mewn perthynas â'u cynlluniau mabwysiedig a chyhoeddedig), cynlluniau cymdogaeth, a'r angen o ran tai yn Lloegr
- egluro'r dulliau a ddefnyddiwyd gennych i ragweld ffigurau eiddo y tu hwnt i'r cyfnod cynllunio a ddefnyddir gan gynghorau lleol (er enghraifft, o flwyddyn 15 hyd at flwyddyn 25 yn y cyfnod cynllunio)
- arddangos sut rydych wedi cynnwys ffynonellau gwybodaeth eraill ac wedi addasu eich rhagolwg yn briodol
- rhoi disgrifiad clir o unrhyw gyfyngiadau yn eich rhagolygon
- arddangos eich bod yn deall yr ansicrwydd sydd ynghlwm wrth eich rhagolygon a sut y byddwch yn ei reoli
- disgrifio'n glir sut rydych wedi gweithio gyda grwpiau rhanbarthol (lle bo'n berthnasol), cwmnïau cyfagos, a'r bobl hynny sydd ynghlwm wrth ddatrysiadau adnoddau dŵr strategol er mwyn alinio'ch rhagolygon
- egluro'r rhagdybiaethau sy'n ymwneud â sut rydych wedi cyrraedd ffigurau poblogaeth nad oes cyfrif ohonynt yn y ffynonellau a ddefnyddiwyd gennych i amcangyfrif poblogaeth
- disgrifio sut rydych wedi dyrannu poblogaethau i barthau adnoddau dŵr, megis trwy ddefnyddio cynlluniau cymdogaeth neu ddata'r Cyfrifiad i ymrannu'r poblogaethau ymhellach
- os yw ar gael, defnyddio data am boblogaeth ac aelwydydd sydd wedi'i wella a'i ddiweddarau i lunio'ch Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr terfynol, a chynnwys disgrifiad o sut y byddwch yn gwneud hyn yn eich cynllun drafft. Dylai hyn fod yn gyson â'r hyn a ddefnyddiwyd yn eich cynllun busnes
- egluro'r rhagdybiaethau, y risgiau a'r ansicrwydd sydd ynghlwm wrth y canlyniadau

Os ydych yn defnyddio cyfnod cynllunio sy'n hwy na 25 mlynedd, a bod eich penderfyniadau'n seiliedig ar y rhagolwg hwn, dylech egluro'r ystod o ansicrwydd a fydd yn perthyn i'r rhagolwg hirdymor hwn. Dylech egluro yn eich cynllun sut fyddwch yn rheoli'r ansicrwydd hwn.

6.4. Rhagweld galw eich cwsmeriaid am ddŵr

Dylech ddewis dulliau rhagweld galw sylfaenol sy'n briodol i'r data sydd ar gael, ac i'r sefyllfa rhwng galw a chyflenwad mewn parthau adnoddau dŵr unigol. Dylech ystyried y dull o nodweddu problemau a ddisgrifir yn [adroddiad UKWIR o'r enw Decision Making Process Guidance](#). Dylech ddatblygu eich rhagolygon ar y cyd â chwmnïau cyfagos a, lle bo'n berthnasol, â'ch grŵp rhanbarthol. Bydd gwneud hyn yn sicrhau eich bod yn deall ac yn gallu esbonio unrhyw wahaniaethau mewn galw, a defnyddio patrymau fel ffigurau dŵr a ddefnyddir y pen. Dylai eich rhagolygon hefyd adlewyrchu'r gwelliannau yn eich dealltwriaeth o'r dŵr a ddefnyddir, o ganlyniad i raglenni mesur a gwaith ymchwil diweddar.

Dylech lunio senario rhagolwg o'r galw cyfartalog blynyddol a ragwelir mewn blwyddyn sych, senario ar gyfer blwyddyn arferol, a senario ar gyfer cyfnod neu gyfnodau (os oes angen) critigol. Dylech gyflwyno'r data hwn yn y tablau cynllunio adnoddau dŵr cyfatebol ar lefel parth adnoddau, a chynnwys dadansoddiad manylach i ficro-gyfansoddion ar lefel cwmni. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut i wneud hyn yn y cyfarwyddiadau ar gyfer y tablau cynllunio adnoddau dŵr.

Dylai eich cynllun ddangos eich ffigurau dŵr a ddefnyddir y pen mewn blwyddyn arferol ar gyfer pum mlynedd cyntaf eich cynllun (er mwyn alinio â'r cyfnod cynllunio busnes a'r cyfnod adolygu prisiau) ac yna fesul cyfnod o bum mlynedd hyd at ddiwedd y cyfnod cynllunio. Dylech gyflwyno'r data ochr yn ochr â'ch rhagolwg ar gyfer blwyddyn sych fel y gellir gwneud cymhariaeth glir rhyngddynt.

Dylai eich rhagolwg o'r galw gynnwys eich amcangyfrifon o unrhyw newid mewn ymddygiad o safbwynt defnyddio dŵr, a dosbarthiad y galw, yn ystod y cyfnod cynllunio o ganlyniad i'r coronafeirws. Er enghraifft, rhai sy'n deillio o batrymau gwaith newidiol. Gan ystyried yr ansicrwydd sydd ynghlwm wrth yr amcangyfrifon hyn, efallai y byddech am archwilio senarios gwahanol yn eich cynllun.

6.4.1. Data a methodolegau

Dylech gasglu data diweddar ac o ansawdd da am y defnydd o ddŵr gan eich cwsmeriaid er mwyn llunio'ch rhagolwg galw sylfaenol. Er mwyn helpu i bennu rhagolygon yn y dyfodol, dylech sicrhau eich bod yn deall ymddygiadau ac ymagweddau cyfredol o ran defnyddio dŵr, ac adrodd hyn drwy ddefnyddio micro-gyfansoddion yn y tablau cynllunio adnoddau dŵr. Dylech ddarparu micro-gyfansoddion ar lefel cwmni, oni bai eich bod yn ymwybodol o wahaniaethau sylweddol rhwng eich parthau adnoddau y byddai, yn yr achos hwnnw, yn ei gwneud h'n briodol llunio adroddiadau ar wahân ar eu cyfer.

Ceir arweiniad ar lunio rhagolwg o'r galw yma:

- UKWIR (2016) [WRMP19 Methods – Household Consumption Forecasting](#)
- UKWIR (2016) [WRMP 2019 Methods – Risk Based Planning](#)
- UKWIR (2016) [Integration of Behavioural Change into Demand Forecasting and Water Efficiency Practices](#)

- UKWIR (2012) [Customer Behaviour and Water Use – A Good Practice Manual and Roadmap for Household Consumption Forecasting](#)

Dylech nodi'r canlynol: pam rydych wedi dewis dull penodol, y rhagdybiaethau a wnaed gennych, a'r ansicrwydd sydd ynghlwm wrth eich rhagolygon o'r galw. Dylech hefyd ddangos eich bod wedi ystyried yr ansicrwydd yn eich cynllun.

Dylai eich rhagolwg o'r galw ystyried yr effeithiau yn sgil cyfnodau hir o dywydd sych a sychderau, a'r galw uchel canlynol lle bo'n cael effaith ar y balans rhwng galw a chyflenwad. Dylech ystyried p'un a oes dulliau amgen o ddiffinio'r galw mewn blwyddyn sych. Dylech wneud hyn mewn ffordd sy'n ystyried eich sefyllfa benodol a'r gwersi a ddysgwyd o'r galw uchel a brofwyd yn ystod y cyfnod diweddar o dywydd poeth a sych.

Dylai eich cynllun hefyd ystyried canlyniadau prosiect y diwydiant dŵr ar fewnwelediadau i'r galw am ddŵr o 2018 ymlaen (Artesia, 2020). Dylech ystyried, er enghraifft, sut y gallai cyfnod hir o dywydd sych gael effaith ar alw eich cwsmeriaid, a ph'un a yw eich senario cynllunio'n rhoi sylw digonol i'r brigau yn y galw a brofwyd gennych, yn y tymor byr a'r hirdymor, a'r effaith ar eich rhwydweithiau.

Os yw eich cynllun yn cynnwys cyfnod critigol o alw uchel, dylid sicrhau ei fod wedi'i lywio gan frigau yn y galw dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys 2018 a 2020. Dylai gynnwys y canlynol: galw sy'n ddibynnol ar dywydd, newidiadau tymhorol yn y boblogaeth, a ffactorau eraill fel y bo'n briodol. Gallech ystyried y canlynol hefyd:

- yr effeithiau cyfunol y caiff tywydd sych a'r coronafeirws ar alw, gan gynnwys dosbarthiad y brig, a'i hyd
- p'un a allai'r galw uchel fod o ganlyniad i ryw fath arall o dywydd eithafol, fel digwyddiad rhewi-dadmer sylweddol

Mae'n bwysig eich bod yn gallu cynnal y cyflenwad yn ystod brigau mewn galw, heb orfod tyngu dŵr o'r tu hwnt i amodau a thelerau eich trwyddedau.

6.4.2. Rhagolwg o'r galw gan gwsmeriaid yn y flwyddyn sylfaen

Dylech nodi'n glir pa ddata a ddefnyddiwyd gennych fel sail i'ch rhagolygon, a ph'un a ydych wedi defnyddio data gwirioneddol a adroddwyd, neu eich safbwynt arfaethedig fel yr amlinellwyd yn eich cynllun yn 2019. Dylai eich blwyddyn sylfaen fod yn seiliedig ar eich data gwirioneddol cyn belled ag y bo hynny'n bosibl, a'i fod wedi'i addasu ar gyfer blwyddyn sych lle bo'n briodol. Os bydd angen i chi allosod, dylech ddefnyddio'r data sydd fwyaf priodol yn eich tyb chi, a chyfiawnhau eich rhesymau. Er enghraifft, ystyried effeithiau'r coronafeirws a'r tywydd sych yn ystod 2020.

Os ydych yn defnyddio data cynllunio rhanbarthol, dylech sicrhau na fu unrhyw newidiadau sylweddol ers llunio'r rhagolygon. Os bu newidiadau, dylech ddiweddarau'ch cynllun yn briodol.

Os oes gwahaniaeth sylweddol rhwng eich safbwynt o'i gymharu â'ch rhagolwg cynllun blaenorol, dylech drafod eich dull â rheoleiddwyr er mwyn cytuno arno. Mae rheoleiddwyr yn disgwyl i chi gyflawni ymrwymadau blaenorol eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr. Os yw eich dull o gyfrifo'r ffigurau ar gyfer eich blwyddyn sylfaen, a'ch rhagolwg o'r dŵr a ddefnyddir y pen, yn arwain at ansicrwydd sylweddol, neu'n arwain at newid ffigurau eich blwyddyn sylfaen, neu amcanestyniadau o'r defnydd o'u cymharu â'ch cynllun blaenorol, y gellid fod wedi'u hachosi gan effeithiau'r coronafeirws, dylech wneud y canlynol:

- asesu'r effeithiau ar y balans dŵr (fel defnydd preswyl a dibreswyl)
- disgrifio pa effaith mae hyn yn ei chael ar opsiynau rydych wedi'u hystyried yn eich cynllun, ac ystyried profi senarios neu lunio cynllun ymaddasol (gweler Adran 10)
- egluro'r rhesymau dros y newid
- egluro unrhyw ansicrwydd yn lefelau defnydd y pen
- disgrifio pa effaith y mae hyn yn ei chael ar eich gallu i gyflawni unrhyw ragdybiaethau cynllunio perthnasol yn y Fframwaith Cenedlaethol a'r cynlluniau rhanbarthol, ynghyd â dyheadau'r llywodraeth i leihau defnydd y pen dros y cyfnod cynllunio
- os yw ar gael, defnyddio data am ddefnydd y pen sydd wedi'i wella a'i ddiweddarau i lunio'ch Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr terfynol, a chynnwys disgrifiad o sut y byddwch yn gwneud hyn yn eich cynllun drafft. Dylai hyn fod yn gyson â'r hyn a ddefnyddiwyd yn eich cynllun busnes (PR24)
- amlinellu sut y byddwch yn adolygu'ch rhagolygon yn ystod y cyfnod cynllunio er mwyn monitro unrhyw newidiadau tymor byr neu hirdymor, a'r effaith y gallai'r rhain ei chael ar eich cynllun

6.4.3. Rhagolwg o'r galw gan gwsmeriaid yn y cynllun sylfaenol

Dylai eich rhagolwg sylfaenol adlewyrchu eich rhagolwg o'r dŵr a ddefnyddir gan gwsmeriaid yn absenoldeb unrhyw fesurau effeithlonrwydd dŵr neu ymyrraeth fesur bellach gennych, o ddechrau'r cyfnod cynllunio. Dylai eich cynllun sylfaenol o hyd gynnwys asesiad o sawl un o'ch cwsmeriaid fydd yn dewis cael mesurydd, heb unrhyw anogaeth gennych chi.

6.5. Rhagweld eich defnydd dibreswyl

Dylech lunio rhagolwg o'ch galw dibreswyl. Dyma'r galw am ddŵr a ddefnyddir mewn adeiladau dibreswyl (fel adeiladau busnes ac unedau diwydiannol) ac a ddefnyddir gan bobl sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol (er enghraifft, ysbytai, carchardai, a sefydliadau addysgol).

Dylai eich rhagolygon o ddefnydd dibreswyl fod yn seiliedig ar ddefnydd pennaf. Dylai hyn fod yn unol â chanllawiau Ofwat fel a ganlyn:

- [canllaw cymhwysedd](#) ar p'un a yw cwsmeriaid dibreswyl yng Nghymru a Lloegr yn gymwys ar gyfer newid eu manwerthwr
- [canllaw ategol <http://www.ofwat.gov.uk/wp-content/uploads/2016/03/pap_gud201607suppretaileligibility.pdf>](http://www.ofwat.gov.uk/wp-content/uploads/2016/03/pap_gud201607suppretaileligibility.pdf) ar asesu p'un a yw cwsmeriaid dibreswyl yng Nghymru a Lloegr yn gymwys ar gyfer newid eu manwerthwr gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff <<http://www.ofwat.gov.uk/consultation/consultation-supplementary-guidance-assessing-whether-non-household-customers-england-wales-eligible-switch-water-wastewater-retailer/>>

Dylech egluro a yw dilyn canllawiau Ofwat yn arwain at newid sylweddol yn eich amcanestyniadau o ddefnydd dŵr preswyl neu ddibreswyl, mewn perthynas â chynlluniau blaenorol.

Dylech hefyd weithio gyda chwsmeriaid dibreswyl i wella effeithlonrwydd dŵr lle rydych o'r farn y gellir gwneud arbedion. Fodd bynnag, eich rôl chi yw ymgysylltu â'r manwerthwr, a rôl y manwerthwr yw hi i ymgysylltu â'i gwsmeriaid. Os gwneir unrhyw waith ymgysylltu â chwsmeriaid dibreswyl, dylid gwneud hynny â chytundeb y manwerthwr(wyr) er mwyn osgoi dryswch. Dylech ymgysylltu â'r manwerthwr yn gynnar yn y broses.

Yng Nghymru, dylech ymgysylltu â manwerthwyr mewn perthynas â'r cwsmeriaid dibreswyl hynny sy'n gymwys o dan awdurdodiad manwerthu cyfyngedig.

Dylech ddarparu tystiolaeth o'ch ymgysylltiad â manwerthwyr yn eich cynllun. Dylech hefyd egluro goblygiadau eich camau rheoli sychder dewisol (fel gwaharddiadau ar ddefnydd dianghenraid) i'ch cwsmeriaid dibreswyl.

Dylai eich rhagolygon adlewyrchu allbynnau cynlluniau rhanbarthol (os yn briodol) ar gyfer y cwsmeriaid a gyflenwir gennych.

Dylai eich rhagolygon gynnwys asesiad o'r galw am ddŵr gan gwsmeriaid newydd sy'n newid i gyflenwadau dŵr cyhoeddus oddi wrth ffynonellau eraill o dynnu dŵr, fel cwsmeriaid o'r sector amaethyddol yn ystod sychder sylweddol. Gellir cynnwys y lwfans hwn ar ben eich galw cyfartalog blynyddol a ragwelir mewn blwyddyn sych ar gyfer cwsmeriaid dibreswyl. Dylech ei chynnwys fel llinell ar wahân yn y tablau cynllunio adnoddau dŵr er mwyn ei gwahaniaethu o'r rhagolwg ar gyfer blwyddyn sych.

Dylech hefyd ystyried p'un a geid unrhyw oblygiadau yn sgil methiant yng nghyflenwadau dŵr preifat, a galwad arnoch felly fel cyflenwr opsiwn olaf. Os felly, gallech ystyried cynnwys lwfans ar gyfer y galw hwn yn eich ffigur ar gyfer y galw dibreswyl. Os gwnewch chi hyn, dylech egluro sut rydych wedi asesu'r galw hwn, a'r dystiolaeth yr ydych wedi'i defnyddio.

Lloegr

Ar gyfer cwmnïau yn Lloegr, dosbarthwyd [llythyr gan reoleiddwyr ar y cyd](#) i fanwerthwyr a chyfanwerthwyr ym mis Mawrth 2020. Mae'n amlinellu'r hyn y dylech chi a manwerthwyr fod yn ei wneud i gyflawni eich rhwymedigaethau effeithlonrwydd dŵr.²⁰ Gofynnodd y llythyr hwn i fanwerthwyr a chyfanwerthwyr gyflwyno cynllun gweithredu ar y cyd erbyn mis Medi 2020 yn amlinellu'r camau gweithredu y bydd angen i fanwerthwyr a chyfanwerthwyr eu cyflawni er mwyn cynyddu effeithlonrwydd dŵr. Mae'r cynllun gweithredu'n cynnwys pum prif gam allweddol, a champau ategol, â'r nod o nodi, a mynd i'r afael â, rhwystrau i welliannau mewn effeithlonrwydd dŵr yn y sector, ynghyd ag amserlen ar gyfer cyflawni cynnydd. Mae hyn yn cynnwys mesurau i ddeall galw dibreswyl a'r posibilrwydd o sicrhau effeithlonrwydd dŵr.

Rydym yn argymhell eich bod yn cyfeirio at y ddogfen 'Supplementary guidance on retailer involvement in water resources planning', a'i defnyddio, a gynhyrchwyd gan yr is-grŵp effeithlonrwydd dŵr manwerthu a chyfanwerthu i hybu'r cydweithio â manwerthwyr ar gynhyrchu eich cynllun rheoli adnoddau dŵr.

6.5.1. Manwerthwyr

Yn Lloegr, mae pob cwsmer busnes, pob cwsmer yn y sector cyhoeddus, a phob sefydliad elusennol neu nid-er-elw cymwys yn gallu newid ei gyflenwr dŵr (manwerthwr).

Yng Nghymru, dim ond cwsmeriaid dibreswyl sy'n bodloni'r trothwy gofynnol o 50 megalitr y flwyddyn sy'n gallu dewis cyflenwr gwasanaethau manwerthu dŵr gwahanol. Mae cwsmeriaid dibreswyl â galw islaw'r trothwy hwn yn gwsmeriaid uniongyrchol o'r cwmni dŵr presennol.

Rydych chi (y cyflenwr neu gyfanwerthwr dŵr presennol) yn dal i fod yn gyfrifol am gyflenwi'r dŵr i'r cwsmer, a dylech barhau i gynllunio ar gyfer galw gan gwsmeriaid dibreswyl yn eich ardal. Dylech sicrhau na cheir achosion o gyfrif ddwywaith yn eich cynllun, rhwng y rhagolwg hwn ac unrhyw gyflenwad i fanwerthwr neu gyfanwerthwr presennol. Mae'r ddyletswydd gyffredinol i hybu defnyddio dŵr yn effeithlon o dan Adran 93A o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 yn berthnasol i'r cyfanwerthwr a'r manwerthwr.

Pan fyddwch yn llunio'ch cynllun, gallwch gydweithio'n agos ag unrhyw fanwerthwr perthnasol drwy weithgor manwerthwyr cenedlaethol a chyfanwerthwyr Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr 2024, a gaiff ei sefydlu fel rhan o'r cynllun gweithredu ar y cyd. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i fanwerthwyr ddarparu gwybodaeth a data mewn modd amserol wrth i chi baratoi neu adolygu eich cynllun. Dylech barhau i weithio gyda'r manwerthwyr, gan gynnwys trwy'r broses o gwblhau'r cynllun gweithredu, er mwyn sicrhau y caiff mesurau effeithlonrwydd dŵr a mesurau rheoli galw eu hyrwyddo i bob cwsmer. Dylech amlinellu manylion y gwaith ar y cyd arfaethedig hwn yn eich cynllun fel adran ar ei phen ei hun.

²⁰ Ar gael ar gais drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir yn Adran 1.

6.5.2. Gwybodaeth y dylech ei darparu yn eich cynllun

Dylech weithio gyda manwerthwyr a thrwy grwpiau rhanbarthol (lle bo'n berthnasol) er mwyn rhannu gwybodaeth, data ac arbenigedd priodol er mwyn sicrhau bod eich rhagolygon a'ch datrysiadau'n rhai cadarn. Dylech hefyd sicrhau'r canlynol:

- bod eich cynllun yn cynnwys rhagolwg o'r galw dibreswyl
- eich bod yn disgrifio sut rydych wedi cyrraedd eich ffigurau a'r rhagdybiaethau a wnaed gennych
- eich bod yn defnyddio'r system MOSL,²¹ yn ôl yr angen, sy'n storio data am gwmnïau manwerthu
- eich bod yn disgrifio cydrannau'r galw dibreswyl mewn sectorau gwahanol, naill ai trwy ddefnyddio'r rhaniad rhwng yr hyn sy'n ymwneud â gwasanaethau neu beidio (gan nodi'r prif sectorau), neu drwy ddefnyddio categorïau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae MOSL wrthi'n gweithio gyda phartïon masnachol dibreswyl i lunio cynllun ar gyfer segmentu'r diwydiant dibreswyl ar sail categorïau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol, er i lefel isadran. Dylech ei ddefnyddio pan fydd ar gael
- eich bod yn egluro'n glir y mentrau effeithlonrwydd dŵr sydd eisoes wedi'u cynllunio gan y cyfanwerthwr a'r manwerthwr(wyr). Dylai eich cynllun sylfaenol adlewyrchu galw dibreswyl yn absenoldeb unrhyw ymyrraeth bellach. Dylai eich senario cynllunio derfynol gynnwys unrhyw arbedion a ragolygir o ganlyniad i raglenni effeithlonrwydd dŵr
- eich bod yn ystyried effeithlonrwydd dŵr dibreswyl fel opsiwn ar gyfer rheoli'r balans rhwng galw a chyflenwad, ac er mwyn cyflawni polisi, neu dargedau'r llywodraeth o safbwynt y dŵr a ddefnyddir
- eich bod yn ystyried unrhyw ansicrwydd sy'n gysylltiedig â lleihau galw, ac yn dangos sut y byddwch yn monitro'r rhaglen effeithlonrwydd dŵr a sut y gellir addasu'r cynllun os yw'n ofynnol
- eich bod wedi cydweithio ar lefel ranbarthol, ac wedi ymgysylltu â thynwyr dŵr nad ydynt yn rhan o'r cyflenwad dŵr cyhoeddus, neu sefydliadau perthnasol, er mwyn llunio'ch rhagolygon
- bod y lefel gwasanaeth arfaethedig a ddarperir i gwsmeriaid yn eglur, a'ch bod yn amlinellu a fyddwch yn darparu lefel wahanol o wasanaeth i gwsmeriaid dibreswyl penodol

²¹ MOSL yw gweithredwr y farchnad ar gyfer y farchnad ddŵr ddibreswyl

- eich bod wedi ystyried y galw posibl ar gyfer ffynonellau eraill, fel o du'r sector amaethyddiaeth, a'r bobl hynny â chyflenwad dŵr preifat, yn ystod sychder sylweddol
- eich bod yn cyflawni'r camau gweithredu perthnasol yng nghynllun gweithredu'r cyfanwerthwyr/manwerthwyr

6.6. Rhagweld gollyngiadau

Mae lleihau gollyngiadau'n rhan hanfodol bwysig o leihau'r galw am ddŵr. Yn anad dim oherwydd bod llawer o gwsmeriaid yn fwy ymatebol i'r syniad o leihau'r swm o ddŵr y maent yn ei ddefnyddio eu hunain os yw cwmnïau dŵr yn lleihau eu gollyngiadau.

Mae lleihau gollyngiadau'n bwysig o safbwynt defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, gwella gwytnwch, a lleihau'r effaith amgylcheddol. Mae dŵr yn gollwng yn costio arian i chi wrth i chi bwmpio, tynnu a thrin y dŵr. Dylech felly arddangos arweinyddiaeth trwy sicrhau eich bod yn cadw gollyngiadau dan reolaeth. Dylech ddilyn polisi'r llywodraeth a rheoleiddwyr, a disgwyliadau cwsmeriaid i barhau i leihau'r dŵr a gollir trwy ollyngiadau.

Dylech arddangos sut mae eich cynigion o ran gollyngiadau yn adeiladu ar eich gwaith i reoli gollyngiadau hyd yn hyn, ac yn ffurfio rhan o ddull hirdymor o reoli'r galw.

Dylech bennu swm eich gollyngiadau gan ddefnyddio'r dull a amlinellir yn [Reporting guidance – Leakage \(Ofwat a Water UK, mis Mawrth 2018\)](#).

Dylai cwmnïau yn Lloegr ystyried y Supplementary Guidance: Leakage.

6.6.1. Gollyngiadau yn y flwyddyn sylfaen

Dylech nodi'n glir y data sy'n sail i'ch rhagolygon blwyddyn sylfaen. Dylech nodi a ydych wedi defnyddio data gwirioneddol sydd wedi'i adrodd neu eich ffigurau gollyngiadau arfaethedig o'ch Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2019 neu'r ffigurau terfynol yn Adolygiad Prisiau 2019. Dylai eich blwyddyn sylfaen fod yn seiliedig ar eich data gwirioneddol, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl, a'i fod wedi'i addasu ar gyfer blwyddyn sych os yn briodol. Os bydd angen i chi allosod, dylech ddefnyddio'r data sydd fwyaf priodol yn eich tyb chi, a chyfiawnhau eich rhesymau. Os oes gwahaniaeth sylweddol rhwng eich rhagolwg o ollyngiadau ar gyfer blwyddyn gyntaf y cynllun (2025/26) a rhagolwg eich cynllun blaenorol, dylech drafod eich dull â rheoleiddwyr er mwyn cytuno arno.

Os oes ansicrwydd sylweddol ynghylch eich cyfrifon ar gyfer y flwyddyn sylfaen, a'r gollyngiadau a ragolygir, neu fod gwahaniaeth sylweddol rhyngddynt a'ch cynllun blaenorol, dylech ddefnyddio senarios i wneud y canlynol:

- asesu'r effeithiau ar y balans dŵr (fel y dŵr a ddefnyddir y pen a defnydd dibreswyl)

- disgrifio pa effaith mae hyn yn ei chael ar yr opsiynau rydych wedi'u hystyried yn eich cynllun
- egluro'r rhesymau dros y newid
- egluro unrhyw ansicrwydd o safbwynt lefelau gollyngiadau

Dylech wneud y canlynol hefyd:

- disgrifio sut mae'r ansicrwydd hwn yn cael effaith ar eich gallu i gyflawni'r rhagdybiaethau cynllunio a amlinellwyd yn eich cynllun blaenorol, y Fframwaith Cenedlaethol, ac mewn cynlluniau rhanbarthol, ynghyd â dyheadau'r llywodraeth i leihau gollyngiadau dros y cyfnod cynllunio
- defnyddio data am ollyngiadau sydd wedi'i wella a'i ddiweddarau i lunio'ch Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr terfynol, a chynnwys disgrifiad o sut y byddwch yn gwneud hyn yn eich cynllun drafft. Dylai hyn fod yn gyson â'r hyn a ddefnyddiwyd yn eich cynllun busnes
- egluro'n glir eich polisi ar gyfer atgyweirio pibellau cyflenwi cwsmeriaid yn eich cynllun
- trafod y newidiadau sy'n deillio o'r dull diwygiedig o gyfrifo gollyngiadau, a'r effeithiau, â rheoleiddwyr
- amlinellu sut y byddwch yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion perfformiad a brofwyd wrth gyflawni'r rhaglen gollyngiadau arfaethedig yn ystod y cyfnod 2020-25

6.6.2. Rhagolwg gollyngiadau sylfaenol

Dylai eich rhagolwg gollyngiadau sylfaenol barhau i fod yn sefydlog o flwyddyn gyntaf eich cyfnod cynllunio ymlaen. Os oes gennych dwf sylweddol mewn parth adnoddau, dylech drafod eich dull â rheoleiddwyr er mwyn cytuno arno.

6.7. Cyfansoddion eraill o'r galw

Yn eich cynllun, dylech ddisgrifio sut y cafodd cyfansoddion eraill o'r galw (fel dŵr a gymerwyd na chafodd ei filio) eu hasesu. Dylech arddangos pa ragdybiaethau a wnaed gennych wrth eu hasesu, a pha ffynonellau o ddata y mae eich asesiad yn seiliedig arnynt.

6.8. Effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar y galw

Mae'r effaith y mae hinsawdd sy'n newid yn ei chael ar y dŵr a ddefnyddir yn ansicr. Gallwch gynnwys lwfans ar gyfer effaith y newid yn yr hinsawdd ar y galw am ddŵr. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw'r effaith a ddisgwylir yn debygol o fod yn fwy nag 1% dros y cyfnod cynllunio, ac ni ddylai fod yn fwy na 3% oni allwch arddangos yn glir bod eithriad i hyn. Dylech ddarparu manylion am y lwfans, ac am y rhagdybiaethau rydych yn eu gwneud. Dylech gyfeirio at y canlynol:

- UKWIR (2009) [Assessment of the Significance to Water Resource Management Plans of the UK Climate Projections 2009](#)
- UKWIR (2013) [Impact of Climate Change on Water Demand](#)

Adran 7 – Ystyried ansicrwydd

Dylech ddefnyddio'r offer, dulliau a data diweddaraf a mwyaf priodol sydd ar gael i gynhyrchu eich rhagolygon cyflenwad a galw. O ystyried y ceir ansicrwydd ym mhob rhagolwg, dylech gynnwys lwfans ansicrwydd o ran eich rhagolygon cyflenwad a galw, gan ddibynnu ar y dulliau a ddewiswyd gennych.

Dylech ddadansoddi'r ffynonellau o ansicrwydd o amgylch cydrannau eich cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw a'r ystod o ansicrwydd o amgylch y newidynnau hyn. Mae'r dogfennau canlynol yn gosod dulliau gwahanol o asesu ansicrwydd:

- UKWIR (2016) [Risk Based Planning](#)
- UKWIR (2016) [Decision Making Process Guidance](#)
- UKWIR (2002) [An Improved Methodology for Assessing Headroom](#)

Os ydych yn defnyddio offer cynllunio sy'n seiliedig ar risg neu offeryn gwneud penderfyniadau i asesu ansicrwydd ac amrywioldeb, mae'n bosibl na fydd angen i chi gyfrifo targed ychwanegol wrth gefn. Fel arall, mae'n bosibl y bydd angen i chi eithrio rhai cydrannau'r targed ychwanegol wrth gefn. Os felly, bydd angen i chi egluro'r dulliau a'r rhagdybiaethau rydych wedi'u defnyddio ac arddangos nad ydych wedi cyfrif dwywaith neu wedi hepgor unrhyw ansicrwydd. Fodd bynnag, argymhellir eich bod yn darparu gwerth ychwanegol wrth gefn sy'n cynrychioli ansicrwydd. Mae hyn fel bod unrhyw ansicrwydd yn eich cynllun yn amlwg, hyd yn oed os ydych yn defnyddio methodolegau mwy datblygedig.

Dylech ystyried y lefel briodol o risg ar gyfer eich cynllun. Os yw'r targed ychwanegol wrth gefn yn rhy fawr, gallai yrru gwariant dianghenraid. Os ydyw'n rhy fach, mae'n bosibl na fyddwch yn gallu bodloni eich lefel gwasanaeth arfaethedig. Dylech dderbyn lefel uwch o risg ymhellach i'r dyfodol. Mae hyn oherwydd, wrth i amser fynd yn ei flaen, bydd unrhyw ansicrwydd yn lleihau a bydd gennych amser i addasu i unrhyw newidiadau.

Dylech ddarparu cyfiawnhad clir o'r rhagdybiaethau a'r wybodaeth rydych yn ei defnyddio i asesu eich ansicrwydd. Dylech asesu cyfraniadau cymharol ansicrwydd, gan ddangos pa ansicrwydd sydd â'r effaith fwyaf ym mhob parth adnoddau dŵr. Dylech gyfleu hyn yn glir fel bod rheoleiddwyr, cwsmeriaid a phartïon â diddordeb yn gallu ei ddeall yn hawdd. Dylech hefyd ystyried p'un a oes unrhyw gamau y gallech eu cymryd i leihau ansicrwydd yn ystod y cyfnod cynllunio.

Dylech sicrhau y gall eich cynlluniau addasu'n ddigonol i or-gyflawni neu dangyflawni yng ngweithgarwch rheoli galw. Dylech ddefnyddio profion senarios i archwilio ansicrwydd posibl unrhyw ragolygon galw yn y dyfodol.

Ni ddylech gynnwys ansicrwydd sy'n gysylltiedig â pheidio â disodli trwyddedau cyfnod penodol sydd ar y telerau presennol. Os oes yna risgiau i'r cyflenwad gan ei bod yn bosibl na fydd eich trwyddedau'n cael eu hadnewyddu, dylech fynd i'r afael â'r ansicrwydd hwn yn uniongyrchol yn eich cynllun drwy ymchwiliadau a chynllunio cyflenwadau amgen fel y bo angen.

Dylech weithio ag Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru, a grwpiau rhanbarthol (lle bo hynny'n berthnasol) i drafod sut i ystyried newidiadau cynaliadwyedd posibl yn y dyfodol. Gellir archwilio newidiadau cynaliadwyedd posibl yn y tymor hwy drwy'r gwaith cyrchfan amgylchedd a gynhelir yn lleol ac ar lefel ranbarthol. Ni ddylech gynnwys unrhyw ystyriaeth ar gyfer ansicrwydd sy'n gysylltiedig â newidiadau cynaliadwyedd i drwyddedau parhaol, gan y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda chi i sicrhau nad yw'r rhain yn effeithio ar ddiogelwch eich cyflenwad.

Dylai eich cynllun ychwanegol wrth gefn terfynol adlewyrchu'r opsiynau a ffeirir yn eich cynllun terfynol.

Os oes gennych chi ansicrwydd sylweddol, dylech ystyried p'un a fyddai dull cynllunio addasol yn fuddiol. Am ragor o fanylion, gweler Adran 10 yn y canllaw hwn a'r Canllawiau Atodol: Cynllunio addasol. Os ydych yn defnyddio cynllunio addasol, dylech ystyried yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar eich rheolaeth o ansicrwydd, er enghraifft targed ychwanegol wrth gefn.

Os ydych yn gwmni yng Nghymru, dylech drafod eich dull cynllunio addasol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

Adran 8 – Nodi opsiynau posibl

Dylech nodi opsiynau posibl yn eich cynllun rhanbarthol (os yw'n berthnasol) a Chynllun Rheoli Adnoddau Dŵr ar gyfer un neu fwy o'r rhesymau canlynol:

- mae gennych ddiffyg yn eich cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw
- i gyflenwi anghenion rhanbarthol neu genedlaethol posibl, neu i gyflenwi sectorau eraill
- i fynd i'r afael â disgwyliadau y llywodraeth, neu bryderon eich cwsmeriaid neu randdeiliaid lleol
- i sicrhau defnydd effeithlon o ddŵr

Dylech gyflwyno eich rhestr o opsiynau i'w harfarnu drwy:

1. nodi rhestr drwyadl o bob opsiwn posibl (Adran 8.1)

2. datblygu rhestr ddichonadwy (Adran 8.2). Mae Adran 8.3 yn rhestru'r wybodaeth y dylech ei darparu ar gyfer eich opsiynau dichonadwy.

Dylech ystyried ystod eang o opsiynau (yn y camau rhestr drwyadl a dichonadwy). Dylai eich ystod o opsiynau:

- arddangos fod dewisiadau gwir yn bosibl wrth ddethol eich rhaglen ddelfrydol
- eich galluogi i fodloni eich amcanion a nodwyd ar gyfer eich cynllun
- rhoi hyder i reoleiddwyr, rhanddeiliaid a chwsmeriaid fod eich rhaglen ddelfrydol yn cynrychioli'r gwerth gorau

Mae'n rhaid i chi asesu p'un a fydd yn rhaid i'ch cynllun a'r opsiynau yn eich cynllun fod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae'n rhaid i chi hefyd sicrhau eich bod wedi cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol a chyfarwyddiadau cyfreithiol eraill. Mae'n bosibl yr hoffech gyfeirio at y canlynol:

- UKWIR (2012), [Strategic Environmental Assessment and Habitats Regulations Assessment – Guidance for Water resources Management Plans and Drought plans](#) (sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd ac yn ddisgwyliedig yn gynnar yn 2021)
- Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2005), [A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive](#)
- Llywodraeth Cymru, [Asesiad Amgylcheddol Strategol yng Nghymru](#)

Os oes gennych chi opsiynau yng Nghymru neu sy'n effeithio ar safleoedd yng Nghymru, mae'n rhaid i chi ystyried hefyd ofynion [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\)](#) a [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#).

8.1. Rhestr drwyadl

Dylech lunio rhestr o bob opsiwn posibl a ellid ei ddefnyddio'n rhesymol yn eich cynllun. Dylid datblygu'r rhestr drwyadl hon o restr gyffredinol o fathau o opsiynau. Cynhyrchodd [Water Resources Planning Tools 2012: Summary Report](#) gan UKWIR restr gynhwysfawr o fathau o opsiynau rheoli dŵr y gallwch eu hystyried. Fe'ch anogir i ddefnyddio'r rhestr hon fel sylfaen y gallwch ychwanegu ati neu dynnu oddi arni. Fel isafswm, dylai'r rhestr drwyadl gynnwys yr holl opsiynau a ystyriwyd yn y rownd gynllunio flaenorol, yn ogystal ag unrhyw opsiynau a nodwyd wedyn. Dylech gynnwys opsiynau o ran y cyflenwad ac opsiynau o ran y galw, yn ogystal â gwneud arbedion effeithlonrwydd yn eich rhwydwaith fel tynnu cyfyngiadau rhwydwaith lle maent yn cyfrannu at y cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw. Wrth ffurfio eich rhestr o opsiynau, dylech archwilio'r rhai a gyflwynwyd gan grwpiau rhanbarthol (gweler Adran 2). Ar gyfer Lloegr, dylech hefyd nodi trosglwyddiadau posibl eraill o gwmnïau dŵr cyfagos ac ystyried opsiynau trydydd parti (gweler Adran 8.1.1).

Mae'n bosibl na fydd opsiwn trwyadl yn hollol rydd o gyfyngiadau, megis materion cynllunio neu amgylcheddol, ond dylai fod yn ddichonadwy yn dechnegol. Dylech ddarparu allbwn dangosol y gellir ei ddefnyddio neu ystod ddangosol ar gyfer eich opsiynau trwyadl.

8.1.1 Opsiynau trydydd parti

Lloegr

Dylech nodi p'un a allai trydydd partiön ddarparu opsiynau hyfyw neu a oes cyfleoedd am gydweithredu i ddatblygu opsiynau cyflenwad neu alw. Dylech ystyried opsiynau trydydd parti yn yr ystyr ehangaf, er enghraifft:

- trosglwyddiad o ddŵr rhwng cwmnïau dŵr
- cynllun effeithlonrwydd dŵr a ddarperir gan drydydd parti
- masnach dŵr gyda thrydydd parti
- darpariaeth gan drydydd parti o ddŵr wedi'i adfer

Dylech nodi'r cyfleoedd hyn drwy eich grŵp rhanbarthol (os yw'n berthnasol), a/neu cyn eich cam cyn-ymgyngori. Mae'n bosibl y bydd eich grŵp rhanbarthol wedi nodi opsiynau sy'n cael eu cyflawni yn rhannol, neu'n gyfan gwbl, gan drydydd partiön. Dylech arfarnu'r opsiynau hyn yn erbyn yr un meini prawf a ddefnyddiwyd ar gyfer asesu eich opsiynau eich hun. Mae opsiynau ar gyfer nodi a gwahodd trydydd partiön yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): cysylltu â chwmnïau dŵr cyfagos a/neu dynwyr dŵr eraill, neu hysbysebu. Chi sy'n gyfrifol am benderfynu ar y dull mwyaf priodol ar gyfer eich amgylchiadau.

Dylech ymgysylltu'n weithredol â thrydydd partiön a allai ddarparu opsiynau i chi ar gost is, neu ddarparu mwy o fanteision na'ch opsiynau chi. Bydd y wybodaeth rydych yn ei chyhoeddi ar eich gwefan i fodloni gofynion gwybodaeth am y farchnad adnoddau dŵr Ofwat yn cynorthwyo trydydd partiön wrth iddynt ddatblygu cynigion trwy wneud data adnoddau dŵr yn fwy hygyrch. Gallai cynigion gynnwys gwasanaethau megis darparu dŵr, canfod gollyngiadau, ac opsiynau rheoli galw. Dylech gefnogi trydydd partiön yn eu darpariaeth o wybodaeth a gwaith dadansoddi fel rhan o'r datblygiad o opsiynau trydydd parti.

Yn eich cynllun, dylech ddangos tystiolaeth:

- fod trydydd partiön wedi gallu cynnig opsiynau i'w harfarnu
- eich bod wedi defnyddio set o feini prawf sgrinio ar gyfer opsiynau trydydd parti sy'n gyson â'r rhai a gafodd eu cymhwyso i'ch opsiynau eich hunan
- eich bod wedi arfarnu opsiynau trydydd parti yn unol â'ch fframwaith asesu cynigion cyhoeddedig

Cymru

Fe'ch anogir i ymgysylltu â thrydydd partïon a allai ddarparu datrysiadau ar eich cyfer am well gwerth na'ch opsiynau eich hunan. Ni ddylai'r opsiynau hyn leihau'r cyfle i chi ddarparu datrysiadau arloesol, yn enwedig os ydynt yn darparu manteision ehangach, fel seilwaith gwyrdd. Wrth bennu gwerth, dylai eich ystyriaeth o gostau a manteision ystyried costau amgylcheddol, economaidd a llesiant yn ogystal â chostau ariannol, gan gynnwys egwyddorion cyfrifyddu naturiol.

Bydd y wybodaeth rydych yn ei chyhoeddi ar eich gwefan i fodloni gofynion gwybodaeth am y farchnad adnoddau dŵr Ofwat yn cynorthwyo trydydd partïon wrth iddynt ddatblygu cynigion trwy wneud data adnoddau dŵr yn fwy hygyrch.

Os ydych yn cynnwys opsiwn i drosglwyddo dŵr o barth adnoddau dŵr cwmni dŵr o Gymru, dylech drafod yr opsiynau hyn gyda Gweinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

8.2. Rhestr ddichonadwy

Dylech ddatblygu eich rhestr ddichonadwy o opsiynau o'ch rhestr drwyadl o opsiynau. Mae'r rhestr ddichonadwy yn set o opsiynau rydych yn eu hystyried i fod yn addas i'w hasesu ar gyfer eu cynnwys yn eich rhaglen ddelfrydol o opsiynau. Gan hynny, ni ddylid cynnwys opsiynau sydd â chyfyngiadau annewidiadwy sy'n eu gwneud yn anaddas i'w hyrwyddo. Enghraifft o hyn fyddai effeithiau amgylcheddol annerbyniol na ellir eu goresgyn neu opsiynau sydd â risg uchel o fethiant – er enghraifft, cyfyngiadau y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr a Rheoliadau Cynefinoedd.

Dylech drafod eich opsiynau dichonadwy gydag Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gynted â phosibl.

Mae gennych yr hyblygrwydd i benderfynu ar y dull sgrinio mwyaf priodol ar gyfer eich sefyllfa. Dylech ddangos yn glir y meini prawf rydych wedi'u defnyddio i ddethol opsiynau dichonadwy. Dylech nodi'r rhesymau dros wrthod unrhyw opsiynau'n glir.

Dylech ystyried a chyfiawnhau cynlluniau sy'n gallu gwrthsefyll cyfnodau heb sychder yn unig (hynny yw, nid ydynt yn cyfrannu i'r cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw) drwy eich cynllun busnes. Gallai'r rhain gynnwys gwydnwch systemau i beryglon eraill neu ddibynadwyedd ac afreidrwydd asedau. Fodd bynnag, gallwch ddisgrifio'r opsiynau hyn yn eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr. I'w ystyried yn eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr, dylai fod gan gynllun rywfaint o fanteision i un neu fwy o gydrannau'r cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw. Er enghraifft, drwy ddarparu allbwn y gellir ei ddefnyddio neu leihau toriadau.

Lloegr

Dylai eich rhestr ddichonadwy hefyd gynnwys unrhyw opsiynau o ran galw fel newidiadau i waharddiadau defnydd dros dro a gwaharddiadau defnydd nad yw'n hanfodol yn ogystal â thrwyddedau a gorchmynion sychder. Mae hyn fel y gellir eu

harfarnu'n glir ochr yn ochr ag opsiynau eraill. Dylai eich rhestr opsiynau gynnwys unrhyw effaith o ganlyniad i fesurau sychder a wnaethoch eu tynnu o'r allbwn y gellir ei ddefnyddio.

Cymru

Dylai eich rhestr ddichonadwy gynnwys opsiynau o ran galw. Gallwch gynnwys trwyddedau ac opsiynau sychder yn eich rhestr ddichonadwy sy'n cyflenwi digwyddiadau sydd o ddifrifoldeb o fwy nag 1 mewn 200.

Gallwn ddefnyddio eich dealltwriaeth o'ch cynllun sychder i asesu unrhyw risgiau amgylcheddol ar gyfer trwyddedau neu orchmynion sychder. Fodd bynnag, gellir ond defnyddio'r wybodaeth hon pan:

- nad oes unrhyw wybodaeth berthnasol wedi codi sy'n golygu ei bod yn hen
- mae'r dadansoddiad sy'n tanategu'r wybodaeth yn ddigon trylwyr a chadarn

8.2.1. Sgrinio pellach

Os oes gennych chi restr ddichonadwy fawr, gallwch ystyried sgrinio pellach i gynhyrchu nifer fwy hylaw o opsiynau i'w hasesu ar gyfer eu cynnwys yn eich cynllun delfrydol. Dylai eich rhestr ddichonadwy ddiwygiedig ddal i gynnwys opsiynau digonol er mwyn caniatáu dewisiadau gwir wrth asesu'r rhaglen ddelfrydol. Mae hyn o ran nifer, math a maint opsiynau. Dylech sicrhau nad yw'r broses ar gyfer sgrinio pellach yn cynnwys unrhyw duedd ormodol. Dylech drafod eich dull gyda rheoleiddwyr.

8.2.2. Asesu cyfyngiadau amgylcheddol

A. Cynlluniau Rheoli Basn Afon a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Mae amcanion amgylcheddol Cynlluniau Rheoli Basn Afon a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn gyfyngiad ar eich opsiynau. Dylech sgrinio allan unrhyw opsiynau sydd ag effeithiau amgylcheddol annerbyniol na ellir eu goresgyn.

Dylech sicrhau nad oes risg o ddirywiad gan dyniad dŵr newydd posibl neu gan gynnydd mewn tynnu dŵr mewn ffynhonnell sy'n bodoli eisoes cyn eich bod yn ei ystyried yn opsiwn dichonadwy. Fel arall, os nad yw'r ymchwiliadau wedi'u cwblhau eisoes, dylech nodi beth fyddai eich opsiynau amgen pe byddai'r ymchwiliadau hynny'n dangos y bydd effaith amgylcheddol annerbyniol.

Dylech hefyd asesu opsiynau cyflenwi newydd yn erbyn mesurau ac amcanion y Cynllun Rheoli Basn Afon ar gyfer pob corff dŵr a bodloni eich rhwymedigaethau i osgoi dirywiad yn y dyfodol. Dylech sicrhau nad yw eich opsiynau dichonadwy yn peryglu cyflawni amcanion y Cynllun Rheoli Basn Afon.

Dylech siarad ag Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ag unrhyw gamau rydych yn bwriadu eu cymryd y gallai:

- achosi dirywiad o ran statws (neu statws potensial)
- atal cyflawni amcanion statws y corff dŵr mewn Cynlluniau Rheoli Basn Afon
- atal cyflawni statws (neu statws potensial) y corff dŵr ar gyfer addasiadau newydd

Dylech wneud hyn cyn gynted â phosibl cyn datblygu eich cynllun. Dylech wneud datganiad clir yn eich cynllun ynglŷn ag unrhyw effeithiau posibl.

B. Rheoliadau Cynefinoedd (Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017)

Dylai'ch cynllun, gan gynnwys unrhyw opsiynau oddi fewn iddo, gefnogi cyflawni statws cadwraeth ffafriol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau a nodir gan y rheoliadau. Dylent hefyd beidio ag atal cyflawni cyflwr ffafriol ar gyfer safleoedd a ddynodir o dan y rheoliadau. Dylech asesu a oes unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar safleoedd dynodedig gan unrhyw un o'ch opsiynau (fel tyniad dŵr newydd posibl neu gan gynnydd mewn tynnu dŵr mewn ffynhonnell sy'n bodoli eisoes) cyn eich bod yn eu hystyried fel opsiynau dichonadwy. Pan na allwch gasglu 'nad oes effeithiau arwyddocaol tebygol', mae 'asesiad priodol' yn ofynnol i sefydlu a ellir darparu'r opsiwn heb gael effaith niweidiol ar integreidd safle dynodedig.

Dylech siarad â Natural England neu Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ag unrhyw gamau rydych yn bwriadu eu cymryd a ellid achosi effeithiau niweidiol ar safleoedd dynodedig o fewn Lloegr a Chymru, yn y drefn honno. Dylech wneud hyn cyn gynted â phosibl cyn datblygu eich cynllun, a dylech wneud datganiad clir yn eich cynllun ynglŷn ag unrhyw effeithiau posibl. Dylech gyfeirio at y wybodaeth am yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a ddarperir yn Adran 9.

Ni ddylai'r angen i wneud Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd fod yn rheswm ar ei ben ei hun i sgrinio opsiwn allan. Mae hyn oherwydd y gall sgrinio gan Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gasglu 'nad oes unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol'. Fel arall, gallai asesiad priodol gasglu 'nad oes effeithiau niweidiol ar integreidd'. Mae'n bosibl i'r ddau ganiatáu cadw'r opsiwn o fewn y cynllun.

8.2.3 Addasu i'r newid yn yr hinsawdd

Dylai eich cynllun ddilyn dull rhagweithiol o liniaru (gweler 8.3.2) y newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo. Mae addasu i heriau'r dyfodol yn hanfodol i gynlluniau rheoli adnoddau dŵr a bydd llawer o opsiynau'n helpu o ran addasu i'r hinsawdd, er enghraifft lleihau'r galw, er gan adael mwy o ddŵr ar gyfer natur yn ystod llifoedd isel, neu ddatblygu ffynonellau newydd sy'n cynyddu'r gallu i wrthsefyll sychder. Dylid croesawu cyfleoedd i wneud y byd natur yn fwy cydnerth yn wyneb y newid yn yr hinsawdd, a hynny mewn opsiynau dichonadwy. Ar gyfer cwmnïau yn Lloegr neu gwmnïau sy'n effeithio ar Loegr, gallech ddefnyddio ail gyfrol y 'Climate Change Adaptation Manual' gan Natural England i helpu i gynllunio ar gyfer gwelliannau i fioamrywiaeth.

8.3. Gwybodaeth y dylech ei darparu ar gyfer pob opsiwn

Dylech ddarparu'r wybodaeth a nodir yn yr adran hon ar gyfer pob un o'ch opsiynau dichonadwy (neu restr ddichonadwy ddiwygiedig), gan gynnwys opsiynau trydydd parti.

Dylech amlinellu'n glir y dystiolaeth sydd wedi llywio manteision tybiedig eich opsiynau o ran cyflenwad a galw.

Os ydych wedi datblygu rhestr ddichonadwy ddiwygiedig, dylech drafod gyda rheoleiddwyr faint o wybodaeth y dylech ei darparu ar gyfer opsiynau dichonadwy nad ydynt ar y rhestr ddichonadwy ddiwygiedig.

Dylech ddarparu:

Ar gyfer opsiynau cyflenwi a throsglwyddo, dylech gynnwys disgrifiad yn eich cynllun o'r opsiwn, gan gynnwys map cynllunio priodol a/neu ddiagram cysyniadol yn dangos:

- ffynhonnell y cyflenwad
- y prif nodweddion gweithredol
- yr ardaloedd fydd yr opsiwn yn cael ei weithredu drostynt
- unrhyw gysylltiadau ag opsiynau eraill neu ddibyniaethau arnynt

Ar gyfer opsiynau rheoli galw, dylech gynnwys disgrifiad yn eich cynllun o sut mae'r opsiwn sy'n cael ei ddisgrifio'n wahanol i weithgareddau sylfaenol.

Ar gyfer pob opsiwn:

- proffil o'r allbwn y gellir ei ddefnyddio, cyfraniad i'r cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw neu arbedion galw (yn seiliedig ar gapasiti'r opsiwn) neu'r dŵr a arbedir dros 80 mlynedd. Ar gyfer opsiwn cyflenwi, dylai fod yr allbwn y gellir ei ddefnyddio yn seiliedig ar yr un rhagdybiaethau â'ch opsiynau sylfaenol. Dylid seilio cynnyrch opsiwn o ran y galw ar flwyddyn sych. (Gweler Adran 4.6)
- amcangyfrif o'r amser sydd ei angen i ymchwilio i opsiwn a'i gyflwyno, gan gynnwys y dyddiad cynharaf y gallai'r opsiwn roi dŵr yn y cyflenwad neu leihau galw
- asesiad o'r risgiau a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r opsiwn, gan gynnwys tebygolrwydd newid yn yr hinsawdd, cyfyngiadau amgylcheddol neu ymddygiad cwsmeriaid a'u heffaith ar gynnyrch (ar gyfer opsiynau galw). Dylech gynnwys asesiad o rywogaethau estron goresgynnol (lle bo'n berthnasol)

- cynllun diogelwch dŵr yfed sy'n asesu'r risgiau i ansawdd dŵr yfed. Os oes risg i iachusrwydd (e.e. aflwiad, nitradau, plaladdwyr) neu risg o ddirywiad yn ansawdd y cyflenwad, ni fydd yr opsiwn yn cael ei ganiatáu nes bod camau i liniaru'r risgiau hynny ar waith. (Gweler [canllawiau'r Arolygiaeth Dŵr Yfed](#))
- esboniad o p'un a yw'r opsiwn yn dibynnu ar gynllun sy'n bodoli eisoes neu opsiwn arfaethedig, neu'n annibynnol ar ei gilydd gydag opsiwn arall
- unrhyw gyfyngiadau penodol i'r opsiwn
- asesiad o gefnogaeth eich cwsmeriaid ar gyfer yr opsiwn
- asesiad o hyblygrwydd yr opsiwn i addasu i unrhyw ansicrwydd yn y dyfodol
- disgrifiad o sut fydd yr opsiwn yn cael ei ddefnyddio a'r effaith ar gostau gweithredu a chostau carbon. Dylech ddisgrifio'r defnydd disgwylidig yn ystod blwyddyn gyfartalog (senario defnydd hirdymor tybiedig) a senario ddamcaniaethol o'r defnydd blynyddol mwyaf.
- asesiad o effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol yr opsiwn, gan gynnwys unrhyw Asesiad Amgylcheddol Strategol ar lefel opsiwn, gwerthusiad o'r effeithiau ar amcanion Cynllun Rheoli Basn Afon, amcanion adfer natur (Lloegr), y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (Cymru), a nodau llesiant (Cymru)
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, os gallai'r opsiwn effeithio ar unrhyw safle â chynefinoedd dynodedig
- (ar gyfer opsiynau cyflenwi a throsglwyddo) asesiad cyfalaf naturiol, gan gynnwys asesiad o effaith disgwylidig yr opsiwn ar asedau naturiol a llif gwasanaethau²²
- (Lloegr yn unig) asesiad o gyfraniad yr opsiwn i gadwraeth a gwelliant bioamrywiaeth ac asesiad lefel uchel o enillion net o ran bioamrywiaeth (os oes angen caniatâd cynllunio ar yr opsiwn) ²³
- gwybodaeth am gostau (gweler Adran 8.3.1 isod)
- allyriadau nwyon tŷ gwyrdr (gweler Adran 8.3.1 isod)
- gwybodaeth arall sy'n gysylltiedig â metrigau a ddatblygwyd i lywio gwaith dethol eich rhaglen ddelfrydol (gweler Adran 10)

8.3.1. Gwybodaeth am gostau

Dylai cost opsiwn gynrychioli cost datrysiaid y gellir ei gyflawni sy'n cynnwys unrhyw fesurau lliniaru neu newidiadau i'r cynllun ar gyfer materion amgylcheddol neu

²² Gweler y Canllawiau Atodol – Amgylchedd a chymdeithas mewn prosesau gwneud penderfyniadau am ragor o fanylion (fersiynau Saesneg a Chymraeg).

²³ Gweler y Canllawiau Atodol – Amgylchedd a chymdeithas mewn prosesau gwneud penderfyniadau am ragor o fanylion (fersiynau Saesneg a Chymraeg).

faterion o ran ansawdd dŵr yfed. Dylai cost opsiwn fod y gost lawn o wireddu'r cynnydd yn y dŵr sydd ar gael i'w ddefnyddio neu'r gostyngiad yn y galw; er enghraifft gan gynnwys costau prosesau trin, costau pwmpio neu gostau cysylltu pibellau cysylltiedig.

Dylech amlinellu eich gwybodaeth am gostau yn y tablau cynllunio adnoddau dŵr a dylech ddilyn cyfarwyddiadau'r tabl cynllunio adnoddau dŵr. Dylech ddarparu'r wybodaeth ganlynol am gostau ar gyfer pob opsiwn, lle bo angen:

- a) Dylid rhannu costau opsiynau yn gyfanswm costau cyn buddion, a chostau blynyddol ar ôl cyflawni (gan gynnwys costau gweithredu, costau cynnal a chadw, a chostau adnewyddu) gyda'r ddwy gost yn cael eu hadrodd yn nhermau cyfanswm gwariant.
- b) Cyfanswm y gost bresennol net a'r buddion presennol net. Dylech gyfrifo'r costau a'r buddion presennol net gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt hirdymor ostyngol safonol y Trysorlys fel y'i nodir yn 'Llyfr Gwyrdd (Trysorlys EM 2020)' Trysorlys ei Mawrhydi. Dylai'r cyfnod arfarnu bara am o leiaf oes yr ased â'r oes hwyaf sydd o dan ystyriaeth. Dylai eich cyfnod arfarnu fod yn gyson o fewn eich grŵp rhanbarthol, lle bo hynny'n berthnasol. Dylech gyfrifo costau cyllid fel llif o gostau blynyddol dros oes yr opsiwn, lle mai'r gost flynyddol yw'r gost o ariannu gwerth llyfr net yr asedau sy'n cyfrannu at y Gwerth Cyfalaf Rheoleiddiol, wedi'i addasu ar gyfer dibrisiant llinell syth, gan ddefnyddio'r gost cyfalaf gyfartalog dybiedig (y gost cyfalaf gyfanwerthol wedi'i phwysoli ym mhenderfyniadau terfynol PR19)
- c) Cost gynyddrannol gyfartalog yr opsiwn yn seiliedig ar Werth Presennol Net ei gostau a'i allbynnau. Sylwer: nid oes angen i chi ddarparu'r gost gymdeithasol gynyddrannol gyfartalog mwyach.
- d) Effeithiau'r costau amgylcheddol a chymdeithasol â gwerth ariannol (wedi'u cyflwyno yn erbyn gwasanaethau cyfalaf naturiol) lle bo hynny'n bosibl.
- e) Cyfanswm effeithiau costau carbon (gweler adran 8.3.2)

Ni ddisgwylir i'r cyfrifiadau manwl a ddefnyddiwyd i gyfrifo cyfanswm y costau presennol net gael eu cyflwyno ar gyfer pob opsiwn. Fodd bynnag, dylid nodi'n glir y tybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo costau presennol net, buddion presennol net, a'r gost gynyddrannol gyfartalog. Dylid cyflwyno enghreifftiau llawn ar gyfer opsiynau o safbwynt y galw a'r opsiynau o safbwynt y cyflenwad a ffefrir (lle y'u dewiswyd), gan ddangos proffil y costau blynyddol. Er nad oes angen eu cyflwyno fel rhan o'ch cynllun drafft, efallai y bydd rheoleiddwyr yn gofyn am y cyfrifiadau hyn ar gyfer opsiynau eraill a ffefrir.

Dylai'r costau rydych yn eu defnyddio wrth gynllunio fod yn gadarn ac yn effeithlon, gyda thystiolaeth i gefnogi hyn, a dylech ddarparu tystiolaeth ar gyfer sut y cyfrifir y costau. Dylech feincnodi gweithgareddau allweddol. Dylai'r dull o bennu costau a'r cyfrifiadau rydych yn eu defnyddio fod yn elfen hanfodol o'r dystiolaeth y mae eich Bwrdd yn ei hystyried wrth roi ei ddatganiad sicrwydd. Disgwylwch na fydd y dull o bennu costau'r opsiynau canlyniadol, a sicrhawyd gan eich Bwrdd, yn amrywio'n sylweddol rhwng cyflwyno'r cynllun rheoli adnoddau dŵr a'r cynllun busnes. Lle ceir amrywiadau, rydym yn disgwyl y bydd tystiolaeth dda ohonynt ac y bydd effaith yr amrywiad ar waith optimeiddio'r cynllun wedi'i hailasesu.

8.3.2. Lleihau a chymryd allyriadau nwyon tŷ gwydr i ystyriaeth

Mae'r amgylchedd a'r gymdeithas yn wynebu argyfwng hinsawdd. Mae'r sector dŵr, ynghyd â'r defnydd o'r cynnyrch a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu, yn cyfrannu'n sylweddol at allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i sefyllfa sero net erbyn 2050. Mae'r sector dŵr, drwy Water UK, wedi ymrwymo i gyrraedd sefyllfa carbon gweithredol sero net erbyn 2030. Dylech felly ystyried carbon drwy eich arfarniad o'r opsiynau, ond ystyried hefyd sut y gall eich cynllun gyfrannu at ymrwymiad y sector, y cwmni a'r llywodraeth i gyrraedd sefyllfa sero net. Disgwyliwn i ddull carbon oes gyfan gael ei fabwysiadu.

Mae gan Gymru dargedau statudol i leihau nwyon tŷ gwydr. Dylai cynigion felly gynnwys asesiad o'u heffaith garbon yng Nghymru o'r cychwyn cyntaf. Dylid cyfeirio ymholiadau at decarbonisationmailbox.@gov.wales

Dylech ystyried effaith amgylcheddol nwyon tŷ gwydr eraill ar hyd cylch oes ased yn ei gyfanrwydd; gan gynnwys gweithredu, ac rhoi sylw gofalus i'r chwe phrif nwy tŷ gwydr.

Disgwyliwn i gwmnïau fod yn glir ynghylch cynlluniau i fonitro a gwerthuso canlyniad eu penderfyniadau ar garbon gyda'r bwriad o sicrhau y gellir newid camau gweithredu i sicrhau bod rhagfynegiadau o allyriadau carbon yn dod yn fwyfwy cywir.

Dylai eich cynllun gynnwys tystiolaeth o bolisiâu, fframweithiau a dulliau gweithredu rydych yn eu dilyn i leihau carbon oes gyfan o ran yr opsiynau a ddewisir ac yn y gwaith o gynllunio datrysiadau. Dylai opsiynau gynnwys dyluniadau arloesol a chyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy neu i weithgareddau gael eu pweru gan ynni adnewyddadwy a/neu ddal a storio carbon.

Disgwylir i lefel yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag asesiadau carbon yr opsiynau leihau wrth i opsiynau gael eu datblygu ac wrth iddynt aeddfedu.

Yn eich cynllun, dylech asesu cost carbon y gwaith adeiladu a'r gwaith gweithredu sydd ynghlwm wrth eich opsiynau, yn ogystal ag effaith newid defnydd tir ar ddal a storio carbon.

Dylech ddefnyddio'r costau carbon yn unol â chanllawiau diweddaraf y llywodraeth a chyflwyno'r costau hyn ynghyd â chostau eich opsiynau. Dylech ddefnyddio'r gyfres ganolog o werthoedd ar gyfer modelu a chynnal dadansoddiad sensitifrwydd gan ddefnyddio'r gyfres uchel a'r gyfres isel. Dylech hefyd gyflwyno'r tunelli o garbon y byddwch yn eu rhyddhau drwy waith adeiladu a gweithredu eich opsiynau a ffefrir.

Wrth asesu effeithiau carbon eich opsiynau, dylech ystyried unrhyw fesurau lliniaru, megis defnyddio ynni adnewyddadwy neu gyfrannu at niwtraleiddio carbon. Gall cyfrannu at niwtraleiddio carbon gyfrannu at fuddion amgylcheddol ehangach fel plannu coed neu adfer ucheldir a mawndir, os nad oes dewis arall i leihau allyriadau.

Ar gyfer opsiynau lle mae newid defnydd tir yn berthnasol, dylech ddefnyddio dull cyfalaf naturiol fel y'i disgrifir yn y Canllawiau Atodol: Amgylchedd a chymdeithas

mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn darparu methodoleg ar gyfer sut y dylech ystyried gwerth y carbon sy'n gysylltiedig â newid defnydd tir.

Dylech ystyried y canllawiau canlynol:

- [A Framework for Accounting for Embodied Carbon in Water Industry Assets](#), sef adroddiad gan UKWIR (UKWIR, 2012) (12/CL/01/15).
- Ar gyfer costau carbon sy'n gysylltiedig â'r allyriadau amcanestynedig, dylech ddefnyddio canllawiau diweddaraf y llywodraeth ar gost carbon. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yn [GOV.UK](#). Dylech ystyried [Canllawiau Atodol y Llyfr Gwyrdd](#) yn benodol.
- [Rheoliadau Cyfrifyddu Carbon \(Cymru\) 2018](#)
- [Environmental Reporting Guidelines: Including streamlined energy and carbon reporting guidance](#)
- [PAS 2080: Carbon management in infrastructure](#)
- [Infrastructure Carbon Review Trysorlys ei Mawrhydi](#)
- [Towards a Science-based Approach to Climate Neutrality in the Corporate Sector](#)

Adran 9 – Agweddau i'w hystyried wrth lunio cynllun gwerth gorau

Mae'r adran hon yn egluro: beth yw cynllun gwerth gorau (Adran 9.1) a'r ffactorau y dylid eu hystyried wrth lunio eich cynllun gwerth gorau (Adran 9.2). Mae'n amlinellu polisïau'r llywodraeth a'r rheoleiddwyr y bydd angen i chi eu hystyried wrth ddatblygu eich cynllun (Adran 9.3). Mae hefyd yn darparu trosolwg o sut y dylech sicrhau bod yr amgylchedd a chymdeithas yn cael eu hystyried yn llawn yn eich proses gwneud penderfyniadau (Adran 9.4).

Mae Adran 10 yn amlinellu sut y dylech lunio eich cynllun gwerth gorau.

9.1. Beth yw cynllun gwerth gorau?

Nod cynllun rhanbarthol a'ch Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yw cyflwyno cynllun gwerth gorau, yn y tymor byr a'r tymor hir. Mae'n rhaid i'ch Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr sicrhau cyflenwad diogel o ddŵr yfed iachus ar gyfer eich cwsmeriaid a gwarchod a gwella'r amgylchedd.

Mae cynllun gwerth gorau yn ystyried ffactorau ochr yn ochr â chost economaidd ac yn ceisio cyflawni canlyniad sy'n cynyddu'r budd cyffredinol i gwsmeriaid, yr amgylchedd ehangach a'r gymdeithas gyffredinol.²⁴

Dylai cynllun gwerth gorau fod yn effeithlon ac yn fforddiadwy o safbwynt cyflwyno, yn cydymffurfio â'r gyfraith, ac yn ystyried yr ystod o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol iddo.

9.2. Yr hyn y dylech ei ystyried wrth lunio eich cynllun gwerth gorau

Wrth lunio eich cynllun gwerth gorau, dylech ystyried yr opsiynau mwyaf priodol ar gyfer eich system (yn rhanbarthol ac yn genedlaethol lle bo'n briodol), gan ystyried y ffactorau canlynol:

- polisi'r llywodraeth a disgwyliadau rheoleiddwyr (gweler Adran 9.3)
- cynlluniau rhanbarthol (gweler Adran 2)
- dewisiadau cwsmeriaid
- gwarchod a diwallu anghenion cwsmeriaid sy'n agored i niwed
- gwelliannau amgylcheddol
- bioamrywiaeth
- costau
- buddion (ariannol ac anariannol) i gwsmeriaid, yr amgylchedd a chymdeithas (fel iechyd a llesiant y cyhoedd a chyfleoedd hamdden), a sut mae'r rhain yn cael eu dosbarthu'n ofodol a dros amser
- cyfalaf naturiol
- risgiau a buddion tymor byr a hirdymor, gan gynnwys risg o safbwynt cyflenwi
- hyblygrwydd a'r gallu i addasu eich opsiynau i fodloni unrhyw ansicrwydd yn y dyfodol
- gwydnwch eich rhwydwaith a'ch cyflenwadau (gweler Adran 9.5)
- angen rhanbarthol a chenedlaethol ac anghenion sectorau eraill
- effaith eich rhaglen ddelfrydol ar fforddiadwyedd biliau eich cwsmeriaid
- y lefel ansicrwydd a sensitifrwydd yn eich asesiad o werth gorau

²⁴ Bydd canlyniad cynnydd mewn buddion fel arfer yn cael ei fesur o'i gymharu â'r rhaglen 'cost leiaf' sy'n cyflawni'r gofynion lleiaf i fodloni dyletswyddau cyflenwi.

- gwydnwch nad yw'n ymwneud â sychder fel gwydnwch y system cyflenwi dŵr
- ffactorau economaidd fel fforddiadwyedd, effeithiau dosbarthiadol, adfywio lleol a thwf economaidd
- cyflawni sero-net a'r argyfwng hinsawdd
- (Lloegr) eich amcanion i wella bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer cynnydd net mewn bioamrywiaeth lle bydd angen caniatâd cynllunio, a mesurau eraill i warchod a gwella bioamrywiaeth sy'n gyson â'r camau y gallwch eu gweithredu'n briodol
- (Cymru) y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau a nodau llesiant

Dylai cynllun gwerth gorau fod yn effeithlon ac yn fforddiadwy gydag effeithiau dosbarthiadol, tegwch cymdeithasol ac ystyriaethau tegwch rhwng y cenedlaethau yn cael eu trafod yn dryloyw. Dylai fod yn glir na ellir cyflawni'r buddion ychwanegol a nodwyd yn fwy effeithlon drwy ffyrdd eraill.

9.3. Polisi'r llywodraeth a rheoleiddwyr

Dylai eich cynllun gwerth gorau gael ei lywio gan bolisiâu a dyheadau'r llywodraeth a'r rheoleiddwyr. Dylech ystyried rhagdybiaethau cynllunio gostyngiad mewn galw yn y dyfodol a thargedau a amlinellir yn y Fframwaith Cenedlaethol (Lloegr yn unig) neu sydd wedi'u pennu drwy bolisi'r llywodraeth, gan gynnwys Bil [Deddf] yr Amgylchedd.

Dylech ystyried pa nodau a dyheadau polisi y dylid eu gosod fel meini prawf lleiaf eich cynllun, a fydd yn cael eu cydbwyso yn erbyn amcanion eraill.

Dylech ystyried ar ba bwynt mewn amser y byddwch yn cyflawni eich amcanion polisi. Dylech ystyried ystod addas o senarios o gwmpas yr amcanion polisi i'ch galluogi i gynhyrchu'r cynllun gorau posibl.²⁵ Dylech ystyried sut y bydd y ffordd rydych yn gweithredu disgwyliadau polisi yn cael effaith ar gostau, fforddiadwyedd, pa mor bosibl fydd cyflawni, a thegwch rhwng y cenedlaethau.

9.3.1. Eich lefel arfaethedig o ollyngiadau

Yn eich rhagolwg cynllun terfynol, dylech ystyried polisi cyfredol y llywodraeth ac asesu pob opsiwn i leihau gollyngiadau ymhellach, ochr yn ochr ag opsiynau dichonadwy eraill. Dylech ystyried y gwerth y mae eich cwsmeriaid yn ei osod ar leihau gollyngiadau a'r buddion y bydd hyn yn eu creu, ynglŷn â pharodrwydd eich

²⁵ Er enghraifft, pe byddai gostyngiad o 20% mewn gollyngiadau yn ofynnol erbyn 2030, yna dylai'r lefel gostyngiad gollyngiadau fod yn fetrig cynllun, gydag isafswm o 20% erbyn 2030 yn cael ei osod fel maen prawf optimeiddio ac ystod addas o opsiynau gollyngiadau gyda manteision ac amseroedd cyflwyno amrywiol yn cael eu hystyried wrth lunio cynllun optimaidd. Wrth ystyried metrigau eraill, mae'n bosibl y ceir y gwerth gorau, neu'r gost leiaf hyd yn oed, wrth gyflawni gostyngiad o 25% erbyn 2030. Byddai hyn yn cael ei fethu pe byddai gostyngiad o 20% erbyn 2030 yn cael ei ddewis ymlaen llaw fel opsiwn.

cwsmeriaid i gymryd rhan mewn rheoli galw, yn ogystal â buddion eraill i'r amgylchedd.

Yn flaenorol, mae cwmnïau wedi defnyddio lefel economaidd gynaliadwy dull gollyngiadau i bennu lefelau gollyngiadau. Fodd bynnag, nid yw hyn bellach yn dderbyniol ar gyfer defnydd mewn Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr a dylech yn hytrach ystyried barn y llywodraeth, rheoleiddwyr a chwsmeriaid wrth benderfynu ar eich lefel arfaethedig o ollyngiadau.

Dylech archwilio'r defnydd o ddulliau arloesol i gyflawni gostyngiadau mewn gollyngiadau yn unol â chwmnïau blaenllaw.

Wrth ddethol rhagolwg gollyngiadau ar gyfer eich cynllun terfynol, dylech egluro'n glir y gwahanol weithgareddau sy'n cyfrannu at y lefel hon, gan gynnwys y buddion cyfeintiol ac o ran costau sy'n cyfrannu at y balans rhwng cyflenwad a galw.

Mae'r llywodraeth a rheoleiddwyr yn disgwyl i chi gyflawni'r gostyngiadau mewn gollyngiadau yn eich rhaglen ddelfrydol, yn enwedig yn y tymor byr. Dylech ystyried a rheoli'r ansicrwydd sydd o gwmpas eich rhaglen gollyngiadau a'r goblygiadau ar gyfer diogelwch cyflenwad os nad yw eich lefel arfaethedig yn cael ei bodloni.

Bydd rheoleiddwyr yn eich disgwyl i gyflawni'r ymrwymadau gollyngiadau a amlinellwyd yn eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr. Mae'n bosibl y caiff unrhyw newidiadau i raglen gollyngiadau eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr terfynol eu hystyried fel newid perthnasol ac mae'n bosibl y cewch eich cyfeirio i ail-ymgyngori ar eich cynllun. Dylech felly amlinellu cynlluniau uchelgeisiol, ond realistig, ar gyfer gollyngiadau o fewn eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr. Gallai dyheadau afrealistig achosi dryswch ymysg eich cwsmeriaid ac mae'n bosibl y bydd angen i chi wneud datganiad cyhoeddus os byddwch yn methu cyflawni eich gollyngiadau arfaethedig.

Dylech (o leiaf) fwriadu bodloni ymrwymiad Water UK, ar ran y diwydiant, i leihau gollyngiadau 50% erbyn 2050 (o lefelau go iawn 2017). Yn ogystal, dylech fwriadu bodloni unrhyw dargedau gollyngiadau a amlinellir ym methodoleg adolygu prisiau Ofwat neu gan y llywodraeth. Efallai yr hoffech ystyried gosod targedau mwy heriol i leihau gollyngiadau na'r rhain, os gallwch arddangos bod gennych gefnogaeth gan eich cwsmeriaid.

Yn y tymor canolig i'r tymor hir, cydnabyddir y bydd arloesedd yn ofynnol i leihau gollyngiadau 50% ac mae'n bosibl na fyddwch yn gwybod sut y byddwch yn cyflawni'r lefelau hyn. Os yw hyn yn wir, dylech ddangos eich bod yn ymchwilio'n weithredol i sut i gyflawni eich dyheadau. Dylai eich rhagolygon gollyngiadau fod yn gyson â'r data rydych yn ei gynnwys yn y cynllun busnes a ddarparwch i Ofwat fel rhan o'i broses adolygu prisiau.

Gweler hefyd y Canllawiau Atodol: Gollyngiadau.

9.3.2. Eich lefel arfaethedig o ddefnyddio mesuryddion

Lloegr

Dylech ddilyn y gofynion a amlinellir yn y ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer darparu gwybodaeth ac arfarnu'r defnydd o fesuryddion mewn cartrefi ac adrodd gwybodaeth yn y tablau cynllunio adnoddau dŵr perthnasol. Dylech nodi'n glir yn eich cynllun eich polisi defnyddio mesuryddion presennol ac yn y dyfodol a sut y byddwch yn gwarchod cwsmeriaid agored i niwed.

Dylai eich cynllun werthuso codi tâl yn ôl cyfaint sy'n seiliedig ar fesuryddion cyffredinol ar gyfer ardaloedd lle ystyrir bod straen dŵr difrifol neu a fyddai mesuryddion gorfodol yn un o'ch opsiynau delfrydol. Dylech hefyd ystyried defnyddio mesuryddion deallus, defnyddio mesuryddion pan mae meddiannydd yn newid, a defnyddio mesuryddion fesul stryd gyda bilio cymharol fel opsiynau yn eich cynllun.

Dylech ystyried buddion cynyddu treiddiad mesuryddion yn llwyr, gan gynnwys y gwaith o osod mesuryddion deallus. Dylech ystyried ystod o senarios fel rhan o'ch proses gwneud penderfyniadau, gan gynnwys un sy'n tybio y bydd mesurau'n cael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl. Dylech ystyried buddion lluosog defnyddio mesuryddion (a mesuryddion deallus), sy'n cynnwys lleihau gollyngiadau yn eich rhwydwaith ac ar eiddo cwsmeriaid eu hun, megis pibellau cyflenwi. Dylech hefyd ystyried y costau ychwanegol, p'un a ellir darparu'r cynllun, ac ansicrwydd ynglŷn â chyflawni'r buddion a dybir.

Dylech ddysgu o arferion da rhai cwmnïau sydd wedi cyflawni lefelau uchel o dreiddiad mesuryddion. Er enghraifft, mae rhai cwmnïau wedi defnyddio dulliau gwell neu flaengar i osod mesuryddion ac wedi annog eu cwsmeriaid i newid i dalu yn ôl y cyfeintiau o ddŵr sy'n cael eu defnyddio ganddynt. Dylech werthuso'r dulliau gwell hyn yn yr arfarniad o'ch opsiynau. Dylech hefyd ystyried yr opsiwn o ddefnyddio mesuryddion yn ddewisol lle mae defnydd uchel yn ôl disgresiwn. Dylai eich asesiad gynnwys buddion ehangach yr opsiynau hyn, gan gynnwys deall a rheoli'r galw am ddŵr, gwella ymgysylltiad â chwsmeriaid, gwarchod cwsmeriaid sy'n agored i niwed, a lleihau gollyngiadau.

Cymru

Dylai rhagolwg eich cynllun terfynol ddilyn polisi'r llywodraeth ac asesu opsiynau ar gyfer defnydd pellach o fesuryddion y tu hwnt i'r lefel sylfaenol. Dylech ddarparu manylion yn yr adrannau perthnasol o'r tablau cynllunio adnoddau dŵr.

9.3.3. Eich rhaglen arfaethedig o effeithlonrwydd dŵr

Mae gennych ddyletswydd i hyrwyddo defnydd effeithlon o ddŵr i'ch cwsmeriaid. Dylai eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr amlinellu sut y byddwch yn bodloni'r rhwymedigaeth hon.

Dylai eich cynllun arddangos eich ymagwedd ynglŷn ag ymweliadau cartref a busnes, ac ymgysylltiad â chwsmeriaid, i helpu i leihau galw. Dylech o leiaf ystyried ymweliadau â chwsmeriaid agored i niwed, y defnyddwyr dŵr mwyaf, a lle y gellir gwneud yr arbedion ariannol a dŵr mwyaf.

Dylech weithio gyda manwerthwyr i sicrhau bod cwsmeriaid dibreswyl yn derbyn y cyngor gorau ar gyfer gwella eu heffeithlonrwydd dŵr. Bydd angen i gwmnïau dŵr

yng Nghymru weithio'n uniongyrchol gyda chwsmeriaid oni bai eu bod yn cael eu cyflenwi gan fanwerthwr.

Dylech ystyried pa mor briodol yw'r defnydd o dariffiau a chymhellion gwahanol i'ch cwmni, a dylech asesu hyn fel rhan o unrhyw arfarniad o opsiynau.

9.3.4. Eich defnydd arfaethedig fesul pen

Dylai defnydd fesul pen eich rhaglen ddefnyddol ystyried unrhyw ragdybiaethau cynllunio perthnasol o ran gostyngiad mewn galw yn y dyfodol a amlinellir yn y Fframwaith Cenedlaethol, cynlluniau rhanbarthol, a thargedau a osodwyd gan y llywodraeth neu reoleiddwyr. Dylai hefyd ganiatáu ar gyfer dyheadau y gellir eu gosod drwy bolisi'r llywodraeth yn y dyfodol.

Dylai eich rhagolygon o ddefnydd fesul pen fod yn gyson â'r data rydych yn cynnwys yn y cynllun busnes (PR24) yr ydych yn ei ddarparu i Ofwat fel rhan o'i broses adolygu prisiau. Dylech gyfeirio at [ganllawiau adrodd cyson Ofwat](#) wrth lunio eich rhagolygon. Os yw'r lefel o ddefnydd fesul pen a gostyngiad galw a amlinellir yn eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn fwy na'r hyn a ganiateir yn eich cynllun busnes neu benderfyniad terfynol, dylech fodloni eich ymrwymadau yn eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr o hyd.

9.3.5. Trwyddedau a gorchmynion sychder

Lloegr

Dylech gynllunio, lle bo'n briodol, i ddefnyddio trwyddedau a gorchmynion sychder yn llai aml yn y dyfodol, yn enwedig mewn ardaloedd sensitif. Dylech ddefnyddio eich dealltwriaeth o'r risgiau amgylcheddol cysylltiedig â phob trwydded i lywio eich defnydd arfaethedig o drwyddedau a gorchmynion sychder.

Cymru

Dylech ond ystyried mesurau cyflenwi fel opsiynau ymateb i sychder lle nad oes unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol sy'n gysylltiedig â nhw.

9.4 Yr amgylchedd a chymdeithas

Mae'n bwysig yr ystyrir yr amgylchedd a chymdeithas yn llawn yn eich proses gwneud penderfyniadau. Dylai eich cynllun gyflawni amgylchedd gwell sydd wedi'i warchod a darparu budd i'r gymdeithas. Dylech ddangos fod eich cynllun yn darparu budd amgylcheddol cadarnhaol yn gyffredinol. Er enghraifft, dylech sicrhau bod yr opsiynau rydych yn eu rhoi ar waith yn cael llai o effaith ar yr amgylchedd nag unrhyw broblemau amgylcheddol rydych yn ceisio eu datrys.

Mae nifer o ffyrdd o ystyried yr amgylchedd a chymdeithas yn y broses gwneud penderfyniadau. Yn Lloegr, dylech ddefnyddio eich Asesiad Amgylcheddol Strategol,

enillion net o ran bioamrywiaeth ac asesiadau cyfalaf naturiol i lywio eich proses gwneud penderfyniadau. Os ydych yn gwmni dŵr yn Lloegr neu un sy'n cael effaith arni, mae'r Canllawiau Atodol: Yr amgylchedd a chymdeithas mewn prosesau gwneud penderfyniadau yn amlinellu sut y gallwch ystyried y dulliau hyn. Gallwch hefyd ystyried dulliau amgen os ydych yn eu hystyried yn fwy priodol. Os felly, dylech drafod eich dull gyda'r rheoleiddiwr perthnasol.

Os ydych yn gwmni yng Nghymru neu un sy'n cael effaith arni, mae'r Canllawiau Atodol: Yr amgylchedd a chymdeithas mewn prosesau gwneud penderfyniadau (Cymru) yn amlinellu sut y gallwch ystyried y dulliau hyn. Gallwch hefyd ddefnyddio dulliau amgen os ydych yn eu hystyried yn fwy priodol. Os felly, dylech drafod eich dull gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

9.4.1. Cyfalaf naturiol

Diffinnir cyfalaf naturiol yng Nghynllun yr Amgylchedd 25 mlynedd (Lloegr) fel 'yr elfennau o natur sy'n darparu gwerth i bobl un ai'n uniongyrchol ynteu'n anuniongyrchol'. Dylech ddefnyddio dull cyfalaf naturiol fel rhan o'ch proses gwneud penderfyniadau.

Fel dull newydd sy'n dod i'r amlwg, mae cyfalaf naturiol yn ymgorffori methodolegau a dulliau (megis gwasanaethau ecosystemau) i ddeall y gwerth y mae asedau naturiol yn eu darparu. Ar gyfer y diwydiant dŵr, gall y rhain fod yn sylweddol. Mae rhai cwmnïau dŵr wedi cychwyn gwneud penderfyniadau ar raddfeydd llai gan ddefnyddio amryw o ddulliau cyfalaf naturiol gwahanol.

Mae'r Canllawiau Atodol: Yr amgylchedd a chymdeithas mewn prosesau gwneud penderfyniadau (fersiynau i Gymru a Lloegr) yn amlinellu'r gwasanaethau y dylech eu hystyried a'r ffynonellau data sydd ar gael.

Yng Nghymru, mae'r [Strategaeth Ddŵr](#) yn amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru am i bobl werthfawrogi ac uniaethu â dŵr, a chymryd cyfrifoldeb dros gefnogi'r rheolaeth o gyfalaf naturiol. Dylech drafod eich ymagwedd tuag at gyfalaf naturiol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

9.4.2. Asesiad Amgylcheddol Strategol

Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 yn ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiad amgylcheddol ffurfiol o gategoriâu penodol o gynlluniau a rhaglenni sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd. Bydd angen i chi asesu p'un a fydd eich cynllun, neu opsiynau yn eich cynllun, yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae'n bosibl yr hoffech gyfeirio at y canlynol:

- [UKWIR \(2012\) Strategic Environmental Assessment and Habitats Regulations Assessment – Guidance for Water Resources Management Plans and Drought Plans \(sy'n cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd – disgwylir fersiwn newydd yn gynnar yn 2021\)](#)

- [Swyddfa y Dirprwy Brif Weinidog \(2005\) A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive](#)
- Mae Llywodraeth Cymru wedi trosi'r gyfarwyddeb yn rheoliadau priodol: [Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni \(Cymru\) 2004](#)

Y camau yn y broses Asesiad Amgylcheddol Strategol yw:

1. sgrinio i benderfynu a oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol
2. amlinellu'r cyd-destun ac amcanion, sefydlu'r sylfaen, a phenderfynu'r cwmpas (ac ymgynghori arno)
3. datblygu a mireinio opsiynau eraill ac asesu effeithiau
4. paratoi adroddiad amgylcheddol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol
5. ymgynghori ar y cynllun neu raglen ddrafft a'r adroddiad amgylcheddol
6. monitro effeithiau sylweddol gweithredu'r cynlluniau neu raglenni ar yr amgylchedd

Mae pob cam o Asesiad Amgylcheddol Strategol yn debygol o fod yn ofynnol pan fo'ch asesiad amgylcheddol yn nodi bod y cynllun yn debygol o achosi effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd.

Mae'n rhaid i chi ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw os yw'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cael effaith ar Gymru. Mae'n rhaid i chi ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd a Natural England os yw eich cynllun yn cael effaith ar Loegr. Mae'n rhaid i chi hefyd ymgynghori ag unrhyw ymgynghoreion statudol eraill.

9.4.3. Rheoliadau Cynefinoedd

Mae'n rhaid i chi sicrhau bod eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn bodloni gofynion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (y Rheoliadau Cynefinoedd), ac mae'n rhaid cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae'n rhaid i chi asesu effeithiau'r cynllun neu brosiect ar eu pen eu hunain, neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill – er enghraifft, effeithiau opsiynau cyflenwi ar safleoedd Ewropeaidd.

Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cyfeirio at yr asesiad o effeithiau tebygol neu bosibl cynllun neu brosiect ar un neu fwy o safleoedd Ewropeaidd, sef:

- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig dynodedig
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ymgeisiol (y rhai sydd wedi gwneud cais ffurfiol ond heb eu dethol neu ddynodi eto)
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig arfaethedig (safleoedd sy'n destun ymgynghoriad ar p'un a ddylent gael eu dynodi)
- safleoedd Ramsar dynodedig ac arfaethedig, nad ydynt wedi'u dynodi o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, ond o dan bolisi'r llywodraeth dylent fod â'r un lefel

o ddiogelwch ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig

Dyma fwy o wybodaeth ar safleoedd dynodedig yn [Lloegr](#) a [Chymru](#).

Ni ellir deddfu na mabwysiadu cynllun neu brosiect yn ffurfiol fel arfer oni bai y gellir dangos na fyddai'n cael effaith sylweddol debygol neu effaith niweidiol ar integreidd safle Ewropeidd, ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill. Mewn achosion eithriadol, gellir awdurdodi neu fabwysiadu cynllun neu brosiect er ei fod yn cael effaith niweidiol ar integreidd safle Ewropeidd, ond dim ond pan fydd y canlynol yn berthnasol:

1. nid oes datrysiadau amgen i gyflawni amcanion y cynllun neu brosiect
2. am resymau hanfodol, sef er budd cyhoeddus tra phwysig
3. mae mesurau cydbwyso wedi'u sicrhau i gynnal cydlyniad cyffredinol y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol

Felly, mae'n bwysig fod eich Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'i gychwyn cyn gynted â phosibl yn ystod cyfnod paratoi eich cynllun. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle gorau i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ddylanwadu ar y cynllun ac felly osgoi neu leihau effeithiau ar safleoedd Ewropeidd. Dylid gweld yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd fel proses ailadroddol drwy gydol datblygiad y cynllun. Pan nodir effeithiau, dylech ystyried sut y gallwch newid eich cynllun a phrosiectau, cyn eu hailasesu. Ni ddylech sgrinio opsiwn posibl allan dim ond oherwydd bod angen i chi gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Y prif gamau ym mhroses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yw:

1. cam sgrinio, gan gynnwys profi'r effaith sylweddol debygol
2. cam asesiad priodol, gan gynnwys penderfynu'r cwmpas a'r dull i'w defnyddio ar gyfer yr asesiad hwn
3. ymgynghoriad ac asesiad o'r effeithiau ar integreidd y safleoedd

Mae'n rhaid i chi ystyried effeithiau'r cynllun neu'r prosiect ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a/neu Natural England yn ymgynghoreion statudol ar gyfer proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a dylech ymgynghori â nhw yn gynnar ac yn enwedig yn ystod y cam sgrinio. Mae'n ddyletswydd gyfreithiol i ystyried eu cyngor yn y cam asesu priodol. Dylech hefyd ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd.

9.4.4 Gwella bioamrywiaeth (Lloegr)

Mae Cynllun yr Amgylchedd 25 mlynedd y llywodraeth yn gosod pwysigrwydd mawr ar wella bioamrywiaeth. Dylai eich cynllun edrych i gyfrannu at, a gwella, yr amgylchedd naturiol drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer ennill a gwella bioamrywiaeth.

Dylech ystyried pa gamau y gallwch eu cymryd yn eich cynllun i warchod a gwella bioamrywiaeth. Dylech osod amcanion i wella bioamrywiaeth a dylai'r rhain

ddylanwadu ar eich proses gwneud penderfyniadau. Dylech amlinellu'n glir yn eich cynllun sut mae eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn cyfrannu at wella bioamrywiaeth a sut byddwch yn gadael yr amgylchedd naturiol mewn cyflwr sy'n amlwg yn well na'r cyflwr presennol. Os ydych yn dod i gasgliad na allwch gymryd unrhyw gamau i wella bioamrywiaeth, dylech gyfiawnhau hyn yn eich cynllun.

Ar gyfer cynlluniau sydd angen caniatâd cynllunio, mae'n debygol y bydd angen cyfreithiol i chi ddarparu enillion net o ran bioamrywiaeth.²⁶ Dylech ystyried eich goblygiadau ym Mil yr Amgylchedd y dyfodol, sydd wrthi'n mynd drwy'r senedd ar hyn o bryd. Dylech ystyried mynd ymhellach na'r hyn a ellir fod yn ofynnol gan Fil yr Amgylchedd y dyfodol er mwyn darparu lefel uchelgeisiol o enillion net y gellir eu mesur o ran bioamrywiaeth. Dylech ymgorffori gwella bioamrywiaeth yng nghynllun eich opsiynau cyflenwi a throsglwyddo lle bo'n rhesymol. Os nad yw hynny'n bosibl, rydych yn debygol o orfod darparu rhywbeth cyfwerth â hynny oddi ar y safle.

Os gellir cyflawni enillion sylweddol o ran bioamrywiaeth, ond drwy gost ychwanegol sylweddol, gellir cynnwys hyn fel opsiwn ar wahân. Gallwch ystyried hynny yn eich arfarniad o'r opsiynau wedyn fel rhan o'ch cynllun gwerth gorau.

9.4.5. Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Rhaid i chi ystyried gofynion rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr wrth ystyried eich cynllun a ffeirir. Mae hyn yn cynnwys yr amcanion amgylcheddol cyfreithiol rwyml yn y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd.

Diffinnir Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed o dan Reoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, gyda'r nod o osgoi dirywiad yn ansawdd ffynonellau dŵr crai. Mae hyn er mwyn lleihau lefel y driniaeth buro sydd ei hangen yn y broses o gynhyrchu dŵr yfed. Dylai cwmnïau dŵr weithio gydag eraill i leihau lefel y driniaeth buro a chyflawni'r gofynion hyn mewn ffordd sy'n gosteifeithiol.

Dylai eich cynlluniau gynnwys ymgorffori cost-effeithiol ac wedi'i dargedu o fesurau adfer sy'n ofynnol ar raddfa'r dalgylch, un ai'n gweithio ar eich pen eich hunan neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill sydd wedi'u lleoli yn y dalgylch. O ystyried yr ansicrwydd ynglŷn â lefelau hyder, dylech ystyried egwyddorion rheolaeth addasol, gyda gwaith monitro cysylltiedig cyn ac ar ôl y prosiect.

9.4.6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Os yw eich cynllun yng Nghymru neu'n cael effaith arni, bydd angen i chi ystyried eich cyfraniad i'r nodau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf Llesiant yn ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy yn neddfwriaeth Cymru. Diffinnir datblygu cynaliadwy fel y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen gwneud hyn drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel bod y nodau llesiant yn cael eu cyflawni. Dylech gymhwyso'r ffyrdd o weithio fel y'u hamlinellir o fewn yr egwyddor datblygu cynaliadwy er mwyn gwneud y cyfraniad mwyaf i'r nodau llesiant.

²⁶ Gweler Canllawiau Atodol: Yr amgylchedd a chymdeithas mewn prosesau gwneud penderfyniadau am ragor o fanylion (fersiynau i Gymru a Lloegr).

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yn cynnwys nod i ddatblygu Cymru fwy gwydn, a gaiff ei ddisgrifio fel:

“cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).”

9.4.7. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Os yw eich cynllun yng Nghymru neu'n cael effaith arni, mae'n rhaid i chi ystyried Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn eich asesiad o'r amgylchedd.

- **Egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy:** Dylech ymgorffori egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn eich cynllun gyda'r amcan o gynnal a gwella ecosystemau. Bydd gwneud hyn yn cyfrannu at y nodau llesiant hefyd. Dylech ddangos yn glir fod yr egwyddorion hyn wir wedi eu hymgorffori o fewn eich prosesau meddwl a gwneud penderfyniadau.
- **Adran 6 – Y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau:** Mae'n rhaid i chi geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled ag y bo'n gyson ag ymarfer eich swyddogaethau'n briodol, a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau wrth wneud hynny.
- **Adran 7 – Rhestrau bioamrywiaeth:** Mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn cymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella'r rhywogaethau a chynefinoedd a gynhwysir o fewn rhestrau bioamrywiaeth Adran 7 a dylech ystyried Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru.
- **Datganiadau Ardal a Pholisi Adnoddau Naturiol:** Dylech ystyried sut mae eich cynllun (lle mae'n effeithio ar Gymru) yn cyfrannu at y blaenoriaethau a amlinellir yn y Polisi Adnoddau Naturiol. Mae Datganiadau Ardal yn cynrychioli'r gwaith o weithredu, mewn modd sy'n seiliedig ar leoedd, y Polisi Adnoddau Naturiol. Dylech ystyried y blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd a amlinellir o fewn unrhyw Ddatganiad Ardal sy'n berthnasol i'ch cynllun a sut allai camau gweithredu cydweithredol sy'n gysylltiedig â'r rhain arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer pobl a'r amgylchedd.
- **Lleihau carbon:** Dylai eich cynllun (lle mae'n effeithio ar Gymru) gefnogi polisi o leihau'r ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â thynnu, storio, trin a darparu dŵr. Dylai eich cynllun gefnogi'r gwaith o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o leiaf yn unol â chyllideb garbon ddiweddaraf Llywodraeth Cymru.

Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn amlygu ehangder a chyflwr yr adnoddau naturiol yng Nghymru a'r heriau y maent yn eu hwynebu. Mae'n darparu mwy o wybodaeth ac enghreifftiau o'i ddefnydd i asesu cydnerthedd ecosystemau, a chyfleoedd i adeiladu cydnerthedd yng Nghymru. Mae Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol hefyd yn cynnwys mesurau effeithlonrwydd dŵr.

Mae'n bosibl y bydd safleoedd dynodedig lleol eraill (fel Gwarchodfeydd Natur Lleol) yn cael eu hystyried yn risg is, ond efallai y bydd angen i chi roi ystyriaeth benodol i nodweddion arbennig.

9.4.8. Pethau eraill i'w hystyried

Dylech geisio sicrhau bod unrhyw ddatblygiad yn darparu enillion amgylcheddol ehangach sy'n berthnasol i'r ardal leol, megis perygl is o lifogydd, gwelliannau i ansawdd aer neu ddŵr, neu mwy o fynediad at fannau gwyrdd naturiol.

9.5. Gwydnwch

Dylai eich cynllun terfynol wella gwydnwch eich cyflenwadau, yn enwedig lle mae eich asesiad o'r perygl a berir gan sychder wedi nodi eich bod yn agored i sychder o ddifrifoldeb a/neu faint sylweddol. Dylech hefyd sicrhau bod yr opsiynau yr ydych yn eu dethol yn wydn i sychderau a pheryglon eraill fel tywydd eithafol. Gallech ddefnyddio'r fframwaith ar gyfer y peryglon a berir gan sychder neu ddull cyfwerth i wneud hyn.

Os yw eich rhaglen ddelfrydol yn darparu buddion gwydnwch ehangach, dylech amlinellu'n glir pa risgiau rydych yn mynd i'r afael â nhw a sut y bydd yr opsiynau yn lleihau'r risgiau hyn. Dylech egluro sut mae'r risgiau rydych yn mynd i'r afael â nhw yn eich cynllun yn sefyll o fewn y risg ehangach a wynebir gan eich cwmni a'ch rhanbarth.

Ni ddylai eich cynllun terfynol gynnwys unrhyw ddiffygion cynllunio terfynol. Gallai cyflawni gwydnwch i sychder 1 mewn 500 mlynedd (lle bo'n berthnasol) eich gadael â rhai diffygion cychwynnol ar ddechrau'r cyfnod cynllunio wrth i chi weithredu eich datrysiadau gwerth gorau delfrydol. Os felly, dylech ddangos y mesurau sychder ychwanegol y byddech yn eu defnyddio i gyrraedd y lefel hon o wydnwch yn y cyfamser. Fel arall, dylech arddangos eich lefel is o wasanaeth, fel opsiwn a ddetholwyd, ar gyfer y cyfnod interim hwn a chyflwyno hyn yn eich tablau cynllunio.

Os oes gennych gynlluniau strategol mawr, gallwch ddefnyddio'r fframwaith o'r peryglon a berir gan sychder i asesu eu cyfraniad at eich gwydnwch. Fel arall, gallwch ddefnyddio'r asesiad o'r peryglon a berir gan sychder i arddangos gwell gwydnwch eich cynllun terfynol.

10. Sut i lunio'ch cynllun gwerth gorau

Mae'r adran hon yn disgrifio sut y dylech lunio'ch cynllun gwerth gorau. Defnyddir y derminoleg ganlynol yn y bennod hon:

- Canlyniad – cyflawni cynllun gwerth gorau fel y disgrifir yn y ddogfen hon
- Amcanion – pethau lefel uchel y gellir eu cyflawni fel 'cynyddu gwydnwch'
- Metrigau – mynegeion mesuradwy am y gwerth gorau sy'n ymwneud â'r amcanion

Dylech gyflawni'r canlynol wrth ichi ddatblygu'ch cynllun gwerth gorau, gan gyfeirio at yr ystyriaethau a nodir yn Adran 9:

- gosod amcanion clir ar gyfer eich cynllun (Adran 10.2)
- nodi ac ystyried metrigau gwerth gorau (Adran 10.3)

- nodi'ch cynllun cost leiaf i ddarparu meincnod ar gyfer eich rhaglenni eraill (Adran 10.4)
- datblygu dull gwneud penderfyniadau (Adran 10.5)
- arfarnu a chymharu gwahanol raglenni (Adran 10.6)
- ymgysylltu'n effeithiol (Adran 10.7)
- ystyried a yw cynllun addasol yn briodol (Adran 10.8)
- profi eich cynllun (Adran 10.9)
- cyflwyno a chyfiawnhau'r cynllun o'ch dewis yn glir (Adran 10.10)

10.1. Methodolegau

Dylech ystyried y fethodolegau canlynol wrth wneud penderfyniadau:

- UKWIR (2002), [The Economics of Balancing Supply & Demand \(EBSA\)](#)
- UKWIR (2016), [WRMP 2018 Methods – Decision Making Process: Guidance](#)
- [UKWIR \(2020\), Deriving a Best Value Water Resources Management Plan](#)

Dylai eich asesiad nodweddu problemau lywio eich dull gwneud penderfyniadau. Gellir archwilio unrhyw gymhlethdodau penodol trwy ganllaw UKWIR ar [gynllunio seiliedig ar risg](#) (2016) a thrwy ddatdangosiad sensitifrwydd priodol.

Dylech gyfeirio at ddogfen UKWIR, [The Economics of Balancing Supply & Demand \(EBSA\)](#), pan fyddwch yn cynhyrchu cynllun cost leiaf fel meincnod i werthuso eich rhaglenni eraill yn ei erbyn.

Mae canllawiau UKWIR ar [y broses gwneud penderfyniadau](#) yn disgrifio offer gwneud penderfyniadau a dulliau ategol sydd ar gael i chi fel dewis arall yn lle EBSA. Gallwch hefyd ystyried a fyddai cynllun addasol yn briodol.

Efallai y byddwch yn gweld dogfen UKWIR, [Deriving a Best Value Water Resources Management Plan](#), yn ddefnyddiol wrth datblygu eich dull cynllunio gwerth gorau ond nid oes rhaid i chi ei defnyddio. Mae'r canllawiau yn y bennod hon yn nodi disgwyliadau rheoleiddwyr.

Dylech hefyd ystyried y canllawiau atodol canlynol:

- [Canllawiau atodol – Cynllunio addasol \(gweler hefyd Adran 10.6\)](#)
- [Canllawiau atodol – Yr amgylchedd a chymdeithas wrth wneud penderfyniadau \(Lloegr\)](#)
- [Canllawiau atodol – Yr amgylchedd a chymdeithas wrth wneud penderfyniadau \(Cymru\)](#)

10.2. Gosod amcanion clir ar gyfer eich cynllun

Dylai eich cynllun nodi'n glir yr amcanion rydych chi'n ceisio eu cyflawni yn eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr gwerth gorau neu'r cynllun rhanbarthol. Dylech drafod

yr amcanion hyn gyda rheoleiddwyr a rhanddeiliaid yn ystod proses cyn-ymgyngori eich cynllun. Dylai'r amcanion hyn gael eu diffinio ar ddechrau'r broses gynllunio a'u defnyddio'n gyson trwy gydol arfarniad y rhaglen. Dylech egluro'ch rhesymau dros ddewis eich amcanion. Dylai eich amcanion gael eu llywio gan bolisi'r llywodraeth a'r rheoleiddwyr a dyheadau eich cwmni, cwsmeriaid a rhanddeiliaid. Efallai y bydd amcanion y cynllun rhanbarthol, lle bo hynny'n berthnasol, yn llywio'ch amcanion hefyd.

Gallwch fireinio a diweddarau eich amcanion yn ystod y broses o baratoi eich cynllun, ond dylech egluro'n glir eich rheswm dros unrhyw newidiadau a'r effaith ddilynol ar y rhaglen o'ch dewis.

Dylai eich cynllun egluro sut mae'r rhaglen o'ch dewis yn cyflawni'r canlyniad ac yn bodloni eich amcanion.

10.3. Metrigau

Dylech ystyried ystod eang o fetrigau gwerth gorau i'w defnyddio wrth wneud penderfyniadau, wedi'u llywio gan eich amcanion. Gallwch ystyried y rhestr o ffactorau yn Adran 9.2 wrth lunio'ch metrigau, er nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a gallwch ystyried ffactorau eraill.

Dylid penderfynu ar eich metrigau cyn dechrau asesu opsiynau dichonadwy. Dylech ystyried ar ba lefel y mae'n briodol defnyddio'r metrigau hyn – er enghraifft, ar y lefel opsiwn neu raglen unigol.

Os yw cynllun rhanbarthol sydd â metrigau penodol yn effeithio ar eich cynllun, dylech ddefnyddio'r un metrigau yn eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr, er mwyn tryloywder. Dylech ystyried a oes angen unrhyw fetrigau ychwanegol yn eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr. Mae defnyddio'r un metrigau ond yn berthnasol i'r rhannau hynny o'ch cynllun y mae cynllun rhanbarthol yn effeithio'n uniongyrchol arnynt.

Fe'ch anogir i ystyried ystod eang o fetrigau, risgiau a gwerthoedd, a ddylai gael eu cefnogi gan ddata a dadansoddiad cadarn. Bydd hyn yn sicrhau y gellir mesur cyflwyno canlyniadau ac amcanion tymor hir ar gyfer cynlluniau rhanbarthol a chwmnïau dros amser. Gellir defnyddio'r amcanion hyn i fonitro'ch perfformiad yn erbyn y cynllun, lle bo hynny'n briodol.

Dylai'r metrigau a ddewiswyd lywio rhaglen a all sicrhau buddion neu werth net y tu hwnt i fodloni isafswm gofynion y ddyletswydd gyflenwi mewn modd cost leiaf. Dylech ddatblygu eich portffolio o fetrigau dros sawl cylch cynllunio wrth i wybodaeth well ddod ar gael.

Wrth ddewis a chymhwyso'ch metrigau gwerth gorau, dylech nodi'n glir lle mae risg bosibl o gyfrif buddion ddwywaith a sut rydych chi wedi cyfrif am hyn wrth ddatblygu eich cynllun. Os byddwch yn rhoi pwysoliadau ar eich metrigau gwerth gorau, dylech ddarparu cyfiawnhad priodol dros y dull a ddefnyddir i benderfynu ar y rhain. Dylech gymhwyso craffu ychwanegol ar unrhyw fetrigau rydych chi'n eu hasesu gan ddefnyddio dull goddrychol i sicrhau eu bod yn gadarn ac nad ydyn nhw'n cyflwyno unrhyw duedd. Dylid amlinellu cywirdeb, ansicrwydd a sensitifrwydd y costau a'r

metrigau a ddefnyddir yn glir. Dylech ailoptimeiddio'r rhaglen o'ch dewis os gwneir newidiadau i'r amcanion neu'r metrigau.

Ni ellir casglu pob elfen o wneud penderfyniadau yn ddigonol trwy fetrigau. Os yw hyn yn wir, dylech sicrhau eich bod yn nodi sut y byddwch yn eu gwerthuso ac yn eu casglu wrth wneud penderfyniadau. Dylech hefyd nodi'n glir unrhyw ansicrwydd neu ragdybiaethau sy'n gysylltiedig â'r metrigau o'ch dewis. Gallech ystyried dadansoddiad sensitifrwydd o amgylch eich metrigau pan fyddant yn ansicr neu'n oddrychol.

10.4. Rhaglen cost leiaf

Dylech gynhyrchu rhaglen cost leiaf fel meincnod i werthuso'ch rhaglenni eraill yn ei herbyn.

Dylai'r cynllun cost leiaf fodloni'ch gofynion statudol a dylai gael ei lywio gan eich Aseiad Amgylcheddol Strategol a'ch Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd. Dylai'r cynllun cost leiaf gynnwys disgwyliadau polisi ynghylch rheoli galw.

10.5. Eich dull gwneud penderfyniadau

Dylech ddatblygu dull gwneud penderfyniadau i arfarnu a dewis opsiynau i'w cynnwys yn y rhaglen o'ch dewis yn eich cynllun gwerth gorau.

Dylai eich dull gwneud penderfyniadau fod yn glir ac yn dryloyw ac wedi'i nodi yn eich cynllun, a dylai ystyried yr agweddau ar y gwerth gorau a nodir yn Adran 9.

Dylai eich cynllun gyflwyno'n glir, yn gadarn ac yn dryloyw sut yr ystyriwyd a chymhwyswyd eich metrigau gwerth gorau wrth ddewis y rhaglen o'ch dewis i gyflawni'ch amcanion penodol.

Dylech ddangos bod eich dull gwneud penderfyniadau yn gyson â meysydd eraill o'ch cynllunio busnes er mwyn sicrhau bod yr holl benderfyniadau hirdymor yn digwydd trwy ddull cyson. Dylai cwsmeriaid, partïon â diddordeb a rheoleiddwyr allu deall sut a pham rydych chi wedi penderfynu ar y rhaglen o'ch dewis a pham rydych chi wedi diystyru atebion eraill.

Pa bynnag ddull gwneud penderfyniadau a ddewiswch, dylid cyfiawnhau'ch set olaf o opsiynau yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Dylech ddisgrifio'n glir sut y penderfynwyd ar raglen o'ch dewis a sut gwnaethoch chi gynnwys y bwrdd yn y broses. Dylech ystyried yr agweddau ar y cynllun gwerth gorau a nodir yn Adran 9.

10.6. Arfarnu rhaglenni

Dylech gynnal arfarniad o raglenni amgen i gyfiawnhau'r rhaglen o'ch dewis. Dylech lunio ac ystyried yn ofalus ystod o raglenni sy'n dangos gwahaniaethau gwirioneddol mewn ffocws, ond sy'n dal i gyflawni'ch amcanion.

Dylech gynnal profion sensitifrwydd a/neu brofion senario ar eich rhaglenni i ddeall unrhyw bwyntiau tyngedfennol a allai effeithio ar eich penderfyniadau a chynnwys

eich rhaglen. Mae'n bwysig eich bod yn cynnal arfarniad rhaglen trylwyr ac egluro a chyfiawnhau eich penderfyniadau eich hun ynglŷn â'r rhaglen o'ch dewis.

Yn eich arfarniad rhaglen, dylech ystyried y rhaglen cost leiaf (Adran 10.4) a rhaglen 'amgylchedd a chymdeithas orau' fel rhaglenni amgen, o leiaf. Dylai'r rhaglen 'amgylchedd a chymdeithas orau' fod yn un sy'n cael ei ffurfio gan ddefnyddio'r canllawiau atodol perthnasol ar yr amgylchedd a chymdeithas ac felly'n ystyried yr Aseiad Amgylcheddol Strategol, yr Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd, enillion net bioamrywiaeth a chyfalaf naturiol lle bo'n briodol. Bydd nifer y rhaglenni amgen y dylech eu hystyried yn dibynnu ar gymhlethdod eich problem a'r opsiynau sydd ar gael i'w datrys.

Dylech ystyried y canlynol wrth arfarnu eich rhaglenni:

- adolygu'ch rhaglenni yn erbyn eich amcanion, eich metrigau gwerth gorau, polisi ac uchelgeisiau'r llywodraeth, ac ystyriaethau eraill a nodir ym Mhennod 9
- disgrifio effeithiau rhaglenni a nodi costau a buddion pob rhaglen yn glir. Dylai hyn gynnwys y canlynol:
 - rhestr o'r opsiynau a ddewiswyd yn y rhaglen
 - disgrifiadau meintiol ac ansoddol ac â gwerth ariannol o effeithiau'r rhaglen
 - dadansoddi a disgrifio arwyddocâd effeithiau
 - cyfanswm cost cyflawni pob rhaglen, gan gynnwys proffil o gostau yn erbyn amser
- manylion y rhaglenni, gan gynnwys yr holl gostau a buddion. Os ydych wedi defnyddio metrigau i'ch helpu i ddiffinio rhaglenni, dylech edrych ar y data ategol a lywiodd y metrigau hyn. Er enghraifft, os oes gennych fetrig amgylcheddol a chymdeithasol, dylech ystyried gwir gostau a buddion amgylcheddol a chymdeithasol pob rhaglen, nid y metrig yn eich arfarniad rhaglen yn unig

Dylech ddarparu tabl cryno o'r rhaglenni rydych chi wedi'u hystyried sy'n cynnwys y gost a chanlyniad asesu'r opsiynau a'r rhaglenni yn erbyn pob metrig gwerth gorau rydych chi wedi'i gymhwyso wrth wneud penderfyniadau. Dylai'r crynodeb hwn o rhaglenni fod yn hygyrch i gwsmeriaid, rhanddeiliaid a rheoleiddwyr a'u galluogi i ddeall eich proses benderfynu.

Dylai costau a buddion eich cynllun gwerth gorau, eich rhaglen cost leiaf a'r rhaglenni eraill sy'n destun arfarniad gennych gael eu nodi'n glir ac fel y gellir eu cymharu. Wrth ystyried buddion lluosog, dylech fod yn glir yn eich cynllun gwerth gorau na ellid cyflawni'r buddion ychwanegol hyn a nodwyd yn fwy effeithlon trwy ddulliau eraill.

10.7. Ymgysylltu'n effeithiol

Dylai eich cynllun ddangos ymgysylltiad effeithiol â rheoleiddwyr, rhanddeiliaid a chwsmeriaid ar gyfnodau allweddol trwy gydol datblygiad y cynllun. Dylai eich dull arfaethedig o gynllunio gwerth gorau fod yn rhan o'r wybodaeth rydych chi'n ei chyflwyno yn y cam cyn ymgynghori. Dylech barhau â'ch ymgysylltiad wrth ddatblygu eich cynllun.

Rhaid cyflwyno costau a buddion y rhaglen o'ch dewis a dewisiadau amgen, gan gynnwys cymharu â meincnod y rhaglen cost leiaf, yn glir i reoleiddwyr, rhanddeiliaid a chwsmeriaid. Dylai'r ffordd mae'r ymgysylltiad hwn wedi llywio'r penderfyniadau a wnaed yn y cynllun fod yn glir.

10.8. Cynllunio addasol

Mae cynllun addasol yn fframwaith sy'n eich galluogi i ystyried rhaglenni neu opsiynau lluosog o'ch dewis. Dylai'r cynllun addasol nodi sut y byddwch yn gwneud penderfyniadau o fewn y fframwaith hwn.

Dylech ystyried cynllun addasol os oes gennych y canlynol:

- ansicrwydd sylweddol, ar unrhyw gam o'r cyfnod cynllunio, yn enwedig yn ystod 5-10 mlynedd gyntaf eich cynllun
- penderfyniad strategol yn nhymor canolig y cynllun, sydd ag amser cyflwyno hir
- ansicrwydd hirdymor mawr a allai eich arwain at ystyried gwahanol opsiynau a ffefrir
- Os ydych yn defnyddio cynllun addasol, dylech nodi'n glir ar ba bwynt y bydd pob penderfyniad yn cael ei wneud, sut y bydd pob penderfyniad yn cael ei wneud, a sut y byddwch yn monitro eich cynllun. Dylech ystyried sut y bydd eich cynllun addasol yn effeithio ar eich hyblygrwydd a sicrhau nad ydych yn cyfrif math o ansicrwydd ddwywaith. Dylai'r gwahaniaethau rhwng eich llwybrau addasol fod yn glir, o safbwynt y costau, y buddion a'r datrysiadau dewisol, . Dylai'r cynllun nodi'r senarios allweddol (gan gynnwys unrhyw senarios sy'n ofynnol ar gyfer PR24) rydych wedi'u profi (gweler adran 10.9) a sut mae'r llwybrau'n addasu orau i'r rhain. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:
 - cyflwyno llwybr unigol manwl sy'n cyd-fynd â'r senario, neu'r set fwyaf tebygol o senarios (y cynllun a ffefrir gennych). Mae'r llwybrau addasol gyfystyr wedyn â'r newidiadau hynny yn y dyfodol sy'n symud i ffwrdd o'r senario fwyaf tebygol hon, sy'n gysylltiedig â throthwyon clir.
 - llwybr craidd sy'n cynnwys gweithgareddau i fodloni senarios sydd â risg isel ond sy'n debygol, sy'n dangos buddsoddiad â lefel edifar isel er mwyn lliniaru ansicrwydd yn y dyfodol, fel

a ddisgrifiwyd gan Ofwat (gan gynnwys darparu gwerth opsiwn ychwanegol, er mwyn galluogi rhagor o hyblygrwydd yn y dyfodol). Dylid sicrhau bod hyn yn ddigon manwl i ddeall yr anghenion, y trothwyon a'r buddsoddiadau sy'n rhan o'r llwybr hwn. Dylid disgrifio'r gwahaniaethau rhwng y llwybrau mwyaf tebygol a'r llwybrau craidd, a nodi gwahaniaethau yn yr opsiynau a ddewiswyd. Bydd hyn yn cynorthwyo gyda gofynion PR24.

Dylech nodi'n glir sut y bydd cwsmeriaid a'r amgylchedd yn elwa ar eich cynllun addasol. Dylech hefyd nodi sut y byddwch yn hysbysu'ch cwsmeriaid a'ch rhanddeiliaid pan gyflawnir trothwy a rhoi gwybod iddynt am newid dilynol yn y trywydd rydych yn ei ddilyn a/neu yn y cynllun a ffefrir gennych.

Mae'r Canllawiau Atodol: Cynllunio addasol yn darparu gwybodaeth bellach ar lunio cynllun addasol.

10.9. Profi'ch cynllun

Er y dylai'r cynllun dewisol nodi'r penderfyniadau y byddwch yn eu cymryd yn seiliedig ar eich dealltwriaeth orau o'r dyfodol, mae'r dyfodol yn ansicr. Felly dylech hefyd ddisgrifio'n glir y meysydd ansicrwydd mwyaf, ac egluro pa faes allai gael y dylanwad mwyaf ar eich cynllun. Dylech gynnal profion senario i ddangos y canlynol:

- cydnerthedd eich cynllun i amrywiaeth o risgiau, gan gynnwys risgiau hysbys i gynnyrch opsiynau ac i'r gallu i'w cyflawni eich bod wedi ystyried y risgiau hyn wrth ddatblygu eich cynllun ac amseriadau posibl yr effeithiau hyn, gan gynnwys newidiadau cynaliadwyedd posibl yn y dyfodol
- bod y cynllun yn gallu gwrthsefyll mân newidiadau i ragolygon cyflenwad a galw yn y dyfodol agos a newidiadau cymedrol wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen

Dylech, o leiaf, brofi sensitifrwydd eich cynllun i newidiadau o ran y canlynol:

- twf yn y boblogaeth
- newid yn yr hinsawdd
- newidiadau cynaliadwyedd
- gwytnwch
- proffil risg
- cyflwyno'r rhaglen o'ch dewis – opsiynau rheoli galw a chyflenwad

Dylech ddefnyddio profion senario i helpu i ddilysu'r rhaglen o'ch dewis neu i asesu a fyddai rhaglenni amgen yn fwy priodol. Gallai hefyd nodi a allai cynllun addasol fod yn briodol. Gallai profion senario helpu i wneud y canlynol:

- cyfiawnhau dull hyblyg neu sefydlog
- cyfiawnhau cynllun addasol
- dangos pryd y dylid gwneud penderfyniadau pwysig
- nodi'r hyn y dylech ei fonitro i reoli risg
- nodi dewisiadau amgen neu sut y gall y cynllun newid yn y dyfodol mewn ymateb i dystiolaeth newydd

10.10. Cyflwyno a chyfiawnhau eich cynllun

Dylai'r rhaglen gwerth gorau o'ch dewis gael ei chyfiawnhau'n gadarn ac yn dryloyw. Dylech ddisgrifio'n glir sut y daethpwyd i'r penderfyniad ar raglen o'ch dewis a sut gwnaethoch chi gynnwys y bwrdd yn y broses.

Dylech ddarparu tystiolaeth eich bod wedi ystyried effaith ansicrwydd ac wedi cynnal dadansoddiad sensitifrwydd. Dylech ystyried ffyrdd o gyflwyno gwybodaeth yn glir fel y gall rheoleiddwyr, rhanddeiliaid a chwsmeriaid ddeall sut mae'r rhaglenni'n cymharu.

Dylai eich cynllun fod yn effeithlon ac yn fforddiadwy gydag effeithiau dosbarthiadol, tegwch cymdeithasol ac ystyriaethau tegwch rhwng y cenedlaethau yn cael eu trafod yn dryloyw.

Dylech ddarparu asesiad ar wahân o gostau a buddion/effeithiau eich cyrchfan amgylcheddol hirdymor. Dylech drafod hyn gyda rheoleiddwyr wrth ddatblygu'r cynllun rhanbarthol (lle bo hynny'n berthnasol) a dylech ymgynghori â rhanddeiliaid cyn iddo gael ei gyflwyno yn eich Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr.